



HM Government

CONTEST

Strategaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer
gwrthsefyll Terfysgaeth

Mehefin 2018



CONTEST

Strategaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer
gwrthsefyll Terfysgaeth

Cyflwynir i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref
trwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn:
www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn
public.enquiries@homeoffice.gsi.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0209-9

CCS0218929798

06/18

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys
75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran
Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weinidog	3
Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref	5
Crynodeb Gweithredol	7
Cyflwyniad	13
Rhan 1: Cyd-destun strategol	15
Bygythiad terfysgaeth	15
Ffactorau strategol	24
Rhan 2: Ein Hymateb	27
CONTEST: ymateb y DU i derfysgaeth	27
Atal	33
Ymlid	45
Amddiffyn	55
Paratoi	66
Tramor	73
Ymatebion trawsbynciol	81
Rhan 3: Gweithredu	85
Llywodraethu a goruchwyllo	85
Cyllid	88
Perfformiad	90
Atodiad: Rolau a chyfrifoldebau	91



Rhagair gan y Prif Weinidog



Fe wnaeth ymosodiadau arswydus y llynedd ar Lundain a Manceinion ein hatgoffa'n drawiadol o'r bygythiad parhaus y mae terfysgaeth yn ei gyflwyno, i'n pobl ac i'n ffordd o fyw.

P'un ai a yw'n cael ei ysbrydoli gan eithafiaeth Islamaidd, y pell dde, neu'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon, nod cyffredinol terfysgwyr unigol a'r grwpiau sy'n eu cefnogi yw'r un – achosi niwed, codi ofn ac, wrth wneud hynny, ceisio tanseilio hanfod ein cymdeithas.

Ni allant ac ni chaniateir iddynt lwyddo.

Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Gwrthderfysgaeth ddiwethaf y Llywodraeth yn 2011, rydym wedi cymryd camau cynhwysfawr i fynd i'r afael â risgiau yn y DU a thramor. Â'i chymorth, mae'r heddlu a'r gwasanaethau diogelwch wedi rhwystro 25 o gynllwynion Islamaidd eithafol ers mis Mehefin 2013, a phedwar cynllwyn terfysgol gan yr asgell dde eithafol yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig.

Er gwaethaf ei holl lwyddiannau, yn ystod y blynyddoedd ers gweithredu'r Strategaeth, nid yw'r bygythiad a wynebwn o derfysgaeth wedi aros yn ei unfan. Mae'r rhyfel yn Syria, a oedd newydd ddechrau pan gyhoeddwyd y Strategaeth ddiwethaf, wedi creu hafan a maes hyfforddi ar gyfer terfysgwyr o Brydain a thramor. Mae dinasyddion y DU wedi'u targedu mewn ymosodiadau dramor, er enghraifft yn Sousse yn 2015. Mae hyd yn oed natur yr ymosodiadau wedi newid, â cherbydau'n cael eu defnyddio'n gynyddol fel arfau er mwyn lladd ac anafu pobl ddiniwed.

Yn sgîl yr ymosodiadau yn Llundain a Manceinion, fe wneuthum addo adolygiad cynhwysfawr o'n hymagwedd tuag at wrthsefyll terfysgaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio mor effeithiol â phosib. Y Strategaeth newydd hon yw canlyniad yr adolygiad hwnnw: adeiladu ar gynnydd a wnaed ers 2011 a datblygu i wrthsefyll bygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa gyfnewidiol ledled y byd, ac i ddysgu gwersi o'r ymosodiadau trychinebus yn y DU dros y flwyddyn ddiwethaf.

Oherwydd bod y bygythiad rydym yn ei wynebu'n fawr ac yn amrywiol, mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio'n llawer mwy ar gydlyn systemig ar draws y sector cyhoeddus. Trwy gysylltu nid yn unig yr asiantaethau cudd-wybodaeth ond hefyd awdurdodau lleol, darparwyr iechyd a llawer o bobl eraill, bydd yn ei wneud yn anoddach nag erioed i derfysgwyr a'r rhai hynny sy'n eu cefnogi gynllunio a chynnal ymosodiadau.

Mae'r ymagwedd gydgyssylltiedig hon – uno'r Llywodraeth, y sector cyhoeddus ehangach ac unigolion o gwmpas nod gyffredin o atal terfysgaeth – yn adlewyrchu ymateb y cyhoedd i'r gweithredoedd anfad terfysgol a welwyd gennym y llynedd. Yn ystod y dyddiau a'r wythnosau ar ôl yr ymosodiadau, roeddwn yn falch o'r ffordd y daeth y wlad at ei gilydd i wrthwynebu'r rhai hynny a fyddai'n ein gwahanu.

Y ffaith ein bod yn gwrthod cael ein trechu gan derfysgaeth yw ein hased fwyaf yn y frwydr yn ei herbyn. Ond i fod yn wirioneddol effeithiol, mae'n rhaid ei chyfuno â mesurau ymarferol i atal eithafiaeth, i fynd ar drywydd y rhai hynny a fyddai'n peri niwed ni, i amddiffyn ein gwlad yn erbyn ymosodiadau a chael ein paratoi'n briodol pe byddai'r gwaethaf yn digwydd.

Bydd y Strategaeth hon yn darparu'r cymorth a'r cyfeiriad i'r heddlu, y gwasanaethau diogelwch ac eraill sydd arnynt eu hangen i wneud hynny.

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'T. May', with a stylized flourish at the end.

Y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS
Prif Weinidog

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref



Dyletswydd gyntaf y llywodraeth, a'm blaenoriaeth uchaf i fel Ysgrifennydd Cartref, yw amddiffyn y cyhoedd. Roedd ymosodiadau y llynedd yn ysgytwad i ni i gyd. Ond yn hytrach na rhwygo ein cymdeithas yn racs, dim ond cryfhau ein penderfyniad a'n hymrwymiad i'n gwerthoedd a rennir a wnaethant. Mae'r strategaeth hon yn pennu sut y bydd y llywodraeth hon yn parhau i ymateb i'r bygythiad difrifol ac esblygol a achosir gan derfysgaeth mewn modd sy'n cadw ein ffordd o fyw.

Uchelgais terfysgwyr yw ein rhannu – gyrru hollt rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld Daesh yn manteisio ar ansefydlogrwydd gwleidyddol a gwrthdaro i gael troedle yn Syria ac Irac. Er gwaethaf gweithredu gan glymblaid byd-eang i leihau ei diriogaeth a'i seilwaith, mae gweithredoedd a phropaganda Daesh yn golygu ei fod yn parhau i fod y bygythiad terfysgol mwyaf arwyddocaol rydym yn ei wynebu heddiw. Wedi dweud hynny, mae Al Qa'ida yn parhau i beri bygythiad parhaus i'r Gorllewin ac yn ein gwlad ni, rydym hefyd yn wynebu bygythiad cynyddol gan derfysgaeth eithafol yr asgell dde yn ogystal â risg barhaus o derfysgaeth sy'n gysylltiedig â Gogledd Iwerddon. Mae'r bygythiad a wynebwn yn lluosog, yn amrywiol ac yn datblygu.

Y gwirionedd plaen yw na fydd byth yn bosibl atal pob ymosodiad. Nid ydym yn byw mewn gwladwriaeth â gwyliadwriaeth ac nid ydym eisiau gwneud hynny. Felly mae'n rhaid i'n hymateb barhaus i fod yn gymesur, yn gynhwysol ac yn amodol ar oruchwyliaeth gref. Trwy weithio gyda'n gilydd, gyda'r heddlu, asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, y sectorau preifat a chyhoeddus, y gymdeithas sifil, partneriaid rhyngwladol, ac wrth gwrs y cyhoedd, byddwn ni'n sicrhau na all terfysgwyr ac na fydd terfysgwyr yn newid ein ffordd o fyw.



Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS
Yr Ysgrifennydd Cartref



Crynodeb Gweithredol

1 Mae ein hymateb i wrthderfysgaeth wedi'i adeiladu ar ymagwedd sy'n uno'r sectorau cyhoeddus a phreifat, cymunedau, dinasyddion a phartneriaid tramor o amgylch yr un pwrpas i sicrhau na fydd unrhyw le diogel i derfysgwyr recriwtio neu weithredu. Ein strategaeth, CONTEST, yw'r fframwaith sy'n ein galluogi i drefnu'r gwaith hwn i wrthsefyll pob math o derfysgaeth. Nod cyffredinol parhaus CONTEST yw lleihau'r risg i'r DU a'i dinasyddion a buddiannau tramor a gyflwynir gan derfysgaeth, fel y gall ein pobl barhau â'u bywydau yn rhydd ac yn hyderus.¹

Cyd-destun strategol

2 Mae'r bygythiad o derfysgaeth, yn fyd-eang ac yn y DU, yn uwch na phryd y gwnaethom gyhoeddi CONTEST ddiwethaf yn 2011. Mae'r DU yn wynebu nifer o fygythiadau terfysgol gwahanol a pharhaus. Mae'r bygythiad cynyddol wedi'i achosi'n bennaf gan gynydd Daesh² a chreu ei "Galiffiaeth" sy'n debyg i gwlt, ynghyd â'r bygythiad parhaus gan Al Qa'ida. Mae Daesh wedi cael ei gyfyngu'n filwrol gan weithredoedd clymblaid byd-eang lle mae'r DU yn chwarae rhan flaenllaw, sydd wedi cymryd y rhan fwyaf o'i diriogaeth ac wedi diraddio ei system propaganda canolog yn ddifrifol. Ond mae gallu Daesh i gyfarwyddo, galluogi ac ysbrydoli ymosodiadau yn dal i gyflwyno'r bygythiad terfysgol mwyaf arwyddocaol ar lefel fyd-eang, gan gynnwys i'r DU a'n pobl a'n buddiannau dramor. Mae dulliau Daesh eisoes yn cael eu copïo gan grwpiau terfysgol newydd a sefydledig.

3 Gan ddefnyddio negeseuon niweidiol, rhwygol ac ehangu cwynion canfyddedig, mae Daesh ac Al Qa'ida yn manteisio ar y rhyngrwyd i hyrwyddo naratifau amgen gwyrddoedig, gan annog eithafwyr o fewn ein cymunedau ein hunain i danseilio ein ffordd o fyw trwy drais syml a chreulon. Maent yn credu bod unrhyw un nad yw'n rhannu eu barn groes yn darged diliys a bod unrhyw ddull o lofruddio yn dderbyniol. Maent yn paratoi'r rhai sy'n agored i niwed a'r ifanc yn sinigaidd i ymuno â'u mudiad, gan ysbrydoli pobl o fewn ein cymunedau ein hunain i gyflawni gweithredoedd trais disynnwyr. Mae'r ymosodiadau diweddar ledled Ewrop a'r DU hefyd wedi amlygu amrywiaeth a hygyrchedd dulliau y gall unigolion sy'n agored i'r negeseuon radicalidd hyn eu defnyddio i gyflawni ymosodiadau.

1 Mae'r strategaeth hon yn disodli'r CONTEST blaenorol ac yn disodli'r Strategaeth Prevent, a gyhoeddwyd yn 2011.

2 A elwir hefyd Gwladwriaeth Islamaidd Irac a'r Lefant, ISIL.

4 Mae hyn wedi cael effaith ddwys ar y bygythiad i'r DU, a welwyd mor llwm trwy'r ymosodiadau yn 2017. Mae Lefel Bygythiad Cenedlaethol presennol y DU yn DDIFRIFOL, sy'n golygu bod ymosodiad yn hynod debygol.³ Terfysgaeth Islamaidd⁴ yw'r bygythiad terfysgol mwyaf blaenllaw i'r DU. Mae terfysgaeth eithafol yr asgell dde yn fygythiad cynyddol. Ym mis Rhagfyr 2016, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd wahardd y grŵp asgell dde eithafol cyntaf, National Action, o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000. Cymerodd y Llywodraeth gamau pellach ym mis Medi 2017, gan wahardd Scottish Dawn a National Socialist Anti-Capitalist Action fel arallenwau National Action. Mae terfysgaeth sy'n gysylltiedig â Gogledd Iwerddon yn dal i gyflwyno bygythiad difrifol, yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon ei hun.

5 Yn 2017, gwelsom newid sylweddol yn y bygythiad terfysgol i'r DU, gyda phum ymosodiad yn Llundain a Manceinion a arweiniodd at farwolaethau 36 o bobl ddiniwed ac a anafwyd llawer mwy. Fe wnaethom ymateb yn benderfynol, gan addasu ein blaenoriaethau a'n galluedd yn gyflym, er mwyn torri momentwm yr ymosodiadau hyn. Ers ymosodiad San Steffan y llynedd, mae'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth wedi llwyddo i rwystro 12 o gynllwynion Islamaidd arall, ac ers 2017, maent wedi tarfu ar bedwar cynllwyn gan yr asgell dde eithafol.

6 Fodd bynnag, ni fyddwn ni bob tro yn llwyddo i atal ymosodiadau. Bydd y rhan fwyaf o gynllwynion terfysgol yn y DU yn defnyddio dulliau syml y gellir eu datblygu yn rhwydd ac yn gyflym. Mae gan derfysgwyr y bwriad o hyd i gyflawni ymosodiadau cymhleth, a allai fod yn fwy dinistriol, yn debygol o dargedu mannau gorllawn neu'r system hedfanaeth fyd-eang. Mae'r argaeledd a defnydd cyffredinol o gyfathrebiadau amgryptiedig yn caniatáu i derfysgwyr guddio eu cynlluniau yn well.

7 Nid yw derfysgwyr wedi, ni allant ac ni fyddant yn newid ein ffordd o fyw. Yn unol â'n hegwyddorion arweiniol, byddwn ni'n parhau i ymateb yn systematig ac yn gymesur ond â mwy o dryloywder a goruchwyliaeth i roi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch eu preifatrwydd yn ogystal â'u diogelwch cyhoeddus.

Ein hymateb

8 Mae'r strategaeth CONTEST wedi'i diweddarau a'i chryfhau yn adlewyrchu canfyddiadau adolygiad sylfaenol o bob agwedd ar wrthderfysgaeth, er mwyn sicrhau bod gennym yr ymateb gorau i'r bygythiad cynyddol yn y blynyddoedd i ddod. Canfu'r adolygiad fod CONTEST yn drefnus iawn ac yn gynhwysfawr ac y dylem ddiweddarau ein hymagwedd o fewn y fframwaith strategol profedig o bedwar maes gwaith 'P':

- Atal (Prevent): atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth.
- Ymlid (Pursue): atal ymosodiadau terfysgol.
- Amddiffyn (Protect): cryfhau ein mesurau amddiffyn rhag ymosodiadau terfysgol.
- Paratoi (Prepare): lliniaru effaith ymosodiad terfysgol.

3 Mae lefel y bygythiad yn parhau i gael ei gosod yn annibynnol gan y Gyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth (JTAC).

4 Rydym yn diffinio terfysgaeth Islamaidd fel gweithredoedd o derfysgaeth a gyflawnir neu a ysbrydolir gan grwpiau neu unigolion sy'n cael eu hysgogi gan wleidyddiaeth neu grefydd sy'n cefnogi ac yn defnyddio trais fel modd o sefydlu eu dehongliad o gymdeithas Islamaidd. Yng nghyd-destun y DU, daw'r bygythiad terfysgol Islamaidd yn bennaf oll o symudiadau Salaffaidd-Jihadaidd, sy'n gynhenid dreisgar. Rydym yn cydnabod bod Islamaeth yn disgrifio sbectrwm o symudiadau sy'n cynnal amrywiaeth o safbwyntiau ar y defnydd o drais; mae rhai yn amodol yn eu barn ar ddefnyddio trais ac mae eraill yn bendant wrth ei wrthod.

9 Fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai newid yn ein hymagwedd o fewn y fframwaith hwn yn cynyddu ein gallu i wrthsefyll y newid yn y bygythiad. Bydd hyn yn cynnwys newid sylweddol yn ein galluedd ymchwilio domestig trwy weithredu argymhellion MI5 ac Adolygiad Gwella Gweithredol Plismona CT.

10 Byddwn ni'n **tarfu ar fygythiadau terfysgol yn y Deyrnas Unedig yn gynharach** er mwyn ystyried graddfa'r bygythiad a'r cyflymder mae cynllwynion bellach yn datblygu ag ef. Bydd deddfwriaeth gwrthderfysgaeth newydd yn sail i'n hymagwedd, gan sicrhau bod gan yr heddlu a Gwasanaeth Eryl y Goron y pwerau sydd arnynt eu hangen i alluogi ymyrraeth yn gynharach mewn ymchwiliadau, gan arwain at erlyniadau am droseddau terfysgaeth, a gefnogir gan ddeddfrydau carchar hwy a rheolaeth gryfach ar droseddwyr terfysgol ar ôl eu rhyddhau.

11 Amlygodd ymosodiadau y llynedd yn Llundain a Manceinion yr her o ganfod unigolion a allai gael eu hysbrydoli i gyflawni gweithredoedd terfysgol yn y DU, a'r cyflymder y gall cynllwynion symud i fod yn weithredoedd trais. Mae hyn yn rhoi pwyslais newydd ar ein dealltwriaeth o'r unigolion hynny sy'n agored i radicaleiddio neu sydd (neu sydd wedi bod) o ddiddordeb i'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth oherwydd eu cysylltiadau posibl â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliadau gweithredol. Byddwn ni'n **rhannu gwybodaeth yn ehangach ac yn cefnogi mwy o ymyriadau lleol ag unigolion yn ein cymunedau ein hunain sy'n cael eu paratoi neu eu cymell i gyflawni neu gefnogi gweithredoedd terfysgaeth**. Bydd ymagweddau amlasiantaethol newydd ar y lefel leol – yn gyntaf yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf – yn galluogi MI5 a Phlismona Gwrthderfysgaeth i rannu mwy o wybodaeth ag ystod ehangach o bartneriaid, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth, Gweinyddiaethau Datganoledig ac awdurdodau lleol. Trwy rybuddio mwy o asiantaethau am unigolion sy'n peri pryder posibl, byddwn ni'n gwella ein gallu i asesu'r risg maent yn ei chyflwyno, ac ar yr un pryd byddwn ni'n gallu cyflwyno set ehangach o ymyriadau lleol, gan gynnwys diogelu'r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio neu i sicrhau bod y rhai hynny sydd wedi cefnogi neu sydd wedi ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn datymgysylltu.

12 Byddwn ni'n ceisio **perthynas fwy integredig â'r sector preifat** er mwyn gwarchod ein seilwaith economaidd yn well ac i raddio ein gallu i fynd i'r afael â therfysgaeth. Ar y cyd â diwydiant byddwn ni'n gwella diogelwch mewn lleoliadau yn y DU, trefnu rhybuddion cyflymach i bryniadau amheus a dileu gwendidau yn ein seilwaith neu mewn cynhyrchion mae terfysgwyr yn eu hecsbloetio. Byddwn ni'n cymryd camau cadarn i sicrhau nad oes unrhyw leoedd diogel ar gyfer terfysgwyr ar-lein, a sicrhau bod gennym y mynediad hollbwysig sydd arnom ei angen i wybodaeth ar eu cyfathrebiadau. Byddwn ni'n ceisio mwy o fuddsoddiad mewn technolegau sy'n nodi ac yn dileu cynnwys terfysgol yn awtomatig cyn ei fod yn hygyrch i bawb.

13 Byddwn ni'n blaenoriaethu cryfhau **cydnerthedd cymunedau lleol yn wyneb** terfysgaeth gan eu bod ar flaen y gad yn ein hymateb, yn arbennig y rhai hynny lle mae'r bygythiad gan derfysgaeth a radicaleiddio yn uwch. Mae ein cefnogaeth i **ddinasyddion Prydain y mae terfysgaeth** yn effeithio arnynt yn y wlad hon a thramor yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel.

14 **Dramor** rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgrych y Glymblaid Fyd-eang yn erbyn Daesh, cael gwared ar ei reolaeth ar diriogaeth, dirywio ymhellach ei alluedd ar y cyfryngau ac amharu ar uwch arweinwyr a rhwydweithiau allweddol. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ymdrechion i ddirywio Al Qa'ida a'i gysylltwyr. Byddwn ni'n arwain ar ymdrechion rhyngwladol i wella gwrthderfysgaeth yn fyd-eang, trwy **ymgyrchoedd dan**

arweiniad Gweinidogion ar ddiogelwch hedfanaeth ac atal defnydd terfysgol o'r rhynggrwyd. Mae terfysgaeth hefyd yn bygwth busnesau Prydain sy'n gweithredu'n fyd-eang a buddiannau ehangach y DU o ran sefydlogrwydd, ffyniant, llywodraethu, hawliau dynol a gwaith datblygu. Ochr yn ochr â'n dyletswydd i amddiffyn dinasyddion Prydain, mae penderfyniad cryf i amddiffyn busnesau'r DU a'u hasedau.

15 Bydd ein pedwar maes gwaith 'P' cenedlaethol yn ymgysgu'n un ymateb lleol neu dramor wrth i ni ganolbwyntio ar wella integreiddio ein galluedd a'n pobl yn y rheng flaen. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau dilynol o dan bob maes gwaith:

Atal

16 Diogelu a chefnogi'r rhai hynny sy'n agored i radicaleiddio, er mwyn eu hatal rhag troi'n derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth, byddwn ni'n:

- Canolbwyntio ein gweithgarwch a'n hadnoddau yn y lleoliadau hynny lle mae'r bygythiad gan derfysgaeth a radicaleiddio yn uwch.
- Ehangu ein Rhaglen Ymatal a Datymgysylltu â nod uniongyrchol dros y 12 mis nesaf i fwy na dyblu nifer yr unigolion sy'n derbyn ymyriadau adsefydlu.
- Datblygu cyfres o gynlluniau peilot aml-asiantaeth i dreialu dulliau i wella ein dealltwriaeth o'r rhai hynny sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn terfysgaeth a galluogi ymyriadau cynharach.
- Canolbwyntio ein gweithgarwch ar-lein ar atal lledaenu deunydd terfysgol ac adeiladu naratifau gwrthderfysgaeth cryf er mwyn sicrhau nad oes unrhyw leodd diogel ar gyfer terfysgwyr ar-lein.
- Creu partneriaethau cryfach â chymunedau, grwpiau cymdeithas sifil, sefydliadau'r sector cyhoeddus a diwydiant i wella'r broses o gyflwyno Prevent.
- Atgyfnerthu diogelu wrth wraidd Prevent er mwyn sicrhau nad yw ein cymunedau a'n teuluoedd yn cael eu hecsbloetio neu eu paratoi i ddilyn llwybr eithafiaeth dreisgar.

Ymlid

17 Er mwyn atal ymosodiadau terfysgol rhag digwydd yn y wlad hon ac yn erbyn buddiannau tramor y DU byddwn ni'n:

- Gweithredu newid sylweddol yn ein galluedd ymchwilio domestig trwy weithredu argymhellion MI5 ac Adolygiad Gwella Gweithredol Plismona CT.
- Cyflwyno deddfwriaeth gwrthderfysgaeth newydd er mwyn tarfu ar fygythiadau terfysgol yn y Deyrnas Unedig yn gynharach, gan ystyried graddfa'r bygythiad a'r cyflymder mae cynllwynion bellach yn datblygu ag ef.
- Fel y nodwyd yn y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol ac Adolygiad Strategol Amddiffyn a Diogelwch 2015, rydym yn recriwtio ac yn hyfforddi dros 1,900 o staff ychwanegol ar draws yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth.

- Datblygu cyfres o gynlluniau peilot aml-asiantaeth i dreialu dulliau i wella rhannu gwybodaeth a chyfoethogi ein dealltwriaeth o'r bygythiad ar y lefel leol, gan gynnwys pynciau diddordeb caeëdig ac sy'n cau⁵.
- Dwyn ymladdwyr tramor i gyfiawnder yn unol â'r broses gyfreithiol briodol os oes tystiolaeth bod troseddau wedi'u cyflawni, heb ystyried eu cenedligrwydd.
- Cynnal ein defnydd o offer deddfwriaethol datblygedig i dargedu ac amharu ar gyllid terfysgwyr.
- Sicrhau ein bod yn cynnal ein cyrhaeddiad byd-eang er mwyn amharu ar y rhai hynny sy'n bygwth y DU neu fuddiannau'r DU yn uniongyrchol.
- Sicrhau goruchwyliaeth gref annibynnol ar ein gwaith gwrthderfysgaeth, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau blynyddol gan yr Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Terfysgaeth, y Comisiynydd Biometreg a'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

Amddiffyn

18 Er mwyn cryfhau ein hamddiffyniad yn erbyn ymosodiad terfysgol yn y DU neu yn erbyn ein buddiannau dramor, a thrwy hynny leihau ein bregusrwydd, byddwn ni'n:

- Casglu a dadansoddi meintiau mwy o ddata o safon uchel i wella ein gallu i dargedu unigolion a nwyddau hysbys a rhai a oedd yn anhysbys o'r blaen a allai beri pryder posibl o wrthderfysgaeth.
- Cadw'r DU ar flaen y gad o ran datblygu technolegau sgrinio a chanfod sy'n arwain y byd wrth y ffin, gan gynnwys canfod ymddygiadol, technegau canfod newydd, dadansoddeg data a dysgu peiriant.
- Targedu'r bygythiad mewnol trwy gryfhau rhannu gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gweithio mewn amgylcheddau sensitif mewn meysydd awyr, er mwyn sicrhau nad oes gan unigolion sy'n peri pryder fynediad i amgylcheddau cyfyngedig.
- Atgyfnerthu diogelwch a chydnerthedd ymhellach ar draws rhwydwaith trafnidiaeth y DU a rhannau eraill o'n seilwaith cenedlaethol allweddol sy'n cadw ein gwlad yn rhedeg ac yn darparu gwasanaethau hanfodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant hedfanaeth a phartneriaid rhyngwladol i sicrhau diogelwch hedfanaeth cadarn a chynaliadwy yn y DU a thramor.
- Gwellu diogelwch mewn mannau gorllawn trwy weithio'n agosach ac yn fwy effeithiol ag ystod ehangach o bartneriaid cyfrifol ymhlith awdurdodau lleol ac yn y sector preifat.
- Gwellu galluoedd i ganfod gweithgarwch terfysgol sy'n cynnwys deunydd Cemegol, Biolegol, Radiolegol, Niwclear a Ffrwydron (CBRNE) a'u rhagflaenwyr a rheoli a diogelu'r deunyddiau hyn.

5 Mae'r rhain yn unigolion a gafodd eu hymchwilio yn flaenorol gan Blismona Gwrthderfysgaeth ac MI5, y gallai cyfran fach ohonynt gyflwyno bygythiad terfysgaeth rywbryd yn y dyfodol.

Paratoi

19 Lliniaru effaith digwyddiad terfysgol, trwy ddwyn unrhyw ymosodiad i ben yn gyflym a thrwy adfer ohono, byddwn ni'n:

- Cynnal ein buddsoddiad yng ngalluoedd y gwasanaethau brys er mwyn darparu ymateb gydlynol ac effeithiol i ymosodiadau terfysgol.
- Sicrhau bod y DU yn gydnerth ac yn barod i ymateb mewn modd cymesur ac effeithiol i ystod eang o fygythiadau CBRNE.
- Gwreiddio'r Cyd-egwyddorion Rhyngweithredol y Gwasanaethau Brys ar draws y gwasanaethau brys erbyn 2020, er mwyn sicrhau y gallant weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn ymateb i ymosodiad terfysgol
- Profi ac ymarfer yn rheolaidd y galluoedd amlasiantaethol sy'n ofynnol i ymateb i, ac adfer o, ystod eang o ymosodiadau terfysgol.
- Gwella trefniadau cymorth ar gyfer dioddefwyr terfysgaeth er mwyn sicrhau ymateb gynhwysfawr a chydlynol.

20 Nid yw terfysgwyr yn derbyn unrhyw ffiniau ac mae'r hyn a wnânt dramor yn dangos ei hun yn y DU. Byddwn ni'n blaenoriaethu ein hymdrechion mewn meysydd sydd â'r risg uchaf i bobl a buddiannau Prydain, tra'n cynnal ein gallu i gyrraedd a tharfu ar y rhai hynny a hoffai niweidio'r DU a'n buddiannau yn uniongyrchol. O ystyried natur gynyddol wasgaredig y bygythiad, byddwn ni'n canolbwyntio ar adeiladu galluoegrwydd wedi'i dargedu'n dda i helpu partneriaid i fynd i'r afael â bygythiadau a rennir ac i adeiladu eu cydnerthedd. Byddwn ni'n sicrhau bod dinasyddion y DU yn ymwybodol o risgiau dramor ac yn gwybod sut i ymateb os ydynt yn profi digwyddiad. Byddwn ni'n ymateb yn gyflym i gynorthwyo dioddefwyr y DU. Rydym hefyd wedi rhoi pwyslais arbennig ar godi safonau diogelwch hedfanaeth byd-eang a mynd i'r afael â defnydd terfysgol o'r rhynggrwyd gan fod y risgiau byd-eang hyn yn effeithio ar ein diogelwch yn feunyddiol ac yn uniongyrchol.

21 Rydym yn disgwyl i'r bygythiad amrywio a datblygu fel mae wedi ei wneud yn ystod blynyddoedd diweddar. Byddwn ni'n asesu effeithiolrwydd ein gweithredoedd yn barhaus, a byddwn ni'n hyblyg wrth addasu ein hymagwedd. Bydd hyn yn cynnwys treialu ymagweddau mwy niferus a gwahanol a chynllunio senario systematig yn erbyn bygythiadau yn y dyfodol.

22 Rydym wedi cymryd gorwel tair blynedd ar gyfer y CONTEST newydd hwn. At ei gilydd, bydd ein fframwaith strategol cynhwysfawr, ein hystod o alluoedd sylweddol presennol a gyllidir trwy wario mwy na £2 filiwn y flwyddyn, ynghyd â'r blaenoriaethau, ymagwedd a galluoedd cynllunedig newydd a nodir isod, yn sicrhau bod ymateb y DU i'r bygythiad uwch yn effeithiol wrth leihau'r risg a gyflwynir gan derfysgaeth i'r DU a'n dinasyddion, ein cymunedau, ein busnesau a'n buddiannau, gartref a thramor.

Cyflwyniad

23 Dyma'r pedwaredd fersiwn gyhoeddedig o strategaeth gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig, CONTEST. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn ni, Llywodraeth y DU, yn parhau i leihau'r risg i'r DU a'i ddinasyddion a buddiannau tramor a gyflwynir gan derfysgaeth, fel y gall ein pobl barhau â'u bywydau yn rhydd ac yn hyderus.⁶

24 Mae'r strategaeth newydd hon yn nodi'r bygythiad terfysgol newidiol rydym yn ei wynebu nawr a sut mae ein hymagwedd wrthderfysgaeth yn datblygu er mwyn cwrdd â'r bygythiad hwnnw.

25 Mae'n adeiladu ar Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol 2015 (NSS) a'r Adolygiad Strategol Amddiffyn a Diogelwch (SDSR), a nododd derfysgaeth fel un o'r risgiau blaenoriaeth uchaf i'r Deyrnas Unedig, ac a nododd ein gweledigaeth ar gyfer ymagwedd integredig, llywodraeth gyfan tuag at wrthsefyll terfysgaeth, gan ddefnyddio galluedd ar draws diogelwch, amddiffyn, diplomyddiaeth a datblygu. Yn 2018, canfu adroddiad yr Adolygiad Galluogrwydd Diogelwch Cenedlaethol (NSCR) fod CONTEST yn ymateb drefnus iawn a chynhwysfawr i derfysgaeth, â chryfderau o ran pwerau, adnoddau, cyrhaeddiad a chydnerthedd.

26 Mae ein strategaeth newydd hefyd yn adlewyrchu'r gwersi o'r ymosodiadau yn Llundain a Manceinion yn 2017 a gymerodd fywydau 36 o bobl ddiniwed. Rydym wedi gweld newid yn y bygythiad. Mae MI5 a Phlisma Gwrthderfysgaeth wedi rhwystro 25 o gynllwynion Islamaidd ers mis Mehefin 2013, ac mae 12 ohonynt wedi digwydd ers mis Mawrth 2017, ac ers 2017 maent wedi tarfu ar bedwar cynllwyn yr asgell dde. Ar hyn o bryd, maent yn trin dros 500 o ymchwiliadau byw, gan gynnwys tua 3,000 o unigolion. Gall yr amserlen ar gyfer unigolion sy'n symud o radicaleiddio i gyflawni ymosodiad fod yn gyflym, gan wneud cynllwynion yn anodd eu canfod a'u tarfu. Er bod ein gweithredoedd yn ceisio lleihau'r risg o derfysgaeth, ni fyddwn yn gallu atal pob ymosodiad.

27 Mae'r fersiwn hon o CONTEST sydd wedi'i diweddaru a'i chryfhau yn parhau â'r fframwaith strategol profedig o bedwar maes gwaith is-gelwir 'P': Atal (Prevent), Ymlid (Pursue), Amddiffyn (Protect) a Pharatoi (Prepare). Canfu adolygiad manwl o'n hymagwedd wrthderfysgaeth fod y strwythur hwn yn dal i fod yn effeithiol ac yn parhau i arwain cynllunio a gwaith nifer o asiantaethau ac adrannau yn y DU.

6 Mae'r strategaeth hon yn disodli'r CONTEST blaenorol ac yn disodli'r Strategaeth Prevent, a gyhoeddwyd yn 2011.

28 Pwrpas Atal ac Ymlid yw lleihau'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu; pwrpas gwaith Amddiffyn a Pharatoi yw lleihau ein gwendidau; at ei gilydd mae'r pedwar maes gwaith hyn yn ceisio lleihau'r risg i'r DU a'i fuddiannau tramor a gyflwynir gan derfysgaeth, fel bod pobl yn gallu mynd ati i fyw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus. Dyna ein nod o hyd.

29 Mae cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig hon yn adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i dryloywder. Er nad yw bob amser yn bosibl bod yn agored ynghylch y bygythiadau penodol rydym yn eu hwynebu neu ein hymateb iddynt, rydym am gynyddu faint o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y materion hyn.

30 Yr Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol am CONTEST ac fe'i cefnogir gan y Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth (OSCT) yn y Swyddfa Gartref. Mae Ysgrifenyddion Gwladol eraill hefyd yn gyfrifol am elfennau o'r strategaeth. Mae OSCT wedi arwain gwaith i gynhyrchu'r strategaeth hon, gyda chyfraniadau gan Adrannau eraill y Llywodraeth, Gweinyddiaethau Datganoledig, yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, y sector preifat, academyddion ac arweinwyr cymunedol.

31 Mae Rhan Un o'r ddogfen hon yn nodi'r bygythiad presennol o derfysgaeth i'r DU a'n buddiannau dramor ac yn disgrifio'r ffactorau strategol sy'n llunio'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu.

32 Mae Rhan Dau yn esbonio ein fframwaith strategol ar gyfer gwrthsefyll terfysgaeth a'r pedwar maes gwaith 'P' yn ogystal â gwaith tramor a thrawsbynciol sy'n cefnogi ein hymdrech wrthderfysgaeth ar draws y system. Ar gyfer pob maes gwaith, rydym yn amlinellu'r amcanion ar gyfer y tair blynedd nesaf, disgrifiad o raglenni a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r amcanion hynny a'r ymrwymïadau cyflawni hyd at 2021.

33 Mae Rhan Tri o'r ddogfen hon yn disgrifio gweithredu'r strategaeth yn y DU a thramor a'n perthynas â phartnerïaid a sefydliadau allweddol. Mae hyn yn cynnwys manylion ar lywodraethu a chyllido yn ogystal â sut y byddwn ni'n mesur effaith y strategaeth.

Rhan 1: Cyd-destun strategol

Bygythiad terfysgaeth

34 Mae'r adran hon yn nodi'r bygythiad byd-eang o derfysgaeth, gan gynnwys ei hideolegau a'i methodolegau, ac mae'n amlygu gweithgareddau'r ddau grŵp terfysgol Islamaidd mwyaf, Daesh ac Al Qa'ida. Mae'n dangos effaith y bygythiad byd-eang hwn i'r DU, gan gynnwys y pum ymosodiad a gynhaliwyd yn 2017, yn ogystal â'r bygythiad cynyddol o derfysgaeth eithafol ar o'r asgell dde eithafol a'r bygythiad i ddinasyddion a buddiannau Prydain dramor. Daw'r adran i ben ag asesiad o'r bygythiad terfysgol yn y dyfodol.

Bygythiad byd-eang terfysgaeth


35 Pan gyhoeddwyd CONTEST ddiwethaf yn 2011, fe wnaethom asesu bod y bygythiad byd-eang o derfysgaeth yn newid. Roedd Al Qa'ida, er ei fod yn dal yn gallu cyflawni ymosodiadau terfysgol yn y DU, wedi dod yn wannach nag ar unrhyw adeg ers 2001. Fe wnaethom ragweld y byddai uwch arweinyddiaeth Al Qa'ida yn ei chael yn fwyfwy anodd gweithredu, ond y byddai ei grwpiau cysylltiedig a grwpiau tebyg yn parhau i fanteisio ar wladwriaethau bregus a cheisio ymosod ar fuddiannau'r Gorllewin. Mae'r asesiadau hyn o 2011 wedi profi'n gywir ar y cyfan. Fodd bynnag, ni wnaethom ragweld cynnydd cyflym Daesh, na'r effaith y byddai'n ei chael ar derfysgaeth fyd-eang.

36 Fe wnaeth Daesh ecsbloetio bregusrwydd gwleidyddol a rhyfel cartref i reoli ardaloedd mawr o diriogaeth yn Syria ac Irac, gan gyhoeddi "Califfiaeth" yn 2014 a gormesu'r boblogaeth leol yn greulon ac yn gwaethygu argyfwng dyngarol mawr. Wrth wneud hynny, cychwynnodd Daesh fudiad newydd o derfysgwyr yn fyd-eang i ymuno â'r grŵp neu i weithredu yn ei enw.

37 Mae terfysgaeth Islamaidd yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o ymosodiadau terfysgol yn fyd-eang, â'r rhan fwyaf yn cael eu cyflawni gan Daesh, Al Qa'ida a'u cysylltwyr priodol. Mwslimiaid yw'r rhan fwyaf o'u dioddefwyr. Cynyddodd ymosodiadau a marwolaethau byd-eang oherwydd terfysgaeth o 2003 ymlaen, wedi'i chyflymu yn ystod blynnyddoedd diweddar gan y gwrthdaro yn Syria. Cyrhaeddodd marwolaethau uchafbwynt yn 2014 a syrthiodd 22% erbyn 2016.⁷ Mae nifer o sefydliadau terfysgol yn bodoli yn fyd-eang. Cyhoeddir rhestr o'r holl sefydliadau neu grwpiau terfysgol a waherddir o dan gyfraith y DU, a'r meini prawf ar gyfer eu gwahardd, yn www.gov.uk.⁸

7 Cronfa Ddata Terfysgaeth Fyd-eang. Bydd ffigurau ar gyfer 2017 ar gael yn ddiweddarach yn 2018.

8 Mae'r rhestr gyfredol (Rhagfyr 2017) ar gael i'w gweld yn: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/670599/20171222_Proscription.pdf

Ffig. 1.1: Marwolaethau o ganlyniad i Derfysgaeth, 2000–2016

Ffynhonnell: START GTD, cyfrifiadau IEP

38 Ers dechrau 2015, bu 49 o ymosodiadau Terfysgol Islamaidd yng Nghyfandir Ewrop – 11 yn 2015, 19 yn 2016, ac 19 yn 2017. Mae oddeutu hanner yr ymosodiadau hyn wedi targedu Ffrainc, er bod ymosodiadau wedi digwydd ledled Gorllewin Ewrop.

Ideoleg derfysgol

39 Mae bodolaeth set eithaf cyson o syniadau a naratifau yn ffactor pwysig wrth ysgogi grwpiau terfysgol o bob math, gan gynnwys Daesh, Al Qa'ida a sefydliadau eithafol ar yr asgell dde. Mae eu propaganda hefyd yn ysbrydoli unigolion sydd heb gynnal unrhyw gysylltiad ffurfiol â grŵp penodol. Er y gall unigolion hefyd gael eu denu i grwpiau terfysgol am resymau cymdeithasol, diwylliannol, materol, seicolegol a rhesymau eraill, mae ideoleg yn parhau i fod yn ysgogydd cryf.

40 Mae gan Daesh ac Al Qa'ida linach ideolegol (a gweithredol) gyffredin. Eu hangor ideolegol a rennir yw Jihadaeth Salaffaidd, ideoleg hybrid dreisgar, sy'n cymryd ysbrydolaeth o ystod eang o ddylanwadau crefyddol a gwleidyddol. Mae gan y ddau grŵp safbwynt cyffredin o ran gwrthod democratiaeth, rhyddid personol a hawliau dynol, yn ogystal ag ymrwymiad i adfer "Califfiaeth" hunangyhoeddedig a sefydlu dehongliad creulon a llythrennol o gyfraith sharia. Maent yn ystyried bod y Gorllewin a'i gynghreiriaid yn gyfrifol am atal Islam a gormesu Mwslimiaid Swnni ledled y byd. Yn y cyfamser, er bod Daesh yn honni ei fod yn cynrychioli Islam, mae'n defnyddio gweithredoedd anfad – gan gynnwys dienyddio, croeshoelio, llofruddio plant, caethwasiaeth a threisio – fel arfau, gan gynnwys yn erbyn Moslemiaid. Mae Daesh ac Al Qa'ida wedi cynnwys y rhyfel yn Syria, a'r argyfwng dyngarol ehangach, yn eu naratifau craidd, gan hyrwyddo ymdeimlad o anghyfiawnder sy'n cyflwyno gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd gweithredwyr rhyngwladol fel rhan o wrthdaro crefyddol ehangach a pharhaus rhwng y Gorllewin ac Islam Swnniaidd.

41 Yn y DU ac yn Ewrop, mae grwpiau eithafol ar yr asgell dde, gan gynnwys neo-Natsiaid, yn ceisio manteisio ar unrhyw bryderon ynghylch globaleiddio, gwrthdaro a mudo (gan gynnwys unrhyw un y gallant gysylltu â gwrthdaro Syria) mewn ymgais i ehangu eu hapêl. Gall y grwpiau hyn amrywio'n sylweddol o ran eu rhethreg, ond maent yn rhannu'r safbwynt hiliol bod cymunedau lleiafrifol yn niweidio buddiannau poblogaeth "frodorol". Ar adegau, mae ideolegau a naratifau a barheir gan grwpiau Islamaidd a'r asgell dde eithafol wedi atgyfnerthu ei gilydd, a hyd yn oed wedi elwa ar ei gilydd.

Methodolegau Terfysgol

42 Yn ogystal â'r nifer gynyddol o derfysgwyr a chynllwynion posibl, rydym wedi gweld arallgyfeirio o ran natur y bygythiad, wrth i grwpiau ac unigolion barhau i arloesi a rhannu gwybodaeth ynghylch methodolegau. Yn y DU a thramor, mae'n debygol y bydd terfysgwyr yn parhau i dargedu mannau gorlawn, er mwyn mwyaflu nifer y bobl sy'n cael eu hanafu.

43 Mae'r ymosodiadau ledled Ewrop ers 2015 a'r gyfres o ymosodiadau yn y DU yn 2017 wedi defnyddio methodolegau hygyrch a syml iawn. Gallai'r rhain fod wedi ysbrydoli ac ysgogi rhai a oedd wedi credu o'r blaen y byddai ymosodiad y tu hwnt i'w galluoedd neu eu hadnoddau. Cyflawnwyd yr ymosodiad cyntaf ag anafiadau a marwolaethau lluosog gan ddefnyddio cerbyd fel arf yn Ewrop ym mis Gorffennaf 2016 yn Nice, Ffrainc, gan ladd 86 o bobl ac anafu mwy na 200. Ers hynny, cyflawnwyd ymosodiadau sylweddol pellach â cherbydau yn y DU, yr Almaen, Sweden, Sbaen a Ffrainc. Ymosodiadau â cherbyd neu arfau â llafn (gan gynnwys cyfuniad o'r ddau) yw'r dulliau mwyaf tebygol o gyflawni ymosodiadau yn y DU.

44 Mae gan rai terfysgwyr y bwriad a'r gallu i gyflawni ymosodiadau mwy cymhleth. Mae ymgais Daesh i dargedu awyren deithwyr yn hedfan o Awstralia⁹ ym mis Gorffennaf 2017 yn dangos bod y system hedfanaeth fyd-eang yn parhau i fod yn darged totemig i derfysgwyr ledled y byd. Bydd y bygythiad i hedfanaeth yn parhau i ddatblygu ac arallgyfeirio. Mae Daesh wedi profi a defnyddio arfau cemegol ar faes y gad yn Syria ac Irac. Mae rhai unigolion a ysbrydolir gan Daesh ac Al Qa'ida yn gallu adeiladu dyfeisiau cemegol neu ffrwydrol, ac efallai y bydd eraill yn ceisio caffael deunyddiau ac arbenigedd ar gyfer arfau biolegol neu radiolegol. Gallai'r bygythiad o seiberderfysgaeth gynyddu yn y dyfodol, ond bernir bod gallu technegol cyfredol terfysgwyr yn isel.

45 Yn flaenorol mae Daesh wedi dangos y gallu i gyfeirio ymosodiadau ar raddfa fawr, ag anafiadau a marwolaethau lluosog yn Ewrop, fel y'i gwelwyd ym mis Tachwedd 2015 ym Mharis, ymosodiadau maes awyr a system metro Brwsel ym mis Mawrth 2016, ac ymosodiad Maes Awyr Ataturk ym mis Mehefin 2016. Fodd bynnag, mae terfysgwyr yn wynebu her fwy wrth groesi ffin y DU yn ogystal â'r argaeledd isel o arfau tanio anghyfreithlon yn y DU. Mae ystod o fesurau gorfodi'r gyfraith ar waith i ganfod ac atal eithafwyr sy'n teithio i'r DU ac oddi yno.

46 Cynhaliwyd tri o'r pum ymosodiad yn y DU yn 2017 gan weithredwyr unigol: Pont San Steffan; Finsbury Park; a Parsons Green. Gall gweithredwyr unigol fod yn gysylltwyr neu aelodau o rwydwaith terfysgol sy'n gweithredu'n annibynnol, neu efallai nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw rwydwaith, ond wedi cael eu dylanwadu gan bropaganda terfysgol neu eithafol. Mae ymosodiadau gan weithredwyr unigol, gan gynnwys ymosodiadau ag anafiadau a marwolaethau lluosog, wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diweddar,¹⁰ a gallant fod yn anodd eu canfod a'u tarfu; yn arbennig gan fod yr amserlen o radicaleiddio i gyflawni ymosodiad yn gallu bod yn gyflym.

9 Cafodd pedwar unigolyn dan amheuaeth eu harestio gan Heddlu Ffederal Awstralia ar 29 Gorffennaf 2017 yn Sydney ar amheuaeth o gynllwyn a ysbrydolwyd gan Islamiath i osod bom ar heddiad Etihad Airways yn gadael Sydney ar 15 Gorffennaf 2017. Ers hynny, mae dau wedi cael eu cyhuddo o droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

10 Gweler hefyd Royal United Services Institute for Defence and Security Studies (RUSI), *Countering Lone-Actor Terrorism Series Rhif 4, Papur Dadansoddi Terfysgaeth Gweithredwr Unigol*. Ar-lein yn: https://rusi.org/sites/default/files/201602_clat_analysis_paper.pdf

Daesh

47 Ar hyn o bryd, mae Daesh yn cyflwyno'r bygythiad terfysgol mwyaf arwyddocaol yn fyd-eang, yn ogystal ag i'r DU a'n pobl a'n buddiannau dramor. Er bod pwysau milwrol rhyngwladol wedi erydu ei diriogaeth yn sylweddol ac wedi diraddio ei allu i drefnu a chyfarwyddo ymosodiadau allanol o Syria ac Irac, mae gan y grŵp lawer o ddilynwyr, canghennau cysylltiedig¹¹, digon o adnoddau, galluoedd wedi'u profi ar faes y gad, a'r gallu i gyfarwyddo, galluogi ac ysbrydoli ymosodiadau ledled y byd.

48 Fe wnaeth naratif gychwynnol Daesh ynghylch adeiladu gwladwriaeth berswadio miloedd o bobl, gan gynnwys menywod a theuluoedd, i deithio i Syria o bob cwr o'r byd, gan gynnwys o Ewrop a Gogledd Affrica. Mae hyn yn cynnwys oddeutu 900 o bobl o'r DU sy'n peri pryder ynghylch diogelwch cenedlaethol. O'r rhain, mae oddeutu 20% wedi cael eu lladd dramor, ac mae oddeutu 40% wedi dychwelyd i'r DU. Mae'r mwyafrif o'r rhai hynny a ddychwelodd wedi gwneud hynny yn ystod camau cynharach y gwrthdaro, ac fe'u hymchwiliwyd wrth iddynt ddychwelyd. Dim ond nifer fach iawn o deithwyr sydd wedi dychwelyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini wedi bod yn fenywod â phlant bach. Mae rheoli'r risgiau a gyflwynir gan deithwyr yn cyfuno ymyriadau o'n meysydd gwaith Atal ac Ymlid. Disgrifir ein hymateb gynhwysfawr i'r risgiau a gyflwynir gan deithwyr Syria isod yn yr adran Ymlid.

49 Mae galluogrwydd cyfryngau a phropaganda Daesh wedi cael eu diraddio'n sylweddol. Ond mae ei newid i naratif o fod yn ddioddefwyr a cheisio arfogi pobl yn eu cymunedau, yn hytrach na'u hannog i deithio i'r "Galiffiaeth", wedi arwain at rwydwaith hunangynhaliol o gefnogwyr Daesh sy'n creu a rhannu deunydd ysgogol a chyfarwyddol answyddogol ar-lein, gan ddathlu ac annog ymosodiadau gan gyflawnwyr unigol. Mae hyn wedi cynyddu'r cyrhaeddiad a'r bygythiad posibl mae'r grwpiau hyn yn eu peri, ond hefyd mae wedi arwain at ddiffyg eglurder o ran tarddiad a chymhelliant gweithredoedd a gyflawnir yn eu henwau. Trwy gydol 2017, cafodd ymosodiadau eu hawlio yn gyfleus gan Daesh mewn achosion lle mae union gysylltiad y cyflawnwyr yn parhau i fod yn amwys.

Al Qa'ida

50 Er gwaethaf marwolaeth Usama Bin Laden yn 2011, ei alluogrwydd diraddiedig, a'r cyfle cyfyngedig i gynllunio ymosodiadau, mae Al Qa'ida yn fygythiad byd-eang cryf a chydnerth â'r bwriad a'r galluogrwydd hirdymor i ymosod ar y DU a gwledydd eraill. Mae wedi canolbwyntio ei strategaeth ar y tymor hir. Yn y cyfamser, mae Al Qa'ida wedi ceisio, yn bennaf, cymryd rhan mewn brwydrau lleol, â'r nod o leihau dylanwad gorllewinol a datblygu'r awydd i gael rheolaeth Islamaidd mewn poblogaethau lleol.

51 Mae uwch arweinyddiaeth Al Qa'ida wedi'i gostwng i grŵp bach o uwch ffigyrau sydd wedi'u lleoli yn ardal ffin Affganistan/Pacistan. Fodd bynnag, mae ganddo canghennau cysylltiedig sefydledig yn Affganistan, y Dwyrain Canol ac Affrica a chysylltiadau cryf â grwpiau eithafol yn Syria ac Irac. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw Hayat Tahrir al-Sham (HTS), a

11 Mae'r cysylltwyr hyn yn cynnwys: "Daesh Libya", "Daesh Sinai", Boko Haram, "Daesh Llŷn Arabia", "Daesh Talaith Khorasan", "Daesh yn Yemen", "Daesh yng Nghogledd y Caucasus" a "Daesh yn Algeria". Hefyd mae rhwydweithiau sy'n cydymdeimlo â Daesh ond nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel cysylltwyr megis y rhai hynny sydd wedi'u lleoli yn Ynysoedd Philippines a Bangladesh. Mae rhai canghennau yn endidau newydd; ffurfiwyd eraill o grwpiau rhanbarthol presennol sydd wedi addo ffyddlondeb i Daesh. Ar hyn o bryd, maent yn parhau i fod yn ymrwymedig i Daesh, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi'i ddinistrio'n filwrol yn Syria ac Irac. Mae canghennau Daesh wedi cynnal ymosodiadau ar lefelau gwahanol o soffistigedigrwydd a difrifoldeb yn ystod blynyddoedd diweddar, gan dargedu buddiannau gorllewinol rhanbarthol, poblogaethau lleol a systemau diogelwch mewnol y wladwriaeth.

ffurfiwyd ym mis Ionawr 2017. Mae HTS yn cynnwys oddeutu 12,500 o ymladdwyr, ac er ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwrthdaro domestig yn Syria, mae'n rhannu gweledigaeth Al Qa'ida o jihad byd-eang ac yn cadw bwriad hirdymor i ymosod ar y Gorllewin.

52 Mae gan Al Qa'ida yn Llŷn Arabia (AQAP) alluogrwydd ffrwydrion soffistigedig ac mae wedi dod yn agos at gynnal ymosodiadau â cholledion torfol yn erbyn awyrennau sifil gorllewinol ar dri achlysur.¹² Mae gallu'r grŵp i fanteisio ar fannau gweithredu caniatol ar-lein wedi ei wneud yn un o brif ffynonellau propaganda Al Qa'ida, gan gynnwys cylchgronau Saesneg. Nid yw datganiadau i'r cyfryngau gan Al Qa'ida a'i gysylltwyr yn cyflawni amllder neu effaith allbwn Daesh. Maent yn amlygu gweithgareddau eu cysylltwyr rhanbarthol, yn ceisio ysbrydoli eraill tuag at achos jihad byd-eang, ac yn dadlau dros ymosodiadau yn erbyn targedau gorllewinol.

Bygythiad terfysgaeth yn y DU

53 Mae'r DU yn wynebu nifer o fygythiadau terfysgol gwahanol. Y bygythiad o derfysgaeth Islamaidd yw'r mwyaf blaenllaw a'r mwyaf arwyddocaol. Mae terfysgaeth eithafol gan yr asgell dde yn fygythiad cynyddol, ac ym 2016, fe wnaethom wahardd grŵp terfysgol eithafol yr asgell dde, sef National Action, am y tro cyntaf. Mae terfysgaeth sy'n gysylltiedig â Gogledd Iwerddon yn dal i beri bygythiad difrifol, yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon ei hun.

54 Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o derfysgaeth Islamaidd yn y DU yn gysylltiedig â Daesh. Mae ei naratif wedi dod i'r amlwg fel y brif ideoleg eithafol y tu ôl i radicaleiddio yn y DU. Er enghraifft, mae Al Muhajiroun yn sefydliad terfysgol gwaharddedig a gafodd egni newydd yn y DU yn dilyn datganiad Daesh o "Galiffiaeth" yn Syria ac Irac, gan gyhoeddi llw teyrngarwch ar-lein i Daesh ac yn annog ei aelodau i deithio i Syria ac Irac. Mae Al Qa'ida yn parhau i geisio denu ac ysbrydoli gwladolion y DU i weithredu i gefnogi eu hagenda fyd-eang. Mae gwladolion Prydain sy'n ymladd ag Al Qa'ida yn cyflwyno bygythiad penodol oherwydd eu cysylltiadau â'r DU.

55 Mae'r cyd-destun byd-eang, yn arbennig y datganiad o'r "Galiffiaeth", wedi cael effaith ddwys ar y bygythiad i'r DU yn ystod y blynyddoedd diweddar. Fe wnaeth Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol 2015 nodi terfysgaeth fel risg haen un, a chydabu'r Adolygiad Strategol Amddiffyn a Diogelwch (SDSR) fod cyfaint a graddfa'r bygythiad yn y DU a thramor yn cynyddu, a bod ei natur wedi newid.¹³

56 Mae'r bygythiad o derfysgaeth yn y DU yn uwch na phryd y cyhoeddwyd CONTEST ddiwethaf yn 2011. Ym mis Awst 2014, fe wnaeth y Gyd-ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth (UKTM) godi Lefel Bygythiad Cenedlaethol y DU i DDIFRIFOL, sy'n golygu bod ymosodiad terfysgol yn y DU yn hynod debygol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r bygythiad sy'n dod i'r amlwg gan unigolion wedi'u lleoli yn Syria sy'n gysylltiedig ag Al Qa'ida a Daesh. Mae'r lefel fygythiad

12 Ar 25 Rhagfyr 2009, ceisiodd gwladolyn Nigeria, Umar Farouk Abdulmutallab, danio dyfais ffrwydr a guddiwyd yn ei ddillad isaf er mwyn ymosod ar hediad rhyngwladol o Amsterdam i Detroit. Methodd yr ymosodiad pan fethodd y ffrwydr yn i dano'n llwyr, gan achosi llosgiadau arwyddocaol i'w ddwylo, ei goesau a'i organau cenhedlu. Mae bellach yn gwneud dedfryd o 50 mlynedd yn yr Unol Daleithiau. Yn 2010, ceisiodd AQAP ymosod ar hediadau i'r Unol Daleithiau gan ddefnyddio dyfeisiadau ffrwydr wedi'u cuddio o fewn cetrir argraffydd. Amharwyd ar y cynllwyn ar ôl cael cudd-wybodaeth a daethpwyd o hyd i'r dyfeisiau ffrwydr. Yn 2012, amharwyd ar gynllwyn gan AQ-AP i ymosod ar hediad ar y ffordd i'r Unol Daleithiau gan ddefnyddio dyfais ffrwydr – eto wedi'i chuddio o fewn dillad isaf – mewn gweithrediad dan arweiniad swyddogion cudd-wybodaeth.

13 Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol ac Adolygiad Strategol Amddiffyn a Diogelwch 2015, ar gael ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/478936/52309_Cm_9161_NSS_SD_Review_PRINT_only.pdf

wedi aros yn DDIFRIFOL ers hynny, yn bennaf oherwydd y bygythiad parhaus gan Daesh a therfysgwyr a ysbrydolir gan Daesh, ac eithrio pan gafodd ei chodi i ENBYD – sy'n golygu y disgwylir ymosodiad yn fuan – yn dilyn ymosodiadau Manceinion a Parsons Green yn 2017.


57 Yn 2017, gwelwyd newid o ran natur y bygythiad terfysgol i'r DU. Rhwng 2011 a 2016, roedd pedwar ymosodiad terfysgol ym Mhrydain Fawr, pob un yn targedu un unigolyn. Ymosodiad San Steffan ym mis Mawrth 2017 oedd y cyntaf i achosi marwolaethau lluosog yn y DU ers 2005. Lladdodd y pum ymosodiad yn Llundain a Manceinion yn 2017 36 o bobl. Bu farw pum dioddefwr mewn ymosodiad ar Bont San Steffan a Thai'r Senedd, 22 yn Manchester Arena, wyth ym Mhont Llundain a Borough Market, ac un yn Finsbury Park. Cafodd llawer mwy eu hanafu, gan gynnwys mewn ymosodiad yn Parsons Green. Er ein bod yn ceisio lleihau'r risg o bob math o derfysgaeth, ni fyddwn yn gallu atal pob ymosodiad.

58 Hefyd, dangosir y newid yn y bygythiad gan nifer yr ymosodiadau posibl yr amharwyd arnynt gan MI5 a Phlisma Gwrthderfysgaeth. Maent wedi rhwystro 25 o gynllwynion Islamaidd ers mis Mehefin 2013, y mae 12 ohonynt wedi digwydd ers mis Mawrth 2017, ac amharwyd ar bedwar cynllwyn gan yr asgell dde ers 2017.

59 Mae nifer yr arestiadau am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth¹⁴ wedi codi'n raddol ers 2010. Rhwng 2010 a 2017, roedd 2,029 o arestiadau am derfysgaeth ym Mhrydain Fawr.¹⁵ Gwnaed 412 o'r rheini yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2017, gan gynrychioli'r nifer flynyddol uchaf ers i gasglu data ddechrau. Gyrrir y ffigur hwn yn rhannol gan ymchwiliadau gan yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a'r system gorfodi'r gyfraith yn sgîl y pum ymosodiad terfysgol yn 2017. O fis Mawrth 2018, roeddynt yn trin dros 500 o ymchwiliadau byw, gan gynnwys tua 3,000 o unigolion. Mae nifer yr arweiniadau cudd-wybodaeth a gofnodwyd oedd yn cael eu rheoli ar y cyd rhwng MI5 a Phlisma Gwrthderfysgaeth wedi mwy na dyblu dros y 12 mis diwethaf. Mae'r rhan fwyaf helaeth yr ymdrech weithredol yn cael ei neilltuo i'r risg o derfysgaeth Islamaidd.

14 Mae'r diffiniad statudol terfysgaeth wedi'i gynnwys yn adran 1 Deddf Terfysgaeth 2000. Mae'n nodi mai terfysgaeth yw'r defnydd neu'r bygythiad o weithredu sydd wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar y llywodraeth neu sefydliad llywodraethol rhyngwladol, neu i ddychryn y cyhoedd neu adran o'r cyhoedd, ac a wneir at ddibenion hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol. Rhaid i'r camau a ddefnyddir neu a fygythir gynnwys trais difrifol yn erbyn unigolyn, difrod difrifol i eiddo, peryglu bywyd unigolyn, creu risg ddifrifol i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu'r bwriad i ymyrryd â neu aflonyddu ar system electroneg yn ddifrifol.

15 Data o'r flwyddyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2017.

Ffig. 1.2: Arestiadau ac Achosion ar gyfer Troseddau sy'n Gysylltiedig â Therfysgaeth¹⁶

Ffynhonnell: Canolfan Genedlaethol Gweithrediadau'r Heddlu Gwrthderfysgaeth (NCTPOC) ac Is-adran Gwrthderfysgaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron

60 Yn ogystal, mae mwy na 20,000 o unigolion a gafodd eu hymchwilio yn flaenorol gan Blismona Gwrthderfysgaeth ac MI5, y gallai cyfran fach ohonynt gyflwyno bygythiad terfysgaeth eto rywbryd yn y dyfodol. Gelwir y rhain yn unigolion sydd o ddiddordeb sydd wedi'u cau.

Terfysgaeth gan yr asgell dde eithafol

61 Mae'r bygythiad gan yr asgell dde eithafol wedi datblygu yn y blynyddoedd diweddar ac mae'n tyfu. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, cyflawnwyd pedwar ymosodiad terfysgol yn y DU gan weithredwyr unigol wedi'u hysgogi i raddau amrywiol gan ideolegau asgell dde eithafol.

62 Cyn 2014, cyfyngwyd gweithgarwch asgell dde eithafol i grwpiau bach, sefydledig ag aelodaeth hŷn, a oedd yn hyrwyddo safbwyntiau gwrth-fewnfudo a goruchafiaethol gwyn ond a oedd yn peri risg isel iawn i ddiogelwch cenedlaethol. Fe wnaeth ymddangosiad National Action yn 2014 gynyddu tensiynau cymunedol a'r risg o anhrefn. Ym mis Rhagfyr 2016, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cartref wahardd National Action o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000. Ers hynny, mae 27 o unigolion wedi'u harestio ar amheuaeth o fod yn aelod o'r grŵp, 15 ohonynt wedi eu cyhuddo o droseddau terfysgaeth. Mae grwpiau asgell dde eithafol eraill yn y DU hefyd yn argymhell defnyddio trais.

63 Y tu hwnt i'r bygythiad o'r asgell dde eithafol, mae nifer o grwpiau ac unigolion eraill sy'n cyflawni gweithredoedd troseddol i gyflawni nodau gwleidyddol. Gallent gael eu hysgogi gan hawliau anifeiliaid, yr asgell chwith eithafol neu faterion amgylcheddol. Nid yw unrhyw un o'r

¹⁶ Mae'r graff hwn yn dangos y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Rhagfyr 2017: nifer y bobl a arestiwyd am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth; a'r nifer o bobl y dygwyd achos yn eu herbyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron am droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, yn ôl canlyniad. Ystadegau swyddogol ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/operation-of-police-powers-under-the-terrorism-act-2000-quarterly-update-to-december-2017>

grwpiau hyn wedi'u hasesu ar hyn o bryd fel un sy'n peri bygythiad diogelwch cenedlaethol, ond mae'r posibilrwydd yn aros y gallai hynny newid, ac y gallai fod angen ymateb wrthderfysgaeth yn y dyfodol.

Terfysgaeth sy'n gysylltiedig â Gogledd Iwerddon (NIRT)

64 Mae NIRT yn parhau i fod yn fygythiad difrifol, yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon. Er gwaethaf y cynnydd gwleidyddol sylweddol yng Ngogledd Iwerddon yn yr ugain mlynedd diwethaf, mae rhai grwpiau terfysgol gweriniaethol gwrthwynebol yn parhau i gyflawni ymosodiadau terfysgol. Lefel y bygythiad gan NIRT yng Ngogledd Iwerddon yw DIFRIFOL, gan awgrymu bod ymosodiad yn debygol iawn. Ym Mhrydain Fawr, mae lefel y bygythiad sy'n gysylltiedig ag NIRT yn GYMEDROL, sy'n golygu bod ymosodiad yn bosibl, ond nid yw'n debygol.

65 Yn dilyn Cytundeb Belfast ym 1998, cytunodd y rhan fwyaf o grwpiau terfysgol Gogledd Iwerddon i gadoediad ac yna fe wnaethant ddadgomisiynu eu harfau. Nid yw grwpiau gweriniaethol gwrthwynebol treisgar yn cynrychioli barn y brif ffrwd ledled Gogledd Iwerddon, ac mae cefnogaeth iddynt a'u gweithredoedd yn isel. Fodd bynnag, mae grwpiau terfysgol gwrthwynebol treisgar yn parhau i gynnal ymosodiadau terfysgol.

66 Rhwng 2011 a 2017, roedd 127 o ymosodiadau ar lefel diogelwch cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon, gan dargedu Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI), swyddogion carchar a'r Lluoedd Arfog yn bennaf. Roedd gweriniaethwyr gwrthwynebol yn gyfrifol am farwolaethau un swyddog heddlu a dau swyddog carchar rhwng 2011 a 2017. Cafodd swyddog y PSNI ei lofruddio gan ymosodiad ffrwydryn o dan ei gerbyd ym mis Ebrill 2011, a lladdwyd swyddogion y carchar mewn ymosodiad saethu wrth yrru heibio'n agos ym mis Tachwedd 2012 ac o ganlyniad i ymosodiad ffrwydryn o dan gerbyd ym mis Mawrth 2016. Mae natur ddiofal yr ymosodiadau hyn hefyd yn cyflwyno risg ddifrifol i aelodau'r cyhoedd.

Bygythiadau i ddinasyddion a buddiannau'r DU dramor

67 Mae dinasyddion, llysgenadaethau a buddiannau'r DU tramor yn dal i fod yn darged deniadol i derfysgwyr. Ers 2011, mae 63 o wladolion y DU wedi cael eu lladd mewn ymosodiadau terfysgol dramor¹⁷ – yn fwy nag yn y DU. Mae terfysgaeth hefyd yn bygwth busnesau Prydain sy'n gweithredu'n fyd-eang a buddiannau ehangach y DU o ran sefydlogrwydd, ffyniant, llywodraethu, hawliau dynol a gwaith datblygu.

68 Mae safleoedd twristaidd yn darged. Mae niferoedd sylweddol o dwristiaid o'r DU yn teithio i ranbarthau lle mae cysylltwyr Daesh neu Al Qa'ida yn gweithredu. Llofruddiaeth 38 o bobl, gan gynnwys 30 o wladolion Prydeinig, yn Sousse, Tiwnisia ym mis Mehefin 2015 oedd y golled fwyaf o fywydau Prydeinig mewn digwyddiad terfysgol ers y digwyddiadau bomio ar 7 Gorffennaf 2005 yn Llundain. Dilynodd hyn yr ymosodiad ar Amgueddfa Bardo ym mis Ionawr 2015, hefyd yn Tiwnisia, lle lladdwyd 21 o bobl, gan gynnwys gwladolyn o Brydain. Yn ogystal â thwristiaid, mae gwladolion eraill o'r DU wedi cael eu herwgipio a'u lladd gan grwpiau terfysgol dramor, gan gynnwys grwpiau cysylltiedig â Daesh ac Al Qaeda.

17 Yn Affganistan, Algeria, Gwlad Belg, Ffrainc, Israel, Cenia, Moroco, Nigeria, Pacistan, Rwsia, Sbaen, Sweden, Syria, Tiwnisia ac Yemen.

Y bygythiad terfysgol yn y dyfodol

69 Rydym yn disgwyl i'r bygythiad gan derfysgaeth Islamaidd barhau i fod ar ei lefel gyfredol uwch am o leiaf y ddwy flynedd nesaf, ac y gallai gynyddu ymhellach. Rydym yn asesu bod y bygythiad gan derfysgaeth yr asgell dde eithafol yn tyfu. Mae'r bygythiad gan derfysgaeth yn datblygu'n gyson. Yn fyd-eang, mae grwpiau a rhwydweithiau terfysgol o bob ideoleg yn parhau i ddatblygu'n organig, gan ecsbloetio cyfryngau cymdeithasol, technoleg a gwyddoniaeth i hyrwyddo eu nodau a'u huchelgeisiau.

70 Byddwn ni'n parhau i olrhain a rhagweld datblygiadau yn y bygythiad dros y ddwy flynedd nesaf, ond nid yw'n ymarferol gwneud rhagolygon hirdymor cywir. Fodd bynnag, byddwn ni'n canolbwyntio ar olrhain: gyrwyr y bygythiad – gan gynnwys ideoleg a radicaleiddio; galluogwyr y bygythiad - gan gynnwys amgylcheddau caniataol a mynediad at dechnoleg y gellir ei hecsbloetio; a galluoedd a gweithredoedd gwrthderfysgaeth gwledydd eraill; i benderfynu ar senarios posibl yn y dyfodol.

Ffactorau strategol

71 Mae'r adran hon yn esbonio tri ffactor allweddol mae terfysgwyr yn eu hecsbloetio: twf agweddau eithafol, sy'n darnio ac yn rhannu cymunedau; gwrthdaro, ansefydlogrwydd a llywodraethu gwael, sy'n creu'r amgylcheddau caniaatol lle gall terfysgwyr ffynnu; a datblygiadau mewn technoleg, sy'n darparu'r modd i derfysgwyr weithredu heb eu darganfod, ynghyd â'r cyrhaeddiad byd-eang i ysbrydoli eu gweithredoedd anfad.

72 Rydym yn ymateb i'r ffactorau hyn trwy bolisiau a galluoedd eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, nid trwy CONTEST yn unig. Mae hwn yn waith hirdymor, ond yn rhan annatod o leihau gofod gweithredu terfysgwyr yn llwyddiannus yn y DU a thramor.

Eithafiaeth

73 Mae llawer o agweddau ar ideolegau Al Qa'ida a Daesh hefyd yn cael eu rhannu gan sefydliadau eithafol Islamaidd sy'n gweithredu yn y DU ac mewn mannau eraill. Nid oes ffin fanwl rhwng yr hyn a ddisgrifiwyd gennym uchod fel ideoleg derfysgol, a'r hyn rydym yn ei ystyried yn ideoleg eithafol. Mae rhai sefydliadau eithafol Islamaidd hefyd yn Salaffaidd o ran cyfeiriadedd, tra bydd eraill yn gysylltiedig â gwahanol mudiadau Islamaidd radicalaidd.

74 Mae eithafwyr o bob math yn defnyddio naratifau maleisus i gyfiawnhau ymddygiad sy'n gwrth-ddweud ac yn tanseilio'r gwerthoedd sy'n sylfaen i'n cymdeithas. Os na chânt eu herio, mae'r naratifau hyn yn darnio ac yn rhannu ein cymunedau. Rydym yn amddiffyn gwerthoedd ein cymdeithas – rheol y gyfraith, rhyddid unigol, democratiaeth, cyd-barch, goddefgarwch a dealltwriaeth o wahanol gredau a chredoau – trwy fynd i'r afael ag eithafiaeth ar ei holl ffurfiau.

75 Mae'r rhaglen Prevent yn gwrthsefyll ideolegau terfysgol yn benodol trwy fynd i'r afael ag achosion o radicaleiddio, fel y'i disgrifir yn adran Prevent y strategaeth hon. Rydym yn cydnabod bod radicaleiddio yn broses gymhleth i unigolion, ac nad oes un ffactor unigol ar waith. Mae gwrth-radicalaiddio yn rhan o ymdrech ehangach i wrthsefyll negeseuon ac ymddygiadau eithafol ehangach. Mae gennym Strategaeth Gwrth-eithafiaeth effeithiol i ddiogelu ein cymunedau rhag niwed cymdeithasol ehangach y tu hwnt i derfysgaeth a achosir gan eithafiaeth. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â hyrwyddo casineb, erydu hawliau menywod, lledaenu anoddefgarwch, ac ynysu cymunedau.¹⁸ Rydym yn credu bod cymunedau sydd heb, neu na allant gymryd rhan mewn cymdeithas ddinesig, yn fwy tebygol o fod yn agored i radicaleiddio. Felly mae strategaeth integreiddio llwyddiannus yn bwysig i wrthderfysgaeth. Cyhoeddwyd ein Strategaeth Cymunedau Integredig newydd ar gyfer ymgynghori ym mis Mawrth 2018.¹⁹

Gwrthdaro ac ansefydlogrwydd

76 Mae gwladwriaethau bregus ay mae gwrthdaro yn effeithio arnynt, megis Affganistan, Libia, Somalia, Syria neu Yemen, yn cyflwyno amgylcheddau caniaatol y mae grwpiau terfysgol yn eu hecsbloetio. Yn yr amgylcheddau hyn, gall terfysgwyr gael mynediad at arfau ac adnoddau, rheoli tiriogaeth lle gallant recriwtio a gormesu poblogaethau lleol, sefydlu gwersylloedd hyfforddi a chanolfannau'r cyfryngau, a chynllunio a pharatoi ar gyfer ymosodiadau. Mewn rhai achosion, gall sefydliadau terfysgol ennill cefnogaeth trwy ddarparu

18 Cyhoeddwyd ein Strategaeth Gwrth-eithafiaeth yn 2015 ac mae'n ymrwymo'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r holl niwed ehangach y gall eithafiaeth ei achosi, nid dim ond lle gallai arwain at derfysgaeth. I raddau amrywiol, mae cyfrifoldeb dros wrth-eithafiaeth wedi'i ddatganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae gan bob Gweinyddiaeth Ddatganoledd ei hymagwedd ei hun yn y meysydd a ddatganolwyd iddynt.

19 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/integrated-communities-strategy-green-paper>

sefydlogrwydd, diogelwch a llywodraethu, lle nad ydynt yn bodoli fel arall oherwydd llygredd neu fregusrwydd y wladwriaeth. Mae trais gwleidyddol gan lywodraethau, allgáu gwleidyddol a chwynion grŵp yn ysgogi terfysgaeth.


77 Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol o derfysgaeth hyn a phroblemau diogelwch cenedlaethol eraill trwy helpu i fynd i'r afael â gwrthdaro, gwrthio i'r cyrion, gwahaniaethu a chamddefnyddio hawliau dynol trwy ein rhaglenni datblygu, wedi'u hintegreiddio â phartneriaethau diplomyddol ac amddiffyn ehangach.

Datblygiadau mewn technoleg

78 Mae technoleg sy'n datblygu'n creu heriau, risgiau a chyfleoedd newydd wrth frwydro yn erbyn terfysgaeth. Mae terfysgwyr yn defnyddio technolegau newydd, megis cyfathrebiadau digidol a cherbydau awyr heb griw, i gynllunio a gweithredu ymosodiadau, ac maent yn tueddu i'w mabwysiadu ar yr un cyflymder â'r gymdeithas gyfan. I grwpiau terfysgaeth, mae'r rhyngwrdd bellach wedi'i sefydlu'n gadarn fel cyfrwng allweddol ar gyfer dosbarthu propaganda, radicaleiddio gydymdeimlwyr a pharatoi ymosodiadau.

79 Bydd technoleg sy'n datblygu, gan gynnwys defnydd ehangach o'r rhyngwrdd a mwy nag erioed o ddyfeisiau sy'n gysylltiedig â'r rhyngwrdd, amgryptio a chrypto-arian cyfredol cryfach, yn parhau i greu heriau wrth frwydro yn erbyn terfysgaeth. Bydd data yn fwy gwasgareddig, wedi'i leoli ac yn ddienw, ac yn gynyddol hygyrch o unrhyw le yn fyd-eang. Ond fe fydd cyfleoedd sydd yr un mor fawr. Bydd datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial yn caniatáu i ni hidlo a nodi gwybodaeth hanfodol yn gyflymach nag erioed. Mae realiti rhithwir neu estynedig yn darparu cyfle i dimau gwrthderfysgaeth gynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o senarios mewn amgylchedd diogel. Bydd gennym dechnolegau newydd sy'n gwella ein galluoedd canfod a sgrinio, er enghraifft ar ffiniau, a mewn meysydd awyr a mannau gorlawn. Mae gan gyfrifiadura Cwantwm, ynghyd â datblygiadau arloesol eraill, y potensial i newid a gwella ein galluoedd gweithredol gwrthderfysgaeth yn drawiadol. Er enghraifft, gellir cyfuno pŵer cyfrifiaduron cwantwm â deallusrwydd artiffisial er mwyn gwella'r cyflymder y gellir didoli a defnyddio setiau data mawr am wybodaeth allweddol a fyddai o fudd i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth.

80 Ym mis Ionawr 2018, cyflwynodd y Prif Weinidog araith yn Fforwm Economaidd y Byd yn Davos a bwysleisiodd yr angen i gwmnïau technoleg wneud mwy wrth gyflawni eu cyfrifoldebau dros ymdrin â gweithgarwch ar-lein sy'n niweidiol ac yn anghyfreithlon. Yn ogystal, trafododd y Prif Weinidog bwysigrwydd partneriaethau ac ymatebion traws-ddiwydiant i fynd i'r afael â chynnwys terfysgol ar-lein. Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth a diwydiant i gynnal y fantais wrth i grwpiau terfysgol geisio mabwysiadu technolegau newydd, gan adeiladu ar ein partneriaethau cadarnhaol â grwpiau a chyrrff safonau'r diwydiant. Rydym yn benderfynol o gymryd camau cadarn i sicrhau nad oes lleoedd diogel ar gyfer terfysgwyr ar-lein, trwy well partneriaethau â'r sector preifat a Darparwyr Gwasanaeth Cyfathrebu, yn arbennig. Byddwn ni hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth diogelwch ar-lein cyn gynted â phosibl.



Rhan 2: Ein Hymateb

81 Mae Rhan Un yn disgrifio'r bygythiad terfysgol i'r DU. Mae Rhan Dau yn esbonio ein strategaeth, sy'n manylu ar y meysydd gwaith sydd, at ei gilydd, yn cynnwys ein hymateb yn y wlad hon a thramor.

CONTEST: ymateb y DU i derfysgaeth

82 Mae'r strategaeth hon yn parhau i fynd i'r afael â phob math o derfysgaeth.²⁰ Mae ei nod cyffredinol heb ei newid i raddau helaeth o fersiwn gyhoeddedig 2011; rydym yn credu ei bod yn dal i fod yn gwbl ddilys i arwain ein gweithgarwch dros y tair blynedd nesaf. O fewn y fframwaith hwn, byddwn ni'n parhau i ddysgu ac addasu ein hymagwedd a'n blaenoriaethau i ddiwallu'r bygythiad sy'n newid.

Nod CONTEST yw lleihau'r risg i'r DU a'i ddinasyddion a buddiannau tramor a gyflwynir gan derfysgaeth, fel y gall pobl barhau â'u bywydau yn rhydd ac yn hyderus.

Dysgu gwersi

83 Mae'r strategaeth CONTEST newydd hon yn ganlyniad i adolygiad sylfaenol o bob agwedd ar wrthderfysgaeth, er mwyn sicrhau bod gennym yr ymateb gorau i'r bygythiad cynyddol o derfysgaeth, a welwyd mor amlwg yn yr ymosodiadau yn Llundain a Manceinion yn ystod 2017 a'r gwersi rydym wedi dysgu ganddynt.

²⁰ Mae CONTEST yn cyfeirio at bob math o derfysgaeth sy'n effeithio ar y DU a'n buddiannau dramor, ac eithrio terfysgaeth sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gyfrifoldeb i Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon.

Dysgu gwersi o ymosodiadau 2017

Mae ein hadolygiad o CONTEST wedi ystyried adolygiadau ac ymarferion ynghylch gwersi a ddysgwyd dros y naw mis diwethaf a gynhaliwyd gan adrannau'r llywodraeth, Plismona Gwrthderfysgaeth, yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau mewnol manwl gan MI5 a'r Heddlu o'r ymosodiadau yn Llundain a Manceinion rhwng Mawrth a Mehefin 2017 ac Adolygiad Gwella Gweithredol troswaol (OIR), sy'n nodi newidiadau gweithredol a ddylai wella perfformiad MI5 a'r heddlu yn y dyfodol. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cartref oedd yn y swydd ar y pryd gomisiynu'r Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Gwrthderfysgaeth gynt, David Anderson CF, i ddarparu sicrwydd annibynnol o'r adolygiadau hyn gan MI5 a'r heddlu.

Yn yr adolygiadau mewnol a'r OIR, mae MI5 a Phlismona Gwrthderfysgaeth yn dod i'r casgliad na allent ganfod unrhyw adegau allweddol lle byddai penderfyniadau gwahanol wedi ei wneud yn debygol y gallent fod wedi atal unrhyw un o'r ymosodiadau. Fodd bynnag, maent yn gwneud mwy na chant o argymhellion ar gyfer newid. Mae'r argymhellion yn syrthio i bedwar categori: (1) defnydd gwell o ddata i wella gallu MI5 a Phlismona Gwrthderfysgaeth i ganfod gweithgaredd sy'n peri pryder; (2) peilota modelau newydd ar gyfer rheoli'r risgiau a gyflwynir gan bynciau diddordeb sydd wedi cau neu sydd wrthi'n cau ac sy'n cynnwys mwy o waith amlasiantaethol ar lefel leol; (3) ymagwedd newydd at eithafiaeth ddomestig; a (4) newidiadau manwl a thechnegol i wella prosesau gwrthderfysgaeth bresennol.

Cyhoeddwyd adroddiad David Anderson CF ar 5 Rhagfyr 2017. Daeth i'r casgliad bod yr adolygiadau wedi cael eu cynnal mewn modd "trawiadol drwyadl a theg" a chymeradwyodd – i'r graddau y teimlai'n gymwys i wneud hynny – y casgliadau a'r argymhellion, gan nodi bod MI5 a Phlismona Gwrthderfysgaeth wedi cael cryn dipyn yn gywir. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio'n agos â'r heddlu ac MI5 i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu'n llawn. Bydd David Anderson CF yn gwirio'r broses gweithredu ac yn adrodd yn ôl ym mis Ionawr 2019.²¹

Fframwaith

84 Canfu'r adolygiad hwn fod CONTEST yn fframwaith cynhwysfawr a threfnus i leihau risg. Rydym yn cydlynu'n dda rhwng adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, ac â phartneriaid yn y sectorau rhyngwladol a phreifat, i gyflawni ein hamcanion. Mae cydweithrediad rhwng yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn eithriadol o dda yn ôl safonau rhyngwladol. Mae gan ein hymateb gryfderau o ran pwerau, adnoddau, cyrhaeddiad a gwydnwch ac mae'n gymesur. Roedd y cryfderau hyn yn galluogi'r Llywodraeth, yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i dorri momentwm ymosodiadau diweddar.

85 Mae'r fframwaith CONTEST sy'n cynnwys y meysydd gwaith Atal, Ymlid, Amddiffyn a Pharatoi, yn parhau i fod yn ddull effeithiol o drefnu ein gweithredoedd gwrthderfysgaeth. Mae pob un o'r meysydd gwaith cysylltiedig hyn yn lleihau elfen o'r risg o derfysgaeth (bwriad, gallu, bregusrwydd ac effaith), ac ar y cyd maent yn darparu ymateb cytbwys a chynhwysfawr o'r dechrau i'r diwedd i'r bygythiad rydym yn ei wynebu.

21 www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/664682/Attacks_in_London_and_Manchester_Open_Report.pdf

Ffig. 2.1: Model Lleihau Risg CONTEST



Blaenoriaethau

86 Mae'r ymosodiadau diweddar a'r adolygiadau cysylltiedig wedi amlygu pwysigrwydd parhaus dysgu ac addasu ein hymagwedd i fynd i'r afael â'r bygythiad newidiol.

87 Yn y wlad hon, mae hyn yn golygu bod rhaid i ni gyflawni effaith lawer mwy ar **lefel leol**, o ran amhariadau cynharach i fynd i'r afael â'r cyflymder y mae cynllunio'n symud at ymosodiad, ac ar raddfa fwy nag o'r blaen. Bydd hyn yn galw arnom i **rannu gwybodaeth a data** â set llawer ehangach o bartneriaid, gan ddarparu arbenigedd gwrthderfysgaeth i dargedu ein hymyriadau lleol yn well. I wneud hyn, byddwn ni'n profi dulliau mwy **arloesol** yn amlach, tra'n ceisio cyfleoedd i barhau i fanteisio ar y datblygiadau mewn **technoleg** a fydd yn gwella effeithiolrwydd ein hymateb. Dramor, byddwn ni'n parhau i gefnogi ein partneriaid rhyngwladol i ddatblygu'r galluoedd mae eu hangen arnynt i ymateb yn effeithiol ar lefel leol.

88 Byddwn ni'n **tarfu ar fygythiadau terfysgol yn y Deyrnas Unedig yn gynharach** er mwyn ystyried y newid yn y bygythiad a chyflymder datblygiad cynllwynion erbyn hyn. Bydd deddfwriaeth gwrthderfysgaeth newydd yn sail i'n hymagwedd, gan sicrhau bod gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron y pwerau sydd eu hangen arnynt i alluogi ymyrraeth yn gynharach mewn ymchwiliadau, gan arwain at erlyniadau am droseddau terfysgaeth, a gefnogir gan ddedfrydau carchar hwy a rheolaeth gryfach ar droseddau terfysgol ar ôl eu rhyddhau. Yn ogystal, bydd JTAC a MI5 yn cymryd mwy o ran wrth asesu ac ymchwilio i derfysgaeth gan yr asgell dde eithafol.

89 Byddwn ni'n **rhannu gwybodaeth yn ehangach ac yn cefnogi mwy o ymyriadau lleol ag unigolion mewn cymunedau sy'n cael eu paratoi neu eu hannog i gyflawni neu gefnogi gweithredoedd terfysgaeth**. Gwnaeth yr Adolygiad Gwella Gweithredol a'r ymarferion ynghylch gwersi a ddysgwyd yn dilyn yr ymosodiadau yn 2017 nifer o argymhellion

i wella ein hymateb lleol. Gan adeiladu ar yr argymhellion hyn, rydym yn datblygu ein model gweithredu gwrthderfysgaeth trwy dreialu ymagweddau amlasiantaethol newydd yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf. Bydd MI5 a Phlisma Gwrthderfysgaeth yn rhannu gwybodaeth ag ystod ehangach o bartneriaid, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth, Gweinyddiaethau Datganoledig, ac awdurdodau lleol. Drwy rybuddio nifer fwy o asiantaethau â gwybodaeth well am y bygythiad lleol, byddwn ni'n gwella ehangder a graddfa ymyriadau sy'n helpu i ddiogelu'r rhai hynny sydd mewn perygl o radicaleiddio a sicrhau bod y rhai hynny sydd wedi cefnogi neu wedi ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn dadymgysylltu.

90 Byddwn ni'n ceisio **perthynas fwy integredig â'r sector preifat** er mwyn gwarchod ein seilwaith economaidd yn well ac i raddio ein gallu i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig a therfysgaeth. Ar y cyd â diwydiant, byddwn ni'n gwella diogelwch mewn lleoliadau yn y DU, yn trefnu rhybuddion cyflymach i bryniadau amheus ac yn dileu gwendidau yn ein seilwaith neu mewn cynhyrchion mae terfysgwyr yn eu hecsbloetio.

91 Fel rhan o'r ymagwedd hon, byddwn ni'n rhoi pwyslais newydd ar ein **hymgysylltiad â Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu**, gan gydnabod bod y rhyngwyd wedi bod yn ddull allweddol i radicaleiddwyr gyfathrebu eu propaganda, ac i derfysgwyr gynllwynio ymosodiadau. Byddwn ni'n cymryd camau cadarn i sicrhau nad oes unrhyw leoedd diogel i derfysgwyr ledaenu eu propaganda ar-lein, ac i sicrhau bod gennym y mynediad hollbwysig y mae ei angen i wybodaeth am eu cyfathrebiadau. Byddwn ni'n adeiladu ar ein perthynas adeiladol â'r diwydiant technoleg i geisio mwy o fuddsoddiad mewn technolegau sy'n nodi a thynnu cynnwys terfysgol yn awtomatig cyn y bydd yn hygyrch i bawb, a dysgu o'n gwaith i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol arall, megis camfanteisio'n rhywiol ar blant, lle rydym eisoes wedi gwneud cynnydd. Fodd bynnag, ni fyddwn ni'n anwybyddu gweithredu, fel y dangosir gan gyhoeddiad LIEM ar 20 Mai 2018 i gyflwyno deddfwriaeth ynghylch diogelwch ar-lein cyn gynted â bo modd.

92 Byddwn ni'n parhau i wella **gwydnwch ein cymunedau** yn wyneb terfysgaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai hynny lle mae'r bygythiad o derfysgaeth a radicaleiddio yn uwch. Byddwn ni'n gwella dealltwriaeth a rennir ac ymateb i radicaleiddio lleol. Cefnogir hyn gan ein gwaith Prevent ochr yn ochr ag ymdrechion ehangach gan y Llywodraeth i wrthsefyll eithafiaeth a hyrwyddo integreiddio. Fel rhan o'r ymagwedd hon, mae ein cefnogaeth i **ddinasyddion Prydain y mae derfysgaeth yn effeithio arnynt** yn y wlad hon a thramor yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Sefydlwyd yr Uned Dioddefwyr Terfysgaeth traws-lywodraethol gennym ym mis Mawrth 2017 i sicrhau bod cymorth i ddioddefwyr, tystion a theuluoedd sydd mewn profedigaeth yn effeithiol, yn gynhwysfawr ac yn gydgyssylltiedig. Fe wnaethom alw ar arbenigedd yr Uned yn ystod ymosodiadau 2017, ac ers hynny rydym wedi bod yn gweithio'n helaeth â phartneriaid lleol a sefydliadau cenedlaethol i ddysgu gwersi a gwneud gwelliannau.


93 **Dramor**, byddwn ni'n parhau i ddefnyddio ystod lawn ein rhwydweithiau diplomyddol, datblygu, economaidd, amddiffyn a chudd-wybodaeth i fynd i'r afael â'r bygythiadau yn llygad y ffynnon. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgyrch y Glymblaid Fyd-eang yn erbyn Daesh, i gael gwared ar ei reolaeth ar diriogaeth, dirywio ei alluoedd ar y cyfryngau ac amharu ar uwch arweinwyr a rhwydweithiau allweddol. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ymdrechion i ddirywio Al Qa'ida a'i gysylltwyr. Byddwn yn cefnogi **cynyddu gallu** i sicrhau bod gan ein partneriaid rhyngwladol yr ymatebion lleol effeithiol sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â'r bygythiad yn eu rhanbarthau. Ond hefyd byddwn ni'n arwain ar ymdrechion rhyngwladol i wella agweddau gwahanol ar wrthderfysgaeth yn fyd-eang, trwy **ymgyrchoedd dan arweiniad Gweinidogion ar ddiogelwch hedfanaeth ac atal defnydd terfysgol o'r**

rhyngrwyd. Er mwyn caniatáu i ni ymateb yn gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg, byddwn ni'n creu cnewyllyn newydd o arbenigwyr y gellir eu hadleoli pan fydd eu hangen i ddarparu arbenigedd ychwanegol dramor, er mwyn helpu partneriaid i feithrin gallu ar lefel leol.

Gweithio ar draws y meysydd gwaith 'P'

94 Mae'r newid yn natur y bygythiad terfysgol wedi arwain at ystyriaeth ddyfnach o'r cysylltiadau a'r mannau cyffwrdd rhwng pedwar maes gwaith 'P' CONTEST. Rydym yn cydnabod bod angen i'n galluoedd a'n hadnoddau gael eu rhyng-gysylltu'n gynyddol, gan weithio ar draws y meysydd gwaith 'P' i sicrhau ein bod yn cynhyrchu'r effaith fwyaf posibl i helpu i atal, canfod ac amharu ar ymosodiadau terfysgol, a lle llwyddir i gyflawni ymosodiadau, i gyfyngu ar yr effaith ac adfer yn gyflym. Mae'r cysylltiadau rhwng y meysydd gwaith Atal ac Ymlid yn arbennig o bwysig, a gellir eu gweld yn glir yn ein hymagweddu at reoli'r risgiau a gyflwynir gan deithwyr a charcharorion terfysgol, ac at weithio amlasiantaethol. Fel y'i dangosir yn y diagram isod, mae ein gwaith Atal i adsefydlu ac ailintegreiddio'r rhai hynny sydd eisoes wedi ymwneud â therfysgaeth yn ategu gwaith Ymlid i atal ymosodiadau terfysgol rhag digwydd yn y DU a thramor.

Ffig. 2.2: Yn dangos y cysylltiad rhwng amcanion Atal ac Ymlid



Egwyddorion arweiniol

95 Byddwn ni'n sicrhau bod ein hymateb yn adlewyrchu ein hegwyddorion arweiniol o **gymesuredd, hyblygrwydd a chynhwysoldeb**. Mae terfysgwyr yn ymosod arnom i greu ofn, i ddialu am gwynion go iawn a chanfyddedig, ac i ddylanwadu ar farn y cyhoedd. Byddwn ni'n ymateb yn gymesur ac mewn ffordd nad yw'n tanseilio ein nod o alluogi pobl i fyw'n rhydd ac yn hyderus.²² Ni fydd y bygythiad o derfysgaeth yn mynd i ffwrdd ac efallai na fyddwn ni bob amser yn llwyddo i atal ymosodiadau, ond ni all terfysgwyr ac ni fyddant yn newid ein ffordd o fyw. Bydd **atebolrwydd** cryf yn sail i'n hymagwedd.

96 Byddwn ni'n sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cynrychioli **gwerth am arian** ac yn sefydlu galluedd cynaliadwy dros y tymor hir sy'n cael eu blaenoriaethu a'u profi. Mae NSS ac SDSR 2015 yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer DU diogel a ffyniannus â chyrhaeddiad a dylanwad byd-eang. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo i gynyddu gwariant y llywodraeth ar wrthderfysgaeth gan 30% mewn termau real dros hynt y cyfnod Adolygiad o Wariant hwn.²³ Ers yr SDSR, rydym wedi cynyddu'r adnoddau ar gyfer Plismona Gwrthderfysgaeth a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, wedi cynyddu buddsoddiad mewn diogelwch hedfanaeth a gwyliadwriaeth ddigidol, wedi gwneud buddsoddiadau ychwanegol yn ein galluedd gwrthderfysgaeth yn ein Lluoedd Arfog, ac wedi cynyddu'n sylweddol ein rhwydwaith byd-eang o arbenigwyr gwrthderfysgaeth a gwrth-eithafiaeth.

97 Caiff ein hymateb ei gyflwyno mewn **cydweithrediad** ag eraill. Mae gan y DU alluedd ac arbenigedd blaenllaw ym meysydd diogelwch, darparu cyfiawnder, a'r frwydr yn erbyn troseddau a therfysgaeth. Mae cydweithrediad rhyngwladol ar ddiogelwch yn digwydd yn rheolaidd ar lefelau lluosog, gan gynnwys: â phartneriaid Five Eyes (UDA, Awstralia, Canada, Seland Newydd); yn ddwyochrog ag Aelod-wladwriaethau'r UE a gwledydd eraill; ar lefel yr Undeb Ewropeaidd (UE); a thrwy fforymau amlochrog nad ydynt yn rhan o'r UE, megis y Cenhedloedd Unedig (CU) a Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd (NATO). Wrth i fygythiadau ddatblygu'n gyflymach nag erioed o'r blaen, mae er budd clir y DU a'i holl gynghreiriaid i gynnal y cydweithrediad agosaf posibl wrth fynd i'r afael â therfysgaeth, troseddau cyfundrefnol a bygythiadau eraill i ddiogelwch cenedlaethol, nawr ac ymlaen i'r dyfodol.

98 Byddwn ni'n parhau i chwarae **rôl ryngwladol flaenllaw** wrth wrthsefyll terfysgaeth tra bydd y DU yn yr UE ac yn dilyn ei ymadawiad ohoni. Byddwn ni'n ceisio cynnal cydweithrediad dwfn ac agos â phartneriaid Ewropeaidd ar faterion gorfodi'r gyfraith a diogelwch ac, mewn rhai meysydd, gan gynnwys y ffin, byddwn ni'n nodi cyfleoedd newydd i gryfhau ein diogelwch.

22 L. Richardson, *What Terrorists Want: Understanding the Terrorist Threat* (Llundain: John Murray, 2006); R. English, *Terrorism: How to Respond* (Rhydychen: Oxford University Press, 2009); M. Sageman, *Misunderstanding Terrorism* (Philadelphia: University of Pennsylvania Press, 2017).

23 www.gov.uk/government/news/government-publishes-strategic-defence-and-security-review

Atal


99 Pwrpas Atal wrth ei wraidd yw diogelu a chefnogi pobl sy'n agored i radicaleiddio er mwyn eu hatal rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Mae ein gwaith Atal hefyd yn ymestyn i gefnogi adsefydlu a dadymgysylltu'r rhai hynny sydd eisoes yn gysylltiedig â therfysgaeth. Mae Atal yn gweithio mewn ffordd debyg i raglenni a gynllunir i ddiogelu pobl rhag gangiau, camddefnyddio cyffuriau, a cham-drin corfforol a rhywiol. Mae llwyddiant yn golygu ymateb gwell i fynd i'r afael ag achosion radicaleiddio, mewn cymunedau ac ar-lein; cefnogaeth effeithiol barhaus i'r rhai sy'n agored i radicaleiddio; a dadymgysylltu rhag gweithgareddau terfysgol gan y rhai hynny sydd eisoes yn ymwneud â therfysgaeth neu sy'n cefnogi terfysgaeth.

Amcanion Atal

100 Amcanion Atal yw:

- Mynd i'r afael ag achosion radicaleiddio ac ymateb i her ideolegol terfysgaeth.
- Diogelu a chefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl o radicaleiddio trwy ymyrryd yn gynnar, gan eu nodi a chynnig cymorth.
- Galluogi'r rhai hynny sydd eisoes wedi ymgymryd â therfysgaeth i ddadymgysylltu ac adsefydlu.

Ffig 2.3 Cyflawniadau pwysig y rhaglen Atal



Galluedd ac ymrwymiadau


101 Mae'r rhaglen Atal yn dibynnu ar arweinyddiaeth a chyflwyno trwy rwydwaith eang o bartneriaid – â chymunedau, sefydliadau cymdeithas sifil, sefydliadau'r sector cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion a phrifysgolion, sefydliadau iechyd, yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf, a'r sector preifat.

102 Yn sail i'r broses Atal yw ein dealltwriaeth o'r broses fygwth a radicaleiddio, trwy asesiadau o ddarlun y bygythiad mewn ardaloedd lleol, a thrwy **ymchwilio a gwerthusoparhaus**.

Model Cyflwyno Atal

Mae model cyflwyno Atal yn nodi sut rydym yn mynd i'r afael â'r achosion a'r ffactorau risg sy'n gallu arwain unigolyn at gael eu radicaleiddio, cefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl o radicaleiddio trwy ymyrryd yn gynnar ac adsefydlu'r rhai hynny sydd eisoes wedi ymgysylltu â therfysgaeth.

Ffig: 2.4 Model Cyflwyno Atal



Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref

103 Mae ymchwil y Llywodraeth ac academiaidd wedi dangos yn gyson nad oes un proffil cymdeithasol demograffig sengl i derfysgwyr yn y DU, ac nad oes un llwybr unigol, neu 'belt cludo', sy'n arwain at gymryd rhan mewn terfysgaeth. Mae terfysgwyr yn dod o ystod eang o gefndiroedd ac ymddengys eu bod yn dechrau cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd ac am resymau gwahanol. Ychydig iawn o'r rhai hynny sy'n cael eu denu i derfysgaeth sydd â gwybodaeth ddofn o ffydd. Er na fydd un ffactor unigol yn achosi i rywun gymryd rhan mewn terfysgaeth, gall sawl ffactor gyfuno i greu'r amodau lle gall radicaloleiddio ddigwydd. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau cefndir, agweddau ar amgylchiadau personol rhywun, a allai eu

gwneud yn agored i radicaleiddwyr, megis cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol; dylanwadau cychwynnol, pobl, syniadau neu brofiadau sy'n dylanwadu ar unigolyn tuag at gefnogi mudiad terfysgol; ac agoriad ideolegol, neu dderbynioldeb i ideoleg eithafol.

104 Ni fydd y mwyafrif o unigolion sy'n profi'r cyfuniad hwn o ffactorau yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn terfysgaeth oherwydd bod ffactorau amddiffynnol sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Mae'r rhain yn amrywio o beidio â chael unrhyw gyfle i ddatblygu cysylltiadau eithafol, i gael blaenoriaethau pwysicaf eraill yn eu bywydau (megis teulu, gyrfa neu gysylltiad cymunedol). Efallai y bydd nifer fach o bobl sydd heb y ffactorau amddiffynnol hyn yn cael eu radicaleiddio. O dan yr amgylchiadau hyn, gall ystod o ddylanwadau cymdeithasol ac ideolegol gyfuno i ddwysáu ymrwymiad i achos terfysgol, a darparu cyfleoedd iddynt weithredu.

105 Rydym yn sicrhau bod holl agweddau ar ein gwaith yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n gywir i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a datblygiadau rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Rydym yn ymgysylltu ag academyddion ac arbenigwyr blaenllaw yn y DU a thramor i sicrhau bod ein rhaglenni yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Rydym wedi cydweithio ag ystod o sefydliadau ymchwil i werthuso prosiectau mewn cymunedau, wedi ymgysylltu ag academyddion i wella ein dealltwriaeth o sut mae terfysgwyr yn defnyddio'r rhyngrwyd i radicaleiddio unigolion sy'n agored i niwed, ac er mwyn llywio sut y gallwn ni amharu ar weithgarwch terfysgol yn fwyaf effeithiol ar-lein.

106 Mae ein gwaith i fynd i'r afael ag achosion radicaleiddio a diogelu pobl sy'n agored i niwed yn cael effaith. Fodd bynnag, mae'r newid yn natur y bygythiad terfysgol yn galw am newid o ran ymateb.

107 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n:

- Canolbwyntio ein gweithgarwch a'n hadnoddau yn y lleoliadau hynny lle mae'r bygythiad gan derfysgaeth a radicaleiddio yn uwch.
- Ehangu ein Rhaglen Ymatal a Datymgysylltu â nod uniongyrchol dros y 12 mis nesaf i fwy na dyblu nifer yr unigolion sy'n derbyn ymyriadau adsefydlu.
- Datblygu cyfres o gynlluniau peilot aml-asiantaeth i dreialu dulliau i wella ein dealltwriaeth o'r rhai hynny sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn terfysgaeth a galluogi ymyriadau cynharach.
- Canolbwyntio ar ein gweithgarwch ar-lein ar atal lledaenu deunydd terfysgol ac adeiladu naratifau gwrthderfysgaeth cryf er mwyn sicrhau nad oes unrhyw leoedd diogel ar gyfer terfysgwyr ar-lein.
- Creu partneriaethau cryfach â chymunedau, grwpiau cymdeithas sifil, sefydliadau'r sector cyhoeddus a diwydiant i wella'r broses o gyflwyno Prevent.
- Atgyfnerthu diogelu wrth wraidd Prevent er mwyn sicrhau nad yw ein cymunedau a'n teuluoedd yn cael eu hecsbloetio neu eu paratoi i ddilyn llwybr eithafiaeth dreisgar.

Amcan 1: Mynd i'r afael ag achosion radicaleiddio

108 Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu bod cymunedau yn fwy ymwybodol o ac yn gallu gwrthsefyll naratifau terfysgol, ag ymatebion wedi'u teilwra i risgiau lleol ac nad oes lleoedd diogel i derfysgwyr ar-lein. Mae gweithio mewn partneriaeth gadarn â chymunedau, grwpiau cymdeithas sifil, sefydliadau'r sector cyhoeddus a diwydiant yn hanfodol i fynd i'r afael ag achosion radicaleiddio ac ysgogi gwrthod naratifau terfysgol, mewn cymunedau lleol ac ar-lein.

Cymunedau

109 Conglfaen Atal yw ein gwaith lleol â chymunedau a sefydliadau cymdeithas sifil. Rydym yn cefnogi sefydliadau cymdeithas sifil ledled y wlad i ddarparu ystod eang o brosiectau sy'n gweithio gydag ysgolion, teuluoedd a chymunedau lleol i feithrin eu hymwybyddiaeth o risgiau radicaleiddio, eu gwydnwch yn wyneb naratifau a phropaganda terfysgol, a'u helpu i wybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon y gallai rhywun fod wedi'i radicaleiddio. Rydym yn cefnogi'r grwpiau hyn i ddatblygu prosiectau pwrpasol, sy'n fwyaf addas i fynd i'r afael â'r bygythiad o radicaleiddio mewn cymunedau lleol, yn seiliedig ar ein dadansoddiad ar y cyd o ddarlun y bygythiad lleol mewn ardaloedd blaenoriaeth.

110 Fel rhan o greu gwydnwch cymunedol cryfach, rydym wedi bod yn gweithio i gynyddu amrywiaeth, gallu a chynaliadwyedd ein rhwydwaith o sefydliadau cymdeithas sifil. Rydym yn cefnogi sefydliadau bach, sydd wedi tyfu allan o lawr gwlad. Rydym yn helpu rhai o'r rhain i ddatblygu ôl troed rhanbarthol trwy ddarparu hyfforddiant a chymorth arbenigol ar reoli busnes, tra'n gweithio hefyd gyda rhai elusennau mwy sefydledig.

Astudiaeth achos: London Tigers

Sefydlwyd London Tigers dros 30 mlynedd yn ôl, gan aelodau'r gymuned De Asiaidd yn Llundain. Ers hynny, mae'r sefydliad wedi ehangu i gynnal prosiectau datblygu ieuencid ar draws y ddinas, gan ddefnyddio chwaraeon fel cyfrwng i gyrraedd pobl ifanc, darparu llwybrau cadarnhaol a hwyluso cyfleoedd ystyrlon. Mae Prevent wedi gweithio gyda London Tigers ers sawl blwyddyn, gan ariannu eu rhaglen 'Adeiladu Gwydnwch Cymunedol'.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc o gymunedau anodd i'w cyrraedd i adeiladu eu gwydnwch i radicaleiddio. Yn 2016/17, cefnogodd Adeiladu Gwydnwch Cymunedol 1,078 o bobl ifanc a allai fod yn agored i gangiau, cyffuriau neu radicaleiddio.

Mae London Tigers yn darparu gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i greu amgylchedd lle gellir trafod materion anodd yn agored. Hefyd maent yn cynnal gweithdai sy'n anelu at herio naratifau eithafol, gan gynnwys ar sail diwinyddol ac i feithrin sgiliau meddwl beirniadol. Eu nod yw creu arweinwyr cymunedol ar gyfer y dyfodol a all barhau i herio eithafiaeth ymhlith eu cyfoedion.

Ar gyfer unigolion a nodir fel y rhai sy'n fwyaf agored i radicaleiddio, mae London Tigers hefyd yn cynnig ymyriadau un wrth un, gan helpu i wella sgiliau meddwl beirniadol y derbynwyr a datgysylltu naratifau terfysgol.

Ar-lein

111 Mae'r rhyngwrwyd yn offeryn pwerus y mae terfysgwyr yn ei ddefnyddio i radicaleiddio, paratoi a recriwtio unigolion sy'n agored i niwed, ac i ysgogi a galluogi ymosodiadau terfysgol. Mae grwpiau terfysgol yn gwneud defnydd helaeth o wahanol lwyfannau ar-lein i gyfathrebu â miloedd o unigolion, gan ledaenu eu hideoleg a'u propaganda niweidiol. Mae ein hymateb yn ddeublyg: gweithio gyda grwpiau cymdeithas sifil i adeiladu eu gallu i herio a gwrthsefyll naratifau terfysgol ar-lein, a chymryd camau cadarn i sicrhau nad oes unrhyw leoedd diogel i derfysgwyr ar-lein trwy atal lledaenu cynnwys terfysgol ar-lein.

112 Mae grwpiau cymdeithas sifil yn darparu lleisiau credadwy i wrthsefyll naratifau radicaleiddio ac eithafol. Mae ein Huned Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfathrebu (RICU) yn helpu'r grwpiau hyn i ehangu eu lleisiau mewn cymunedau ac ar-lein. Mae RICU yn dwyn ein

partneriaid cymdeithas sifil ynghyd ag arbenigwyr diwydiant i ddarparu'r cymorth digidol a chyfathrebu syddu hangen arnynt i ddarparu eu hymgyrchoedd eu hunain. Gall y cymorth hwn gynnwys cyngor creadigol, galluoedd cynhyrchu, adeiladu gwefannau, hyfforddiant ar y cyfryngau a chymorth cysylltiadau cyhoeddus.

Atal defnydd terfysgwyr o'r rhyngwrwd

Mae'r DU ar flaen y gad yn y frwydr i fynd i'r afael â chynnwys terfysgol ar-lein, gan weithio gyda'r heddlu, diwydiant a phartneriaid rhyngwladol i dynnu deunydd o'r fath o'r rhyngwrwd yn gyflym. Sefydlwyd Uned Atgyfeirio Gwrthderfysgaeth Rhyngwrwd yr Heddlu (CTIRU) gennym, sydd wedi sicrhau bod dros 300,000 o ddarnau o gynnwys terfysgol wedi cael eu tynnu oddi ar y rhyngwrwd trwy weithio gyda diwydiant, ac wedi llywio cynllun Uned Atgyfeirio Rhyngwrwd Europol yr UE. Bydd atal defnydd terfysgol o'r rhyngwrwd yn ymgyrch fyd-eang a arweinir gan Weinidogion sy'n rhan o'n hymagwedd wrthderfysgaeth dramor, gan gynnwys ymyrraeth filwrol ar weithrediadau terfysgol yn y cyfryngau dramor.

Er mwyn bodloni cyflymder a graddfa ymlediad propaganda terfysgol ar-lein, rydym wedi bod yn gweithio gyda Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu (CSP) i wella eu hymateb i gynnwys terfysgol ar eu platfformau. Yn dilyn ymosodiad San Steffan ym mis Mawrth 2017, cynullodd yr Ysgrifennydd Cartref gynt ford gron â phrif chwaraewyr yn y diwydiant, gan gynnwys Facebook, Twitter, Google a Microsoft, i weld beth arall y gellid ei wneud i fynd i'r afael â chynnwys terfysgol ar-lein. Arweiniodd hyn at y prif gwmnïau'n sefydlu Fforwm Rhyngwrwd Byd-eang i Wrthsefyll Terfysgaeth (GIFCT) – fforwm rhyngwladol, a arweinir gan ddiwydiant i fynd i'r afael â chynnwys terfysgol ar-lein. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd bwysau ar y cwmnïau i wneud mwy i ymateb i fygythiad cynnwys terfysgol ar-lein, a chynyddu'r defnydd o dechnoleg i awtomeiddio'r prosesau o ganfod a thynnu'r cynnwys.

Rydym am weld y GIFCT yn arwain yr ymateb draws-ddiwydiant, sy'n cynnwys tynnu cynnwys o fewn awr o gael ei uwchlwytho, sicrhau atal ail-uwchlwytho, ac yn y pen draw atal cynnwys newydd rhag bod ar gael i ddefnyddwyr yn y lle cyntaf. Rydym yn annog CSPs drwy'r GIFCT i ddatblygu a defnyddio technoleg sy'n nodi a thynnu cynnwys sy'n gysylltiedig â therfysgaeth ar-lein yn awtomatig. Nid yw'r broblem hon yn hamlygu ei hun ar y llwyfannau mwyaf yn unig. Mae'r GIFCT yn ymgysylltu â platfformau a chwmnïau llai, nad oes gan lawer ohonynt y gallu i ymateb i'r bygythiadau hyn eu hunain, ac mae wedi eu cynorthwyo i gymhwyso'r datblygiadau technolegol newydd hyn.

Amcan 2: Ymyrryd yn gynnar: diogelu a chefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl mawr o gael eu radicaleiddio trwy eu nodi a chynnig cymorth iddynt.

113 Ein nod yw y gall pob rhan o'r system statudol fynd i'r afael â risgiau radicaleiddio'n briodol, â darpariaeth barhaus o gymorth amserol cywir i'r rhai hynny sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n darparu hyfforddiant Atal i filiwn arall o bobl ac yn gweithio i gynyddu'r nifer o atgyfeiriadau sy'n dod o gymunedau, ffrindiau a theulu. Byddwn ni'n sicrhau bod yr holl ymarferwyr rheng flaen yn deall y risg o radicaleiddio ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd gan rywun bryderon. Byddwn ni'n gwreiddio ein hymagwedd yn systemau a phrosesau diogelu craidd y Llywodraeth ac awdurdodau lleol.

Y ddyletswydd atal

114 Fe wnaethom gyflwyno'r ddyletswydd statudol Atal trwy Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae'r ddyletswydd yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, sefydliadau addysg uwch, cyrff iechyd, carchardai a'r gwasanaeth prawf, a'r heddlu ystyried yr angen i ddiogelu pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Mae'n cyd-fynd â dyletswyddau hir-sefydledig ar weithwyr proffesiynol i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu hecsbloetio o ystod o niweidiau eraill megis cyffuriau, gangiau ac ecsbloetio rhywiol a chorfforol. Mae'r ddyletswydd wedi'i chynllunio i helpu i sicrhau bod unigolion bregus sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio yn cael eu cefnogi fel y byddent yn ei gael o dan brosesau diogelu eraill. Mae hyfforddiant atal wedi'i gwblhau dros filiwn o weithiau. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys ein Gweithdai i Godi Ymwybyddiaeth o Atal (WRAP) ac ein pecynnau e-ddysgu Atal, sy'n cynnwys astudiaethau achos yn ymwneud â radicaleiddio eithafol Islamaidd ac asgell dde ac yn darparu gwybodaeth ar fecanweithiau cefnogi a diogelu.

Awdurdodau lleol

115 Arweinir y broses o gyflwyno Atal yn lleol, ac fe'i gyrrir gan ddadansoddiad o'r bygythiad mewn cymunedau. Mae awdurdodau lleol ymysg partneriaid mwyaf hanfodol ein rhwydwaith. Mae'r ddyletswydd Atal yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu neu ddefnyddio grwpiau amlasiantaethol presennol i asesu'r darlun lleol, cydgysylltu gweithgareddau a rhoi trefniadau ar waith i fonitro effaith gwaith diogelu. Mewn meysydd blaenoriaeth lle mae'r risg o radicaleiddio yn cael ei asesu fel y risg uchaf, mae cydgysylltwyr Atal a gyflogir gan awdurdodau lleol yn adeiladu partneriaethau mewn cymunedau, yn goruchwyllo cyflwyno cynlluniau gweithredu lleol i ymateb i'r risg o radicaleiddio, ac yn gweithio gyda phartneriaid i ymgorffori gweithgarwch diogelu mewn gwasanaethau statudol gan gynnwys gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg. Rydym hefyd wedi bod yn treialu ymagwedd newydd lle mae awdurdodau lleol yn cymryd rhan fwy wrth gynnal ein rhaglen Channel (a ddisgrifir yn fanwl isod), gan ddod â'r broses yn fwy unol â gweithdrefnau diogelu cyffredin.

Iechyd

116 Mae gweithwyr iechyd a staff gofal cymdeithasol yn ganolog i waith diogelu. Rydym yn cydweithio'n agos â gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r cyfarwyddyd mae arnynt eu hangen i ymateb yn briodol i risgiau radicaleiddio.

117 Er na sefydlwyd unrhyw gysylltiadau rhwng anhwylder meddyliol a therfysgaeth grŵp, efallai y bydd terfysgwyr sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain yn fwy tebygol o gael cefndir sy'n cynnwys afiechyd meddyliol. Buom yn gweithio gyda GIG Lloegr a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddatblygu canllawiau i sicrhau y bydd y rhai hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl ac sydd mewn perygl o radicaleiddio yn gallu cyrchu'r cymorth a thriniaeth iechyd meddwl sydd arnynt eu hangen. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfarwyddyd a hyfforddiant i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol wella'r modd o nodi, a chefnogi, y rhai sydd mewn perygl o radicaleiddio. Rydym hefyd yn sefydlu dulliau newydd o weithio i sicrhau y gall gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol weithio ochr yn ochr gyda swyddogion Plismona Gwrthderfysgaeth, i reoli'r rhai hynny sydd mewn perygl o radicaleiddio y mae ganddynt anawsterau ac anhwylderau iechyd meddwl hysbys neu a amheuir. Yn bwysig iawn, nid ydym yn rhagdybio bod unigolyn sy'n cyflawni gweithredoedd terfysgol yn dioddef afiechyd meddwl, na bod rhywun ag iechyd meddwl gwael yn debygol o gyflawni gweithred derfysgol.

Addysg

118 Mae amddiffyn disgyblion a myfyrwyr rhag radicaleiddio yn rhan o ddyletswyddau diogelu ehangach athrawon, tiwtoriaid ac academyddion. Mae'r ddyletswydd Prevent yn mynnu bod darparwyr addysg yn meddu ar bolisiâu clir sydd ar waith i ddiogelu myfyrwyr ac i adeiladu eu gwydnwch i radicaleiddio mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae'r rhwydwaith o Swyddogion Addysg Prevent yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ysgolion mewn ardaloedd blaenoriaeth a llywio datblygiad polisi ac arfer ar lefel genedlaethol. Rydym hefyd yn ariannu cydgysylltwyr rhanbarthol i gefnogi'r sector addysg uwch ac addysg bellach a chyrff ieuchyd, sy'n adlewyrchu'r rôl hanfodol mae'r sector addysg yn ei chwarae wrth ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn erbyn radicaleiddio.

Cyfarwyddyd sydd ar gael i gyrff addysg

I gefnogi ysgolion, datblygodd yr Adran Addysg a'r Swyddfa Gartref wefan ar y cyd o'r enw "Educate Against Hate" [Addysgu yn erbyn Casineb] gan ddarparu cyfarwyddyd a chymorth y mae eu hangen ar athrawon, arweinwyr ysgol a rhieni er mwyn amddiffyn plant rhag radicaleiddio ac eithafiaeth.²⁴ Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cyngor ar sut i gadw plant yn ddiogel rhag dylanwadau eithafol ar-lein. Mae Prevent ar gyfer Addysg Bellach a Hyfforddiant (a gynhelir gan y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant) yn cefnogi'r sector Addysg Bellach ac mae Cymunedau Campws Diogel (a gynhelir gan Universities UK) yn cefnogi'r sector addysg uwch.²⁵

119 Nid yw dyletswydd statudol Prevent yn cyfyngu ar drafodaethau na rhyddid barn mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. At hynny, mae'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn nodi'n benodol, ochr yn ochr â'r ddyletswydd, bod yn "rhaid i awdurdod penodedig roi ystyriaeth benodol i'r ddyletswydd i sicrhau rhyddid i lefaru." Dylai ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion fod yn lleoedd lle gall plant a phobl ifanc ddeall a thrafod pynciau sensitif. Mae annog rhyddid i lefaru a thrafodaethau agored yn un o'n harfau mwyaf pwerus o ran hyrwyddo meddwl yn feirniadol ac atal narratifau terfysgol ac eithafwyr rhag cael troedle.

Heddlu

120 Mae'r heddlu'n chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu Prevent, datblygu partneriaethau lleol a dod ag amrywiaeth eang o sefydliadau mewn cymunedau at ei gilydd i gefnogi'r broses o gyflwyno prosiectau lleol i amddiffyn unigolion rhag radicaleiddio. Mae'r heddlu'n darparu cymorth a galluoedd arbenigol i reoli risg ac amharu ar y rhai sydd o ddiddordeb i'r awdurdodau oherwydd eu safbwyntiau eithafol, neu sydd â chysylltiadau â'r rhai hynny sy'n ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

121 Mae'r heddlu'n sicrhau bod Prevent wedi'i wreiddio ym mhob agwedd ar blismona, gan gynnwys patrolau, swyddogaethau cymdogaeth a diogelu. Mae swyddogion yr heddlu yn dod i gysylltiad â phobl sy'n agored i niwed mewn cymdeithas yn aml, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau gwrthderfysgaeth, ac felly maent mewn sefyllfa dda i nodi'r rhai hynny sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth a'u hatgyfeirio ymlaen at gymorth priodol. Mae'r heddlu hefyd mewn sefyllfa unigryw i ymyrryd a, lle bo'n briodol, amharu ar weithgarwch radicaleiddio, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan ddefnyddio ystod lawn eu pwerau a'u hadnoddau.

24 Ar-lein yn: <http://educateagainsthate.com/>


25 Ar-lein yn: <http://preventforfeandtraining.org.uk/>

Atgyfeiriadau Prevent

122 Os oes gan aelod o'r cyhoedd neu weithiwr rheng flaen bryder am unigolyn maent yn ystyried y gallai fod yn agored i radicaleiddio, gallant ei atgyfeirio i gael cymorth neu ymyrraeth briodol. Gall y cyhoedd wneud atgyfeiriadau at eu hawdurdod lleol neu heddlu lleol. Rydym yn annog staff y sector cyhoeddus i ddefnyddio eu mecanweithiau diogelu presennol yn y lle cyntaf i ymdrin â phryderon o'r fath, y gellir eu rheoli'n anffurfiol yn aml a heb atgyfeirio ymlaen. Byddwn ni'n gwneud mwy i gynyddu'r gyfran o atgyfeiriadau sy'n deillio o gymunedau, ffrindiau a theuluoedd unigolion sy'n agored i niwed – y bobl gyntaf yn aml i gael pryderon.

123 Mae pob atgyfeiriad yn cael ei dderbyn gan yr heddlu i ystyried a yw'r unigolyn dan sylw eisoes yn destun ymchwiliad, a yw'n agored i niwed mewn gwirionedd ac a yw hynny'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae atgyfeiriadau'n gyfrinachol. Mewn llawer o achosion, nid oes angen unrhyw gamau pellach, neu asesir nad yw'r diamddiffynedd yn gysylltiedig â radicaleiddio a gwneir atgyfeiriad ymlaen i gael cymorth arall yn ôl yr angen. Caiff gwybodaeth am unigolion a atgyfeirir at Prevent ei rhannu yn unol â deddfwriaeth diogelu data yn unig. Fel unrhyw fecanwaith diogelu, os bydd gwybodaeth yn deillio o'r broses Channel bod unigolyn yn fygythiad iddyn nhw eu hunain neu eraill, bydd y wybodaeth honno'n cael ei rhannu'n briodol â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys yr heddlu, er mwyn galluogi ymyrraeth briodol i atal niwed.

Ffig. 2.5: Y broses atgyfeirio at Channel



Channel

124 Os asesir bod unigolyn yn agored i radicaleiddio, efallai y cynigir cymorth iddynt drwy'r rhaglen Channel yng Nghymru a Lloegr²⁶, neu'r rhaglen Prevent Professional Concerns (PPC) yn yr Alban. Mae'r rhain yn rhaglenni amlasiantaethol a gynlluniwyd i ddiogelu a chefnogi unigolion sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth. Cynhelir Channel ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr ac mae'n mynd i'r afael â phob math o eithafiaeth, gan gynnwys eithafiaeth yr asgell dde eithafol ac Islamaidd.

125 Ar gyfer yr atgyfeiriadau hynny lle mae'r heddlu'n asesu bod risg o radicaleiddio, bydd panel Channel – sydd dan gadeiryddiaeth yr awdurdod lleol ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol feysydd diogelu, gan gynnwys iechyd, addysg a'r heddlu – yn cyfarfod i drafod pob achos ac asesu'n ofalus graddau diamddiffynedd posibl yr unigolyn. Weithiau nid oes angen help o gwbl ar yr unigolyn, ac mae'r atgyfeiriad yn cael ei gau. Mewn achosion eraill, bydd y panel yn cynnig pecyn cymorth i'r unigolyn sydd wedi'i deilwra i'w anghenion. Gallai cefnogaeth gynnwys cymorth ag addysg neu gyflogaeth, cymorth iechyd neu fentora ideolegol i ddarparu sgiliau i unigolion sy'n agored i niwed er mwyn iddo amddiffyn ei hun rhag cael ei ddenu i weithgarwch cysylltiedig â therfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth.

126 Mae cymryd rhan yn Channel **yn hollol wirfoddol**. Mae'n bosibl y bydd pobl nad ydynt yn cytuno i dderbyn cefnogaeth trwy Channel, neu sy'n penderfynu gadael y rhaglen cyn i banel Channel benderfynu eu bod yn barod, yn cael cynnig mathau eraill o gefnogaeth gan yr awdurdod lleol neu ddarparwyr eraill, a bydd unrhyw risg terfysgol yn cael ei rheoli gan yr heddlu.

127 Yn 2016/17, atgyfeiriwyd cyfanswm o 6,093 o unigolion at Prevent. O'r rhain, cafodd 45% eu cyfeirio at gymorth amgen, nid oedd angen camau pellach ar 36% a thrafodwyd 19% ym mhaneli Channel. Derbyniodd 332 o bobl gefnogaeth Channel yn dilyn panel Channel ac roedd 79% o'r rhain wedi gadael y broses ar ôl cael eu hasesu fel rhai nad oeddent yn cyflwyno pryderon pellach yn ymwneud â therfysgaeth. Ym mis Mawrth 2018, fe wnaethom gyhoeddi, am yr ail dro, ystadegau ar unigolion sy'n derbyn cymorth gan y rhaglen Channel.²⁷ Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r ystadegau hyn bob blwyddyn fel rhan o ymdrechion ehangach i gynyddu tryloywder y broses o gyflwyno Prevent.

²⁶ Cyflwynir Prevent trwy wasanaethau datganoledig o fewn Llywodraeth Cymru

²⁷ <https://www.gov.uk/government/collections/individuals-referred-to-and-supported-through-the-prevent-programme-statistics>

Astudiaethau Achos²⁸

Daeth athro Callum yn ymwybodol o'i gysylltiad ag hyrwyddo'r asgell dde eithafol ar Facebook

Roedd Callum yn ei arddedau a daeth ei athro yn ymwybodol o'i gysylltiad ag hyrwyddo tudalen Facebook yr asgell dde eithafol, a oedd wedi peri gofid i fyfyrwr arall. Roedd wedi'i wahodd i gyfarfodydd grŵp "cyfrinachol" yn gysylltiedig â gemau pêl-droed. Heb ddylanwad teuluol o'i gwmpas, roedd yn cael sylw a chymorth cymdeithasol trwy ei gysylltiad â'r grŵp hwn. Dywedodd nad oedd ganddo broblem â'r rhan fwyaf o bobl – dim ond Moslimiaid: nid oedd Moslemiaid fel "ni". Dywedodd y byddai'n eu gwyllo i gyd "yn gwneud eu cyfraith Sharia." Trwy'r broses Channel, gweithiodd yr ysgol gyda'r heddlu, gofod cymdeithasol a grŵp ieuencid lleol i'w gefnogi i herio'r ideoleg roedd wedi'i datblygu, gan roi cyngor gyrfaoedd iddo a'i gysylltu â grŵp ieuencid amrywiol ethnig lleol. Tyfodd ei hyder, fel y gwnaeth y cysylltiad â'i deulu. Gwrthododd yr ideoleg yr oedd wedi'i gysylltu ei hun â hi gan sylweddoli ei fod wedi bod yn mynd i lawr y llwybr anghywir.

Gwelwyd Yusuf yn dosbarthu taflenni a oedd yn hyrwyddo gwefan a oedd yn cynnwys deunydd eithafol, homoffobig a threisgar

Roedd Yusuf yn y brifysgol ac roedd yn 24 oed pan welodd aelod o staff y brifysgol ei fod yn dosbarthu taflenni a oedd yn hyrwyddo gwefan yn cynnwys deunydd eithafol, homoffobig a threisgar. Cysylltodd hi â chydlynedd Prevent y brifysgol a gysylltodd â'r heddlu. Siaradodd y gwasanaethau i fyfyrwyr a'r heddlu â Yusuf gan eu bod yn teimlo ei fod mewn perygl o gael ei ddenu i derfysgaeth. Roedd dynion radicalaidd hŷn wedi dod yn gyfaill i Yusuf trwy drafodaethau hwyr yn y nos a chyfarfodydd ar y penwythnos a dechreuodd huniaethu ag ideoleg eithafol, ond roedd wedi'i ddrysu. Dechreuodd Yusuf symud i ffwrdd o eithafiaeth ar ôl cael caplaniaeth a chymorth seicolegol trwy Channel. Mae bellach wedi cwblhau ei astudiaethau yn llwyddiannus.

Amcan 3: Adsefydlu: galluogi'r rhai hynny sydd eisoes wedi ymgysylltu â therfysgaeth i ddadymgysylltu ac adsefydlu.

128 Mae'r newid yn natur y bygythiad terfysgol, fel y'i dangosir gan ymosodiadau 2017, wedi arwain at ystyriaeth ddyfnach o'r cysylltiadau a'r manau cyffwrdd rhwng Atal ac elfennau eraill o'r system gwrthderfysgaeth, yn arbennig Ymlid. O ganlyniad, rydym yn cynyddu'r pwyslais ar y trydydd amcan hwn, sy'n anelu at leihau aildroseddu a gwella ailintegreiddio'r rhai hynny sydd eisoes yn ymwneud â therfysgaeth neu sy'n ei chefnogi. Drwy beilota ymagweddau amlasiantaethol newydd, ein hymateb i fygythiad eithafiaeth a radicaleiddio mewn carchardai, datblygu'r Rhaglen Ymatal a Dadymgysylltu newydd, a'n gwaith â dychwelwyr o barthau gwrthdaro megis Syria ac Irac (a ddisgrifir yn yr adran Ymlid), rydym yn gweithio i leihau'r risg a gyflwynir gan derfysgaeth trwy adsefydlu ac ailintegreiddio. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu y bydd mwy o bobl yn cael eu dadymgysylltu a'u hadsefydlu rhag derfysgaeth. Er enghraifft, bydd y Rhaglen Ymatal a Dadymgysylltu yn anelu at fwy na dyblu ei allu presennol i gynnwys hyd at 230 o unigolion dros y 12 mis nesaf.

²⁸ Mae'r astudiaethau achos yn rhai real a newidiwyd enwau'r unigolion i ddiogelu eu preifatrwydd.

Y Rhaglen Ymatal a Dadymgysylltu

129 Mae'r Rhaglen Ymatal a Dadymgysylltu (DDP) yn elfen newydd o'n gwaith Prevent. Cynhaliwyd y rhaglen ar ffurf cynllun peilot trwy gydol 2017, gan ganolbwyntio ar bobl sy'n destun amodau a gymeradwywyd gan y llys, gan gynnwys pob troseddwr terfysgaeth a chysylltiedig â therfysgaeth ar drwydded brawf, yn ogystal â'r rhai hynny ar Fesurau Atal ac Ymchwilio Terfysgaeth (TPIM) a'r rhai hynny sydd wedi dychwelyd o barthau gwrthdaro yn Syria neu Irac ac sy'n destun Gorchmynion Gwahardd Dros Dro (TEOs). Lle mae wedi'i orfodi i unigolion sy'n destun TEOs, TPIMs neu ofynion prawf, gallai diffyg cydymffurfio arwain at y posibilrwydd o gael ei gyhuddo am dorri amodau neu gael ei alw'n ôl i'r carchar.

130 Mae'r DDP yn adlewyrchu cydweithrediad cynyddol ar draws gwahanol elfennau o'r system wrthderfysgaeth, yn arbennig Atal ac Ymlid. Drwy'r DDP, rydym yn darparu ystod o ymyriadau wedi'u teilwra'n ddwys a chymorth ymarferol a gynlluniwyd i fynd i'r afael â gyrwyr radicaleiddio o amgylch anghenion cyffredinol hunaniaeth, hunan-barch, ystyr a phwrpas; yn ogystal â mynd i'r afael â chwynion personol mae'r naratif eithafol wedi'u gwaethygu. Gallai cymorth gynnwys mentora, cymorth seicolegol a chynghor diwinyddol ac ideolegol. Rydym yn gweithio gydag academyddion i lywio datblygiad y DDP.

Rheoli risgiau y mae troseddwr terfysgol yn eu peri

Mae carchardai yn amgylcheddau unigryw lle gall unigolion fod yn agored i eithafwyr. Ym mis Ebrill 2017, sefydlodd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder uned ar y cyd i gryfhau ein hymateb i fygythiad eithafiaeth a therfysgaeth mewn carchardai ac ymhlith y rhai hynny sydd ar brawf. Yng Nghymru a Lloegr (mae trefniadau ar wahân ar waith yn yr Alban), mae oddeutu 700 o garcharorion yn cael eu rheoli ar unrhyw un adeg a nodwyd fel rhai sy'n ymwneud â therfysgaeth neu eithafiaeth, neu y mae pryderon am eithafiaeth yn eu cylch. Mae hyn yn golygu ymdrin ag ystod eang o droseddwr, o derfysgwyr wedi'u hysgogi'n fawr a throseddwr trefnedig a euogfarnwyd am droseddau hynod ddifrifol, i'r rhai hynny â phroblemau iechyd meddwl neu wendidau eraill. Rydym yn nodi risg ac anghenion pob troseddwr sy'n peri pryder yn y carchar ac ar brawf ac yn darparu ystod o ymyriadau, o gymorth seicolegol a mentora i ddarpariaeth addysg.

Rheolir pob un o'r rhai hynny a euogfarnir o droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth fel rhan o broses rheoli achos amlasiantaethol. Mae'r broses hon, wedi'i llywio gan asesiadau gorfodi'r gyfraith, yn galluogi'r risg mae'r garfan hon yn ei chyflwyno i gael ei rheoli'n rhagweithiol. Ar gyfer y troseddwr hynny sy'n cyflwyno'r risg fwyaf sylweddol o radicaleiddio carcharorion eraill, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) wedi cyflwyno dwy Ganolfan Wahanu arbenigol yn CEM Frankland ac CEM Full Sutton. Mae'r canolfannau hyn yn helpu i ddiogelu poblogaeth brif ffrwd y carchardai. Yn ogystal, mae'r Ganolfan Genedlaethol Cydlyn Cudd-wybodaeth Carchardai (NPICC), a lansiwyd ym mis Tachwedd 2015, yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r risg mae troseddwr terfysgol yn ei chyflwyno tra yn y carchar ac ar ôl eu rhyddhau.

Rheolir troseddwr terfysgol ar brawf yn ôl y risg y maent yn ei chyflwyno i'r cyhoedd a'u hanghenion adsefydlu. Fe'u rheolir i gyd trwy'r Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA), dan arweiniad y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r heddlu, â mewnbwn gan garchardai, Unedau Gwrthderfysgaeth rhanbarthol a arweinir gan yr heddlu a phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae'r Gwasanaeth Prawf yn rhoi ystod o ymyriadau ar waith i adsefydlu a rheoli'r risg a gyflwynir gan droseddwr terfysgol. Efallai y bydd yn ofynnol i bob troseddwr terfysgol mewn carchardai ac sy'n destun gofynion prawf fynychu ymyriadau fel rhan o'r DDP.

Gweithio amlasiantaethol

Argymhellodd adroddiad David Anderson CF ar ymosodiadau 2017, a'r adolygiadau MI5 a Phlisma Gwrthderfysgaeth sylfaenol, fod gwybodaeth am y rhai hynny sydd (neu sydd wedi bod) o ddiddordeb i'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, o gofio eu bod o bosibl yn ymwneud â gweithgareddau cysylltiedig â therfysgaeth, yn cael eu rhannu ag ystod fwy o bartneriaid â'r nod o atal ymosodiadau tebyg yn y dyfodol. Mewn ymateb, rydym yn sefydlu cynlluniau peilot yn Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Manceinion Fwyaf i brofi ymagwedd amlasiantaethol newydd sy'n dod â phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd â'r nod cyffredin o wella ein dealltwriaeth o'r risg a galluogi ymyriadau lleol cynnar ac effeithiol.

Cynlluniau peilot canolfan amlasiantaethol

Amlygodd ymosodiadau y llynedd yn Llundain a Manceinion yr her o ganfod unigolion a allai gael eu hysbrydoli i gyflawni gweithredoedd terfysgol yn y DU, a'r cyflymder y gall cynllwynion symud i fod yn weithredoedd trais. Mae hyn yn rhoi pwyslais newydd ar ein dealltwriaeth o'r unigolion hynny sy'n agored i radicaleiddio neu sydd (neu sydd wedi bod) o ddiddordeb i'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth oherwydd eu cysylltiadau posibl â gweithgareddau sy'n ymwneud â therfysgaeth, ond nad yw hynny efallai ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliadau gweithredol. Mae ymateb i'r bygythiad newidiol hwn yn galw am ymagwedd newydd, un sy'n cyfuno rhannu cudd-wybodaeth yn well ag ymagwedd leol fwy effeithiol sy'n caniatáu ymyriadau cynnar effeithiol i amddiffyn y cyhoedd.

Mae MI5, Plisma Gwrthderfysgaeth a'r Swyddfa Gartref yn sefydlu cyfres o gynlluniau peilot Canolfan Amlasiantaethol (MAC) i dreialu model gweithredol domestig newydd sy'n mynd i'r afael â'r newid hwn yn y bygythiad. Bydd cynlluniau peilot MAC yn profi ymagweddau amlasiantaethol, ar lefel genedlaethol a lleol, gan dreialu gwahanol ddulliau o rannu gwybodaeth ag ystod ehangach o bartneriaid, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol, i gyfoethogi dealltwriaeth gyffredinol y DU o'r risg rydym yn ei hwynebu. Drwy rybuddio nifer fwy o asiantaethau â gwybodaeth well am y bygythiad lleol, byddwn ni'n gwella ehangder a graddfa ymyriadau sy'n helpu i ddiogelu'r rhai hynny sydd mewn perygl o radicaleiddio a gweithio i sicrhau bod y rhai hynny sydd wedi cefnogi neu wedi ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn dadymgysylltu.

Gan edrych y tu hwnt i'r bygythiad a gyflwynir gan unigolion, mae'r cynlluniau peilot hefyd yn rhoi cyfle i wella ein gweithgareddau yn lleol o fewn y meysydd gwaith Paratoi ac Amddiffyn, gan ddefnyddio gwell dealltwriaeth o ddarlun y bygythiad lleol, er mwyn caniatáu gwelliannau o ran amddiffyn y cyhoedd a'r ymateb brys lleol.

Trwy'r, cynlluniau peilot bydd ymdeimlad o arbrofi a gwerthuso trylwyr, wedi'i gynllunio i yrru ymagwedd arloesol sy'n mynd i'r afael â'r heriau rydym bellach yn eu hwynebu.

Ymlid

131 Diben ein gwaith Ymlid yw atal ymosodiadau terfysgol rhag digwydd yn y wlad hon ac yn erbyn buddiannau tramor y DU Euogfarn yn y llys a charchar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal a rhwystro terfysgwyr a chyflawni cyfiawnder i'w dioddefwyr. Felly mae llwyddiant yn golygu bod yr heddlu a'r awdurdodau erlyn yn gallu canfod, ymchwilio ac yna sicrhau euogfarnau mewn achosion terfysgol, neu amharu ar weithgarwch terfysgol fel arall.

132 Mae cyfundrefn oruchwylio annibynnol gref ar waith i roi sicrwydd i'r cyhoedd bod y pwerau a galluoedd sylweddol sydd ar gael i'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn cael eu defnyddio'n gymesur ac yn briodol.

Amcanion Ymlid

133 Amcanion Ymlid yw:

- Canfod a deall gweithgarwch terfysgol.
- Ymchwilio i weithgarwch terfysgol.
- Amharu ar weithgarwch terfysgol, gan gynnwys trwy erlyniadau.

Galluoedd ac ymrwymadau

134 Mae partneriaethau agos iawn rhwng Plismona Gwrthderfysgaeth a'r asiantaethau diogelwch a cudd-wybodaeth, a, thramor, â'r Lluoedd Arfog, yn sail i waith gwrthderfysgaeth llwyddiannus Ymlid. Rydym wedi datblygu ac yn parhau i gryfhau rhwydwaith o Unedau Gwrthderfysgaeth a arweinir gan yr heddlu sydd wedi'u lleoli ledled y DU, gan ddwyn yr adnoddau angenrheidiol ynghyd mewn un lle i ganfod ac ymchwilio i weithgarwch terfysgol. Yn dilyn SDSR 2015, gwnaethom fuddsoddi ymhellach yng ngalluoedd gwrthderfysgaeth y sefydliadau hyn a byddwn ni'n parhau i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen i ymdrin â'r newid yn y bygythiad terfysgol.

135 Rydym eisoes yn buddsoddi £1.4 biliwn mewn galluoedd gwrthderfysgaeth newydd ar gyfer yr asiantaethau diogelwch a cudd-wybodaeth fel rhan o'n hymrwymadau SDSR. Bydd hyn yn caniatáu i ni recriwtio 1,900 o swyddogion i gefnogi ein hymdrech diogelwch genedlaethol. Er mwyn diwallu'r newid diweddar yn y bygythiad, sydd wedi gweld cynnydd o 30% yn nifer yr ymchwiliadau gweithredol²⁹, mae'r Llywodraeth wedi dyrannu £50 miliwn ychwanegol i Blismona Gwrthderfysgaeth yn 2018/19, yn ogystal â hyd at £28m yn 2017/18 i ddiwallu'r costau uniongyrchol o ymateb i'r ymosodiadau terfysgol yn Llundain a Manceinion.

136 Mae gan Blismona Gwrthderfysgaeth a'r asiantaethau diogelwch a cudd-wybodaeth ystod o alluoedd tactegol a thechnegol sydd ar gael iddynt i amharu ar weithgarwch terfysgol, gan gynnwys ffynonellau cudd-wybodaeth dynol, asedau gwyliadwriaeth a chodi cyfathrebiadau yn gyfreithlon. Ar ben y galluoedd hyn, rydym hefyd yn defnyddio ystod eang o offer i gyfyngu ar allu terfysgwyr i weithredu, er enghraifft gweithio i wahardd sefydliadau, rhewi ac atafael eu hasedau ariannol, a thorri rhwydweithiau a chymdeithasau yn y carchar. Defnyddir yr holl alluoedd hyn yn unol â'r gyfraith a rhoddir ystyriaeth ofalus o angenrheidrwydd a chymesuredd eu defnydd a ph'un a yw'n briodol ar gyfer y bygythiad terfysgaeth.

29 <http://data.parliament.uk/writtenevidence/committeeevidence.svc/evidencedocument/home-affairs-committee/policing-for-the-future/oral/71956.html>

137 Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod y galluoedd mae'r heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn eu defnyddio i gadw'r wlad yn ddiogel yn cael eu hategu gan fframwaith cyfreithiol cadarn. Mae Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn sicrhau bod gan y system gorfodi'r gyfraith a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth y pwerau sydd arnynt eu hangen i ganfod, ymchwilio ac amharu ar droseddau gan gynnwys ymosodiadau terfysgol, yn amodol ar fesurau diogelu a goruchwyliaeth llym. Cyfunodd y Ddeddf bwerau ymchwilio presennol. Fe greodd hefyd un pŵer newydd sy'n caniatáu am y gallu i fynnu y cedwir Cofnodion Cysylltiad Rhynggrwyd.

138 Mae'r Ddeddf Pwerau Ymchwilio hefyd yn cynnal pwerau presennol mewn perthynas ag amgryptio. Mae amgryptio wrth wraidd yr economi ddigidol, gan helpu i gefnogi diogelwch a phreifatrwydd dinasyddion sy'n ufuddhau i'r gyfraith wrth iddynt fancio ar-lein, trosglwyddo ffeiliau ac anfon negeseuon yn ddi-oed ar draws y byd. Fodd bynnag, mae problem benodol â therfysgwyr a throseddwr sy'n camddefnyddio gwasanaethau wedi'u hamgryptio o'r dechrau i'r diwedd. Nid ydym am gael mynediad diymatal i gyfathrebiadau, ond rhaid i ni sicrhau bod ein hasiantaethau'n gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd arnynt ei hangen er mwyn ein cadw'n ddiogel.

139 Mae'r Ddeddf yn darparu i rwymedigaeth gael ei gorfodi ar weithredwr telathrebu i gynnal y gallu i dynnu amgryptio neu ddarparu data ar ffurf ddealladwy pan gyflwynir gwarant, rhybudd neu awdurdodiad iddynt. Dim ond pan fo'n angenrheidiol ac yn gymesur y gellir gorfodi rhwymedigaeth o'r fath, a rhaid iddi gael ei hawdurdodi gan Ysgrifennydd Gwladol a Chomisiynydd Barnwrol ill dau. Disgwylwn y bydd pwysigrwydd mynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan amgryptio yn tyfu ac rydym wedi ymrwymo i weithio â diwydiant i sicrhau bod y system gorfodi'r gyfraith a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn gallu defnyddio'r data a'r cyfathrebiadau sydd arnynt eu hangen i atal ymosodiadau terfysgol a mynd i'r afael â throseddu.

140 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n:

- Gweithredu newid sylweddol yn ein galluoedd ymchwilio domestig trwy weithredu argymhellion MI5 ac Adolygiad Gwella Gweithredol Plismona CT.
- Cyflwyno deddfwriaeth gwrthderfysgaeth newydd er mwyn tarfu ar fygythiadau terfysgol yn y Deyrnas Unedig yn gynharach, gan ystyried graddfa'r bygythiad a'r cyflymder datblygiad cynllwynion erbyn hyn.
- Fel y nodwyd yn y Strategaeth Diogelwch Cenedlaethol ac Adolygiad Strategol Amddiffyn a Diogelwch 2015, rydym yn recriwtio ac yn hyfforddi dros 1,900 o staff ychwanegol ar draws yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth.
- Datblygu cyfres o gynlluniau peilot aml-asiantaeth i dreialu dulliau o wella rhannu gwybodaeth a chyfoethogi ein dealltwriaeth o'r bygythiad ar y lefel leol, gan gynnwys pynciau diddordeb caeedig ac sy'n cau.³⁰
- Dwyn ymladdwyr tramor i gyfiawnder yn unol â'r broses gyfreithiol briodol os oes tystiolaeth bod troseddau wedi'u cyflawni, heb ystyried eu cenedligrwydd.
- Cynnal ein defnydd o offer deddfwriaethol datblygedig i dargedu ac amharu ar gyllid terfysgwyr.
- Sicrhau ein bod yn cynnal ein cyrhaeddiad byd-eang er mwyn amharu ar y rhai hynny sy'n bygwth y DU neu fuddiannau'r DU yn uniongyrchol.

30 Mae'r rhain yn unigolion a gafodd eu hymchwilio yn flaenorol gan Blismona Gwrthderfysgaeth ac MI5, y gallai cyfran fach ohonynt gyflwyno bygythiad o derfysgaeth rywbryd yn y dyfodol.

- Sicrhau goruchwyliaeth gref annibynnol ar ein gwaith gwrthderfysgaeth, gan gynnwys cyhoeddi adroddiadau blynyddol gan Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth, y Comisiynydd Biometreg a'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

Amcan 1: Canfod a deall gweithgarwch terfysgol

141 Ein prif amcan Ymlid wrth atal ymosodiadau terfysgol yw darganfod ac yna nodi bygythiadau terfysgol i'r DU a'n buddiannau yn effeithiol. Mae ein gallu i ganfod a deall y gweithgarwch hwnnw yn hollbwysig i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae'r adran hon yn amlinellu'r dulliau y byddwn ni'n eu defnyddio i barhau i wneud hyn dros y tair blynedd nesaf.

142 Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu bod yr heddlu ac asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn gallu canfod gweithgarwch terfysgol yn well (gan gynnwys unigolion sy'n peri pryder ynghylch diogelwch cenedlaethol i'r DU sydd dramor), ac rydym wedi lleihau'r gofod i derfysgwyr weithredu trwy well gwaith gweithredol ar y lefel leol a chau cyllid i derfysgwyr.

143 Byddwn ni, yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn parhau i ddatblygu galluoedd i sicrhau y gallwn ni gasglu a dadansoddi cyfathrebiadau terfysgol a'u defnydd o gyfryngau digidol er mwyn canfod bygythiadau. Bydd y buddsoddiad hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth ac yn unol â gofynion Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ar gyfer caffael, cadw a defnyddio gwybodaeth o'r fath.

144 Byddwn ni'n gwella ein gallu i ganfod bygythiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg trwy fuddsoddiad hirdymor mewn offer dadansoddi data a systemau rhannu gwybodaeth ar draws y rhwydwaith Plismona Gwrthderfysgaeth a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, er enghraifft cronfeydd data a rhwydweithiau cyfrifiadurol. Mae hyn yn cynnwys ymagwedd wedi'i thrawsnewid tuag at reoli cudd-wybodaeth o fewn Plismona Gwrthderfysgaeth a chyda phartneriaid, gan amddiffyn y cyhoedd rhag niwed ymhellach. Bydd y gwaith peilot amlasiantaethol a ddisgrifir yn yr adran Atal uchod hefyd yn cyfoethogi darlun cudd-wybodaeth y DU ac yn gwella ein dealltwriaeth o'r risg rydym yn ei hwynebu, gan ganiatáu i'r heddlu ac asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth ganfod patrymau a thueddiadau cynharach mewn gweithgarwch terfysgol a fydd yn creu cyfleoedd i ymchwilio ac amharu'n gynharach.

145 Er mwyn sicrhau bod ein gallu canfod yn effeithiol, rydym yn gwella ein gallu i gaffael a defnyddio data i nodi bygythiadau newydd yn hyderus. Gwnawn ni hyn trwy ddefnyddio dau ddull: trwy gyfuno data a gedwir gan yr heddlu, asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus yn well, er enghraifft defnyddio setiau data swmpus; a thrwy gynyddu ein cydweithrediad â'r sector preifat lle gall data a gedwir gan sefydliadau allanol gynorthwyo i ganfod ac atal gweithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, megis prynu rhagsylweddion ffrwydrol. Pan fydd mynediad i'r data hwn yn cynhyrchu cudd-wybodaeth newydd, byddwn ni'n datblygu strategaethau, datrysiadau technegol a phrosesau gwell i'w rheoli yng nghyd-destun meintiau sydd eisoes yn uchel o ran adrodd am fygythiadau.

146 Ar y ffin, mae Atodlen 7 Deddf Terfysgaeth 2000 yn caniatáu i swyddogion heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig atal a holi (a phan fo angen, cadw a chwilio), heb amheuaeth, unrhyw unigolyn sy'n teithio trwy borthladd mynediad neu ardal y ffin, i benderfynu a ymddengys bod yr unigolyn hwnnw'n rhywun sydd wedi bod yn gysylltiedig â chomisiynu, paratoi neu gychwyn gweithredoedd o derfysgaeth. Ceir mwy o fanylion ynghylch y defnydd o bwerau Atodlen 7 yn yr adran Amddiffyn.

147 Sefydlwyd y Cyd-dasglu Cudd-wybodaeth Gyngalchu Arian (JMLIT) yn 2015 i greu amgylchedd lle gall y sector ariannol, y Llywodraeth a'r system gorfodi'r gyfraith gyfnewid a dadansoddi gwybodaeth a chudd-wybodaeth er mwyn canfod symudiadau cronfeydd terfysgol yn well. Mae'r cydweithio cynyddol rhwng y Llywodraeth a'r sector preifat fel hyn yn helpu i amddiffyn y DU rhag terfysgaeth a'i heffeithiau. O fewn y JMLIT, sefydlwyd Grŵp Arbenigwyr Cyllid Terfysgaeth i gefnogi cyfnewid a dadansoddi gwybodaeth am gyllid terfysgol. Yn cynnwys aelodau o'r Llywodraeth, gorfodi'r gyfraith a'r sector ariannol, bydd y Grŵp yn cefnogi darnau thematig o waith er mwyn deall yn well y teipolegau a'r methodolegau sy'n cefnogi ariannu terfysgaeth. Mae aelodau JMLIT hefyd wedi darparu cefnogaeth ar gyfer ymchwiliadau gwrthderfysgaeth, gan gynnwys yr ymchwiliadau i'r ymosodiadau terfysgol ym Manceinion a Llundain y llynedd.

148 Mae rôl arwyddocaol hefyd i'r cyhoedd wrth ganfod ac atal terfysgaeth. Mae ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus ACT (Action Counters Terrorism) yn ceisio annog dinasyddion i fod yn effro i weithgarwch ac ymddygiad amheus ac adrodd amdano wrth yr heddlu. Arweiniodd yr ymgyrch ACT cyntaf i gynydd o 55% mewn galwadau i Llinell Gymorth Gwrthderfysgaeth yr heddlu a lefelau cynyddol o ymwybyddiaeth o'r hyn y dylid edrych amdano. Bydd ymgyrchoedd pellach o dan faner ACT yn cael eu cyflwyno yn y blynyddoedd i ddod. Gall cyfathrebu effeithiol hefyd helpu i leihau llwyddiant tebygol gweithgarwch terfysgol a helpu i leihau cyfreithlondeb ac effaith ymosodiadau ar gymdeithas.

Amcan 2: Ymchwilio i weithgarwch terfysgol

149 Unwaith y bydd gweithgarwch terfysgol wedi'i ganfod a'i ddeall, bydd yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth yn ymchwilio i'r gweithgaredd hwnnw i bennu natur a difrifoldeb y bygythiad a gyflwynir i'r cyhoedd. Cynhwysir y ffyrdd y byddwn ni'n parhau i fodloni'r amcan hwn yn yr adran ddilynol.

150 Mae'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a Phlisma Gwrthderfysgaeth yn gweithredu mwy na 100 o argymhellion a wnaed yn eu Hadolygiad Gwella Gweithredol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwneud gwelliannau i'r defnydd o ddata i wella eu gallu i ganfod gweithgarwch sy'n peri pryder, a phrofi ymagweddau newydd o ran caffael, rhannu a dadansoddi data. Bydd yr ymagwedd weithredol amlasiantaethol newydd yn cael ei threialu (gweler y blwch gwaith Amlasiantaethol ar dudalen 42) hefyd yn helpu i leihau'r risgiau a gyflwynir gan bynciau o ddiddordeb sydd wedi cau ac sy'n cau.³¹

151 Sefydlwyd y Gwasanaeth Cenedlaethol Ecsbloetio Digidol Plisma Gwrthderfysgaeth (NDES) arbenigol yn 2016 i fynd i'r afael â'r her gynyddol sy'n wynebu'r heddlu wrth ddarparu'r dystiolaeth ddigidol sy'n ofynnol i sicrhau euogfarnau ar gyfer y terfysgwyr mwyaf peryglus. Mae'r ymchwiliad terfysgol nodweddiadol yn cynnwys oddeutu deg terarbeit o ddeunydd, a dim ond ffrasiwn ohono sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd cyn y bydd angen penderfyniad ynghylch a ddylid cyhuddo unigolyn ai peidio. Bydd yr NDES yn parhau i wella'r cymorth technegol a roddir i staff gweithredol, â rhaglen yn cael ei sefydlu i ddatblygu galluedd cudd-wybodaeth a thystiolaeth ddigidol newydd.

152 Mae llawer o'r sgiliau, adnoddau, data a galluedd dadansoddol y mae y Llywodraeth a'r system gorfodi'r gyfraith eu hangen i atal ymosodiadau terfysgol yn eiddo yn fwyfwy i'r sector preifat. O ganlyniad, byddwn ni'n blaenoriaethu ein cydweithrediad â chwmnïau'r sector preifat, gan wella dealltwriaeth gyffredin o'r bygythiad a gofynion deddfwriaeth berthnasol y DU, wrth hefyd fod yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen arnom ganddynt i amddiffyn y cyhoedd. Er enghraifft, byddwn ni'n parhau i gydweithio'n agos â Darparwyr Gwasanaethau

31 Unigolion nad ydynt bellach yn destun ymchwiliad gweithredol gan yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth.

Cyfathrebu yn y DU a thramor i ryng-gipio cyfathrebiadau'r rhai yr amheuir eu bod yn derfysgwyr. Yn sail i gydweithrediad o'r fath yw cyfundrefn awdurdodi a goruchwyllo gaeth o dan y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio. Byddwn ni hefyd yn parhau i weithio â'r sector preifat i ddatblygu technegau ffforensig digidol arloesol sy'n cyd-fynd â datblygiadau mewn technoleg ddigidol.

153 Mae terfysgwyr, yn arbennig dramor, yn dibynnu ar lifoedd ariannol i gyllido ymosodiadau, cynnal eu rhwydweithiau a recriwtio aelodau newydd. O ganlyniad, mae amddifadu terfysgwyr o arian yn un mecanwaith i atal eu gweithrediadau. Mae gan ymdrechion i wrthsefyll troseddau difrifol a threfniedig, gan gynnwys cyllid troseddol, gwyngalchu arian a thwyll hunaniaeth, fudd amlwg wrth helpu i ymchwilio i ac amharu ar derfysgaeth. Byddwn ni'n parhau i weithredu yn erbyn codi arian ar gyfer sefydliadau terfysgol a chyllido terfysgwyr, gan gynnwys drwy rewi asedau terfysgwyr a chydweithio'n agos â'r sector cyllid. Cyhoeddwyd Asesiad Risg Cenedlaethol diweddaraf y DU o risgiau a gwendidau'r DU ynghylch gwyngalchu arian a chyllido terfysgwyr ym mis Tachwedd 2017.³²

154 Cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu ar gyfer gwrthsefyll gwyngalchu arian a chyllid gwrthderfysgaeth ym mis Ebrill 2016.³³ Mae'r rhaglen waith hon yn cynrychioli'r newid mwyaf arwyddocaol i'n cyfundrefnau i wrthsefyll gwyngalchu arian a chyllid gwrthderfysgaeth ers dros ddegawd. Mae Deddf Cyllid Troseddol 2017 (CFA) yn rhoi pwerau newydd i asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid i ymchwilio i ac amharu ar gyllido terfysgwyr, gwyngalchu arian a chyllid troseddol. Mae'n gwella gallu sector rheoledig y DU i rannu gwybodaeth pan fydd amheuron o gymryd rhan yn y troseddau hyn. Mae'r CFA hefyd yn diwygio Deddf Terfysgaeth 2000 i greu'r rôl Ymchwilydd Ariannol Gwrthderfysgaeth. Mae hyn yn galluogi Plismona Gwrthderfysgaeth i wneud gwell defnydd o'u gweithlu trwy ymestyn pwerau ymchwilio ariannol penodol, a gadwyd yn flaenorol i gwnstablaid, i ymchwilyddwyr ariannol sifil.

155 Yn ogystal, mae Deddf Sancsiynau a Gwrth-Wyngalchu Ariannol 2018 yn darparu fframwaith ar gyfer caniatáu, lle bo'n briodol, i sancsiynau a weithredir ar hyn o bryd drwy'r UE ddod i rym yn y DU. Mae hyn yn cynnwys sancsiynau gwrthderfysgaeth. Mae hefyd yn darparu i'r DU arfer pwerau sancsiynau yn annibynnol, gan ddisodli'r pwerau a gynhwysir yn Neddf Rhewi Asedau Terfysgwyr ac ati 2010.

156 Dangosodd yr ymosodiadau ym Manceinion a Parsons Green yn 2017 fod ffrwydrion cartref yn arf o ddewis i derfysgwyr. Rydym wedi datblygu labordai ffforensig o'r radd flaenaf, sy'n darparu'r galluoedd angenrheidiol i'r heddlu i ddadansoddi tystiolaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiad cemegol, biolegol, radiolegol, niwclear neu ffrwydrion (CBRNE) a sicrhau ein bod yn gallu dwyn y rhai hynny sy'n ymwneud â therfysgaeth i gyfiawnder. Byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn y galluoedd hyn i sicrhau bod yr arbenigedd gwyddonol a ffforensig yn cael ei gynnal a'i ddarparu trwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol Labordai, Gallu Dadansoddi Fforensig Confensiynol, a'r Labordy Ffrwydrion Fforensig. Disgrifir ein galluoedd i ganfod ac amharu ar weithgarwch terfysgol CBRNE yn yr adran Amddiffyn isod.

157 Mae natur gweithgareddau terfysgol yn golygu bod ein gweithgaredd Ymlid yn golygu gwaith yn y wlad hon a thramor. Disgrifir manylion pellach ynghylch ein gweithgarwch amharu dramor yn yr adran Dramor.

32 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/national-risk-assessment-of-money-laundering-and-terrorist-financing-2017>

33 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/action-plan-for-anti-money-laundering-and-counter-terrorist-finance>

Amcan 3: Amharu ar weithgarwch terfysgol, gan gynnwys trwy erlyniadau.

158 Amharu ar weithgarwch terfysgol cyn y gall ymosodiad gael ei gyflawni yn y DU neu yn erbyn ein dinasyddion a'n buddiannau dramor yw canlyniad casgliadol ein holl waith Ymlid. Mae'r adran hon yn amlinellu'r sawl ffordd y byddwn ni'n parhau i amharu ar weithgarwch terfysgol, ac yn arbennig lle mae digon o dystiolaeth i gefnogi erlyniad am droseddau terfysgaeth lle mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gyda'i gilydd i amharu ar weithgarwch terfysgol gan ddefnyddio pŵer llawn y gyfraith.

159 Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu ein bod yn cynnal y lefelau cynyddol o amharu ar weithrediadau terfysgol yn unol â'r bygythiad uwch a ddisgwyliar, ac yn y pen draw yn ei leihau. Bydd hyn yn galw am alluoedd a phartneriaethau a all weithredu ar gyflymder. Rydym eisiau i unigolion a grwpiau gael eu hatal rhag cynllunio ymosodiadau oherwydd y siawns fawr o fethu a chael eu herlyn. Ein nod dros y tair blynedd nesaf yw cyflawni nifer uwch o erlyniadau yn erbyn terfysgwyr yn unol â'r twf yn y bygythiad, gyda phartneriaid gweithredol a'r awdurdodau erlyn yn cael y galluoedd angenrheidiol i adeiladu tystiolaeth yn ystod ymchwiliadau i sicrhau euogfarnau. Byddwn ni hefyd yn datblygu partneriaeth gyhoeddus-breifat eang a dwfn i'n galluogi i olrhain ac amharu ar gyllid terfysgol, gan adeiladu ar y Cyd-dasglu Cudd-wybodaeth Gwyngalchu Arian (JMLIT). Bydd hyn yn cynnwys diwygio'r gyfundrefn Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (SARs) i wrthsefyll ariannu troseddol, i leihau cydymffurfriad blwch ticio ac i'n galluogi i ganolbwyntio ar y bygythiadau mwyaf.

Pwerau Cyfreithiol

160 Mae gennym amrywiaeth o offer cyfreithiol i amharu ar y rhai hynny sy'n ymgymryd â gweithgawch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae deddfwriaeth yn darparu am droseddau terfysgaeth amrywiol yn Neddfau Terfysgaeth a Gwrthderfysgaeth 2000, 2006, 2008 a 2015. Yn ogystal, mae Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2011 yn darparu mecanwaith i'r Ysgrifennydd Cartref ar gyfer ymdrin â phobl dan amheuaeth o derfysgaeth na allwn eu herlyn neu eu halltudio. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi deddfu i rewi ac, lle bo'n briodol, fforffedu asedau terfysgwyr yn Neddf Rhewi Asedau Terfysgaeth ac ati 2010, a Deddf Gwrthderfysgaeth, Troseddu a Diogelwch 2001. Yn ogystal â'r troseddau a geir yn y Neddfau hyn, bydd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i ymchwilio ac erlyn terfysgwyr, lle bo'n briodol, am dramgwyddau troseddol eraill er mwyn amharu ar eu gweithgarwch yn effeithiol.

161 Mae Deddf Plismona a Throseddu 2017 yn cyflwyno ystod o fesurau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heddluoedd. Crëwyd trosedd newydd am dorri amodau mechniaeth cyn-gyhuddiad sy'n gysylltiedig â theithio mewn achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwella pwerau i ganiatáu cadw data biometrig lle mae gan unigolyn euogfarn flaenorol dramor am unrhyw drosedd, yn ogystal ag o fewn y DU. Mae hefyd yn gwella pwerau'r heddlu trwy greu pŵer mynediad i safleoedd i atafaelu pasbortau sydd wedi'u canslo dan y meini prawf budd cyhoeddus yr Uchelfraint Frenhinol, mewn perthynas â diogelwch cenedlaethol.

162 Byddwn ni'n parhau i adolygu deddfwriaeth wrthderfysgaeth ac, yn unol â'r newid yn y bygythiad a'r amgylchedd gweithredu, rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth gwrthderfysgaeth newydd yn y Senedd. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn ceisio diwygio deddfwriaeth derfysgaeth bresennol i alluogi amharu'n gynharach trwy ddefnyddio ymchwiliadau, dedfrydau carchar hirach a rheolaeth gryfach dros droseddwyr terfysgol yn dilyn eu rhyddhau. Bydd hefyd yn cynnwys mesurau i ddiweddarau'r ddeddfwriaeth gyfredol i gipio ymddygiad terfysgol yn yr oes ddigidol modern.


163 Byddwn ni hefyd yn parhau i ddefnyddio ein pwerau gwahardd yn erbyn sefydliadau terfysgol sy'n ymgymryd â gweithredoedd terfysgaeth a'r rhai hynny sy'n gogoneddu terfysgaeth a gyflawnir gan bobl eraill yn anghyfreithlon. Mae gwahardd yn gwneud aelodaeth o sefydliadau a waherddir a'u cefnogi yn anghyfreithlon, ac mae'n cefnogi gweithgareddau aflonyddgar eraill gan gynnwys amharu ar fewnfudo. Mae ein rhestr ddiweddaraf o'r grwpiau a'r rhesymau dros eu gwahardd ar gael i'r cyhoedd.³⁴ At ei gilydd, mae 88 o sefydliadau terfysgol wedi'u gwahardd ar hyn o bryd yn y DU, 14 ohonynt â chysylltiadau â Gogledd Iwerddon.

Erlyn terfysgwyr a sicrhau euogfarnau

164 Rydym yn ystyried gallu'r heddlu a'r awdurdodau erlyn i sicrhau euogfarnau mewn achosion terfysgol yn fesur pwysig o lwyddiant wrth atal gweithredoedd terfysgaeth. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017, cynhaliodd Gwasanaeth Erlyn y Goron 86 o dreialon am droseddau cysylltiedig â therfysgaeth yng Nghymru a Lloegr, sef cynnydd o 39% o'r flwyddyn flaenorol. O'r 86 o bobl y dygwyd achos yn eu herbyn, cafodd 90% eu heuogfarnu. Yn yr wyth achos sy'n weddill, cafodd y diffynnydd ei ryddhau.³⁵

165 Byddwn ni'n sicrhau bod gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r farnwriaeth y gallu i reoli'r cynnydd mewn erlyniadau gwrthderfysgaeth a chyfreitha sifil a ragwelwn o ganlyniad i'r bygythiad cynyddol a'r camau rydym yn eu cymryd i amharu ar derfysgwyr. Bydd Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal hefyd yn parhau i adolygu gallu yn yr Alban.

Ffig 2.6: Arestiadau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Rhagfyr 2017



Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref. Ac eithrio euogfarnau a ddiddymwyd yn ddiweddarach ar apêl

34 Ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/612076/20170503_Proscription.pdf

35 Ar-lein yn: www.gov.uk/government/statistics/operation-of-police-powers-under-the-terrorism-act-2000-quarterly-update-to-december-2017. Mae'r data hwn wedi'i seilio ar ddyddiad cwblhau'r treial ac nid yw'n bosibl ei gymharu'n uniongyrchol â'r data erlyniadau yn Ffigur 2.4

Teithwyr sy'n derfysgwyr

166 Mae ein hymagwedd gynhwysfawr tuag at reoli'r risgiau a gyflwynir gan deithwyr sy'n derfysgwyr yn dangos y cysylltiadau rhwng ein meysydd gwaith Atal ac Ymlid a sut mae galluoedd Ymlid yn cyfuno i gyflawni ein hamcanion i ganfod, ymchwilio i ac amharu ar weithgareddau terfysgol.

167 Mae mwy na 900 o unigolion o'r DU sy'n peri pryder ynghylch diogelwch cenedlaethol wedi teithio i ymgysylltu â'r gwrthdaro yn Syria. O'r rhain, mae oddeutu 20% wedi cael eu lladd dramor, ac mae oddeutu 40% wedi dychwelyd i'r DU. Mae'r mwyafrif o'r rhai hynny a ddychwelodd wedi gwneud hynny yn ystod camau cynharach y gwrthdaro, ac fe'u hymchwiliwyd wrth iddynt ddychwelyd. Mae cyfran sylweddol o'r unigolion hyn wedi cael eu hasesu fel rhai nad ydynt yn peri pryder ynghylch diogelwch cenedlaethol bellach.

168 Mae llawer o'r unigolion mwyaf peryglus yn parhau i fod dramor. Efallai eu bod wedi cael hyfforddiant, eu trwythio ac wedi ehangu eu rhwydwaith o gysylltiadau terfysgol, ac felly'n cyflwyno heriau sylweddol i'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth ac i system orfodi'r gyfraith. Mae'r unigolion hyn yn parhau i fod yn fygythiad sylweddol i'r DU a'n buddiannau dramor.

169 Rydym yn atal unigolion a amheuir eu bod yn dymuno ymgysylltu â therfysgaeth rhag teithio dramor i Syria ac Irac. Mae'r gwaith hanfodol hwn yn cynnwys, ymhlith eraill, swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol addysg. Ers 2015, mae oddeutu 100 o blant wedi cael eu diogelu gan y llysoedd rhag cael eu cymryd i ardaloedd gwrthdaro yn Syria ac Irac. Trwy ein rôl yn y Gynghrair Byd-eang i drechu Daesh, a'n gwaith agos â'r Cenhedloedd Unedig a phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Twrci, rydym yn rheoli'r bygythiad gan bobl sy'n teithio i'r parth gwrthdaro Syriaidd ac yn dychwelyd oddi yno. Mae gwaith gan yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i dreiddio i grwpiau terfysgol dramor wedi ein galluogi ni – gan weithio gyda'n partneriaid – i amharu ar a chadw unigolion sy'n bwriadu dychwelyd o Syria i'r DU ac Ewrop i gynnal ymosodiadau, gan gynnwys mewn trydydd gwledydd maent yn teithio iddynt.

170 Rydym yn defnyddio'r ystod lawn o alluoedd sydd ar gael i amharu ar a rheoli unigolion sy'n dychwelyd o'r parth gwrthdaro. Lle bo'n briodol, byddwn ni hefyd yn defnyddio pwerau cenedligrwydd a mewnfudo i amddifadu unigolion o'u dinasyddiaeth Brydeinig ac i gau allan gwladolion tramor o'r DU na fyddai eu presenoldeb yma yn ffafriol i les y cyhoedd. Cyflwynodd y Llywodraeth Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn 2015 mewn ymateb i'r duedd gynyddol o wladolion Prydain sy'n teithio dramor i ymgysylltu â therfysgaeth. Trwy'r Ddeddf hon, fe wnaethom gyflwyno mesurau pellach sy'n amharu ar allu bobl i deithio dramor, ac i ddychwelyd i'r DU, gan gynnwys atafaelu pasbortau dros dro yn gyfreithlon ar y ffin, a chyflwyno Gorchmynion Gwahardd Dros Dro (TEO). Mae'r pwerau hyn yn cefnogi galluoedd pwysig yr heddlu i reoli'r risg a gyflwynir gan deithwyr posibl ac maent yn hanfodol o ran gweithredu.³⁶

171 Mae'n rhaid i unigolion sydd wedi teithio i'r parth gwrthdaro ddisgwyl cael eu hymchwilio gan yr heddlu i benderfynu a ydynt wedi cyflawni tramgwyddau troseddol ac i sicrhau nad ydynt yn peryglu ein diogelwch cenedlaethol. Cafwyd eisoes erlyniadau uchel eu proffil o unigolion sydd wedi dychwelyd o'r parth gwrthdaro.

36 Adroddiad Tryloywder Llywodraeth Ei Mawrhydi 2017: Pwerau Ymyrryd ac Ymchwilio 2017, ar-lein yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/593668/58597_Cm_9420_Transparency_report_web.pdf

Enghraifft esboniadol o ddychwelwyr o Syria

Yn 2015, mae menyw Brydeinig yn teithio i ymuno â Daesh. Yn 2017, mae'r unigolyn yn ffoi o dirogaeth Daesh gyda babi newydd ei eni ac maent yn mynd i Dwrci. Ar ôl cyrraedd Twrci, mae'r fam a'r plentyn yn cael eu cadw am ddod i mewn i'r wlad yn anghyfreithlon.

Ar ôl cadw'r fam, hysbysir awdurdodau Prydain. Cynhelir profion DNA ar y plentyn i sefydlu eu hawl i basport Prydeinig. O gofio bod y fam wedi byw yn nhiriogaeth Daesh, mae'r Ysgrifennydd Cartref a barnwr yn cymeradwyo'r defnydd o Orchymyn Gwahardd Dros Dro (TEO) i reoli ei dychweliad i'r DU. Mae'r TEO yn caniatáu i ni bennu llwybr dychwelyd i'r DU a gosod rhwymedigaethau ar yr unigolyn unwaith y bydd yn dychwelyd i helpu i amddiffyn aelodau'r cyhoedd rhag perygl o derfysgaeth.

Yna caiff y fam a'i phlentyn eu halltudio i'r Deyrnas Unedig o Dwrci trwy'r llwybr a bennir gan y TEO. Wrth gyrraedd y DU, mae'r heddlu yn lansio ymchwiliad i weithgareddau'r fenyw yn Syria i benderfynu a yw unrhyw droseddau wedi cael eu cyflawni. Os oes tystiolaeth bod trosedd wedi'i gyflawni yna cyhuddir y fam a bydd Gwasanaeth Erynn y Goron yn cynnal achos troseddol. Os nad oes tystiolaeth o droseddoldeb, cynorthwyr y fam i ailintegreiddio i gymdeithas, er enghraifft, trwy ei wneud yn ofynnol iddi fynychu cyfres o sesiynau gyda mentor wedi'i hyfforddi'n arbennig ym maes dad-radicalaiddio. Yn y cyfamser, mae hefyd yn ofynnol i'r fam – fel rhan o'i TEO – adrodd yn rheolaidd wrth orsaf heddlu a hysbysu'r Swyddfa Gartref am unrhyw newid cyfeiriad. Mae'r awdurdod lleol yn cymryd rhan i sicrhau nad yw'r plentyn mewn perygl uniongyrchol a threfnir mesurau priodol i helpu i ddiogelu lles y plentyn.

172 Dim ond nifer fach iawn o deithwyr sydd wedi dychwelyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini wedi bod yn fenywod â phlant bach. Mae rheoli'r risgiau a gyflwynir gan deithwyr yn cyfuno ymyriadau o'n meysydd gwaith Atal ac Ymlid. Defnyddiwn ni'r arbenigedd a sefydlwyd trwy Prevent i liniaru'r risg y gallant ei chyflwyno trwy herio eu safbwyntiau neu deilwra ein hymateb fel y bo'n briodol. Gall hyn gynnwys gorfodi presenoldeb ar y Rhaglen Ymatal a Dadymgysylltu. Bydd llawer yn destun straen wedi trawma, a all effeithio ar eu hymddygiad yn y dyfodol os na fyddant yn cael sylw. Efallai y bydd y plant yn bodloni trothwyon statudol ar gyfer gofal cymdeithasol, neu efallai y bydd plant sydd newydd eu geni wedi profi gofal gwael ar ôl cael eu geni yn nhiriogaeth a reolwyd gan Daesh. Er mwyn sicrhau bod eu hanghenion a'u risgiau yn cael sylw, mae'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg wedi bod yn gweithio ag awdurdodau lleol a sefydliadau allanol i sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol sy'n ymdrin â'r nifer fach hon o deuluoedd sy'n dychwelyd, gan gynnwys bod eiriolwyr addas ar gael ar gyfer plant i weithredu er eu lles gorau a sicrhau bod oedolion cyfrifol yn cymryd rhan yn eu bywydau.

Goruchwyliaeth annibynnol gref

173 Yn sail i bopeth a wnawn i ddiwallu ein hamcanion Ymlid yw sawl haen o oruchwyliaeth gadarn ac annibynnol, gan sicrhau bod y pwerau a'r galluoedd sydd ar gael gennym yn parhau'n gymesur ac yn angenrheidiol a sicrhau bod y cyhoedd yn hyderus yn y ffordd y cânt eu defnyddio a sut y gellir eu herio. Mae'r adran hon yn amlinellu'r haenau goruchwyllo hynny yn fanylach.

174 Mae'r Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL) yn darparu her gadarn i'r Llywodraeth a'r heddlu, a goruchwyliaeth annibynnol egniïol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn deg, yn gymesur ac yn effeithiol. Trosglwyddodd yr Adolygydd Annibynnol gynt, David

Anderson CF, ei gyfrifoldebau i Max Hill CF a ymgwymerodd â'r rôl ar 1 Mawrth 2017. Yn ei adroddiad blynyddol terfynol, daeth Mr Anderson i'r casgliad fod "y darlun cyffredinol yn ymddangos i mi fel un o ddeddfau priodol gryf, yn cael eu gweithredu'n gyfrifol a'u craffu'n ofalus gan y Senedd a'r llysoedd".³⁷ Yn ei adroddiad cyntaf fel IRTL, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018, mae Max Hill CF wedi parhau i adolygu sut mae ein deddfau gwrthderfysgaeth yn cael eu gweithredu ac wedi gwneud sawl argymhelliad y mae'r Llywodraeth yn eu hadolygu ar hyn o bryd.

175 Elfen bwysig o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 oedd uno swyddogaethau blaenorol y Comisiynydd Rhyng-gipio Cyfathrebiadau, y Comisiynydd Gwasanaethau Cudd-wybodaeth a'r Prif Gomisiynydd Goruchwyliaeth, yn Gomisiynydd Pwerau Ymchwilio unigol. Ag adnoddau a chefnogaeth cywir gan Gomisiynwyr Barnwrol, arbenigwyr technegol a chyfreithiol, a staff gweinyddol, bydd y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn darparu goruchwyliaeth well ar ymarfer pwerau ymchwilio a gwmpasir gan y Ddeddf. Cymerodd y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, Syr Adrian Fulford, gyfrifoldebau goruchwyllo ffurfiol ar 1 Medi 2017. Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol terfynol y Comisiynwyr blaenorol ar 20 Rhagfyr 2017.³⁸

176 Mae'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yn gorff barnwrol sy'n annibynnol ar y llywodraeth. Fe'i llywyddir gan uwch farnwr ac mae ei aelodau'n cynnwys barnwyr ac uwch CFau o bob rhan o'r DU. Mae'r Tribiwnlys yn rhoi hawl i wneud iawn i unrhyw un sy'n credu eu bod wedi dioddef cam anghyfreithlon gan awdurdod cyhoeddus sy'n defnyddio technegau ymchwilio cudd. Y Tribiwnlys hefyd yw'r fforwm priodol i ystyried cwynion am unrhyw "ymddygiad" gan MI5, SIS a GCHQ neu ar eu rhan yn ogystal â hawliadau sy'n honni bod hawliau dynol yn cael eu torri. Bydd yn parhau i gyflawni'r swyddogaethau pwysig hyn. Cryfhodd Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 y darpariaethau sy'n llywodraethu'r Tribiwnlys drwy ddarparu hawl newydd i apelio penderfyniadau a dyfarniadau'r Tribiwnlys o dan amgylchiadau lle mae pwynt cyfreithiol sy'n codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu lle mae rhyw reswm cymhellol arall dros ganiatáu apêl. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â gwaith i hwyluso dod â'r darpariaethau hawl i apelio i rym; rydym yn disgwyl i hyn gael ei gwblhau yn nes ymlaen yn 2018.

177 Bydd y Llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn parhau i ymgysylltu â chymdeithas sifil, yn arbennig ag elusennau sy'n darparu cymorth i wledydd sy'n fregus ac a effeithir gan wrthdaro, er mwyn sicrhau bod eu cyfundrefnau goruchwyllo a chydymffurfio yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau pwysig ynghylch darparu rhyddhad dyngarol.

178 Byddwn ni'n parhau i gefnogi gwaith y Comisiynydd Biometreg sy'n goruchwyllo cadw data biometrig gan yr heddlu am resymau diogelwch cenedlaethol, er mwyn sicrhau y gwneir hyn yn unol â'r gyfraith.

179 Bydd Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch y Senedd yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth Seneddol ar weithgareddau cudd-wybodaeth a diogelwch y Llywodraeth, gan gynnwys yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth.

180 Byddwn ni hefyd yn parhau i gyhoeddi Adroddiad Tryloywder y Llywodraeth blynyddol, er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd gyrchu canllaw cynhwysfawr ar yr ystod lawn o bwerau ymyriadol ac ymchwiliol a ddefnyddir i amharu ar fygythiadau diogelwch cenedlaethol yn y DU.

37 Ar-lein yn: www.gov.uk/government/publications/the-terrorism-acts-in-2015

38 Ar-lein yn: www.gov.uk/government/publications/report-of-the-interception-of-communications-commissioner-annual-report-2016 www.gov.uk/government/publications/report-of-the-intelligence-services-commissioner-for-2016 www.gov.uk/government/publications/office-of-surveillance-commissioners-annual-report-2016

Amddiffyn

181 Diben ein gwaith Amddiffyn yw cadw'r cyhoedd yn ddiogel trwy gryfhau ein hamddiffyniad yn erbyn ymosodiad terfysgol yn y DU neu yn erbyn ein buddiannau dramor, a thrwy hynny leihau ein bregusrwydd. Ein nod yw cael amddiffyniad aml-haen effeithiol i amddiffyn yn erbyn ymosodiad, gan leihau mynediad anghyfreithlon i'r deunydd sydd ei angen ar gyfer ymosodiad gan gynnwys cynyddu prydlondeb adroddiadau trafodion amheus, tra hefyd yn gwarchod mannau cyhoeddus, trafnidiaeth a seilwaith y DU sy'n wynebu'r risg fwyaf o ymosodiad, a gwneud defnydd llawn o'n pwerau a'n galluoedd ar y ffin.

182 Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu bod ein partneriaethau â diwydiant yn sicrhau y bydd rhannu data yn gyflymach. Rydym yn gweithio i ddileu bygythiadau, gan gynnwys defnyddio atebion gwyddonol a thechnolegol i ddileu neu liniaru risg mewn amrywiaeth o sectorau. Rydym wedi sefydlu'r gallu i raddio ein gwaith i ddiwallu'r bygythiad newidiol, gan gynnwys dramor ac ar y lefel leol. Mae ein gwaith cynyddu ymwybyddiaeth yn golygu bod y cyhoedd yn effro i'r bygythiad ac, ynghyd â datblygiadau ym maes technoleg, rydym wedi codi safonau diogelwch yn effeithiol ar draws mannau gorlawn y DU. Mae'r DU wedi gyrru safonau byd-eang newydd ar hedfanaeth ymlaen.

Amcanion Amddiffyn

183 Amcanion Amddiffyn yw:

- Canfod ac ymdrin â phobl yr amheuir eu bod yn derfysgwyr a deunyddiau niweidiol ar y ffin.
- Lleihau'r risg i hedfanaeth byd-eang a gwella ei gwydnwch, sectorau trafnidiaeth eraill a seilwaith cenedlaethol hanfodol sydd fwyaf mewn perygl i ymosodiadau terfysgaeth.
- Lleihau diamddiffynedd mannau gorlawn, grwpiau penodol sy'n agored i niwed, ac unigolion uchel eu proffil.
- Canfod ac atal mynediad a defnydd terfysgwyr o ddeunyddiau sy'n peri pryder, gwybodaeth a hysbysrwydd y gellid eu defnyddio i gynnal ymosodiadau.

Galluoedd ac ymrwymadau

184 Mae gan y DU alluoedd o'r radd flaenaf i amddiffyn pobl a lleoedd rhag terfysgaeth. Ar y ffin, mae'r DU yn cynnal gwiriadau i nodi unigolion o ddiddordeb ac mae wedi datblygu'r defnydd o fisas biometrig, gwybodaeth ymlaen llaw am deithwyr a'r cynllun Awdurdod i Gario ("Dim Hedfan"), i atal unigolion sy'n peri pryder rhag teithio i'r DU. Mae'r ffin yn fan ymyrraeth unigryw. Rydym yn cynnal gwiriadau 100% ar deithwyr sy'n cyrraedd y ffin ar wasanaethau cofrestredig o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (CTA) er mwyn nodi unrhyw bryderon troseddol, diogelwch a mewnfudo. Mae holl asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac mae ganddynt bwerau ymyrryd trwy Atodlen 7 Deddf Terfysgaeth 2000.

185 Mae'r Llywodraeth yn sicrhau diogelwch hediadau yn, o ac i'r DU trwy sicrhau bod system gymhleth o fesurau diogelwch ategol a gorgyffwrdd yn eu lle. Yn y DU, rydym yn sicrhau bod gan feysydd awyr dechnolegau a gweithdrefnau o'r radd flaenaf i ganfod ymdrechion i ddod ag eitemau peryglus ar awyrennau. Dramor, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau, a lle bo angen, gwella safonau diogelwch mewn meysydd awyr. Rydym yn cadw'r mesurau hyn dan adolygiad barhaus i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gymesur. Mae'r Lluoedd Arfog hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn niogelwch hedfanaeth y DU. Gellir lansio awyrennau'r Awyrlu Brenhinol o fewn munudau i ryng-gipio unrhyw awyrennau anhysbys neu anawdurdodedig sy'n peryglu gofod awyr y DU.

186 Rydym hefyd yn gweithio â diwydiant ar draws amrywiaeth o sectorau trafndiaeth a seilwaith cenedlaethol hanfodol arall i gadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae niferoedd swyddogion arfog yn patrolio gorsafoedd a threnau wedi cynyddu. Mae gennym raglenni diogelwch a gwydnwch sefydledig ar waith i amddiffyn ein Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol. Mae Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth yr Heddlu wedi'u lleoli ym mhob rhanbarth heddlu yn darparu cyngor a chyfarwyddyd arbenigol ar ddiogelwch i berchnogion mannau gorlawn a gweithredwyr digwyddiadau. Mae gennym ddeddfwriaeth i sicrhau diogelwch sylweddau y gellid eu defnyddio i gynnal ymosodiadau a galluoedd i ganfod gweithgarwch terfysgol.

187 Mewn ymateb i ymosodiadau yn 2017, mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid ychwanegol i'r heddlu i gynyddu'r Ased Rhwystr Cenedlaethol (NBA), sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfarpar Lliniaru Cerbydau Gelyniaethus, ffensys diogelwch a gatiâu sy'n galluogi amddiffyniad ffisegol dros dro i safleoedd rhag ymosodiadau â cherbydau.

188 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n:

- Casglu a dadansoddi meintiau mwy o ddata o safon uchel i wella ein gallu i dargedu unigolion a nwyddau hysbys a rhai a oedd yn anhysbys o'r blaen a allai beri pryder posibl o wrthderfysgaeth.
- Cadw'r DU ar flaen y gad o ran datblygu technolegau sgrinio a chanfod o'r radd flaenaf wrth y ffin, gan gynnwys canfod ymddygiadol, technegau canfod newydd, dadansoddeg data a dysgu peiriant.
- Targedu'r bygythiad mewnol trwy gryfhau rhannu gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gweithio mewn amgylcheddau sensitif mewn meysydd awyr, er mwyn sicrhau nad oes gan unigolion sy'n peri pryder fynediad i amgylcheddau cyfyngedig.
- Atgyfnerthu diogelwch a chydnerthedd ymhellach ar draws rhwydwaith trafndiaeth y DU a rhannau eraill o'n seilwaith cenedlaethol allweddol sy'n cynnal ein gwlad ac yn darparu gwasanaethau hanfodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant hedfanaeth a phartneriaid rhyngwladol i sicrhau diogelwch hedfanaeth cadarn a chynaliadwy yn y DU a thramor.
- Gwellu diogelwch mewn mannau gorlawn trwy weithio'n agosach ac yn fwy effeithiol ag amrywiaeth ehangach o bartneriaid cyfrifol ymhlith awdurdodau lleol ac yn y sector preifat.
- Gwellu galluoedd i ganfod gweithgarwch terfysgol sy'n cynnwys deunydd Cemegol, Biolegol, Radiolegol, Niwclear a Ffrwydron (CBRNE) a'u rhagflaenwyr a rheoli a diogelu'r deunyddiau hyn.

Amcan 1: Canfod ac ymdrin â phobl yr amheuir eu bod yn derfysgwyr a deunyddiau niweidiol ar y ffin.

189 Mae'r ffin yn dechrau dramor, gan gynnwys gwiriadau ac ymyriadau cyn teithio, yn ogystal ag ar y ffin ffisegol ac yn y wlad. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu ein bod yn parhau i ddatblygu galluoedd ac ymagweddau newydd i ddiwallu rhagolygon o feintiau cynyddol o deithwyr a nwyddau sy'n croesi'r ffin, gan ganolbwyntio ar atal ac uwchffrydio technolegau canfod newydd a arweinir gan ddata.

Defnyddio data teithwyr a nwyddau

190 Bydd mwy o ddata a data gwell am deithwyr a nwyddau yn gwellu cywirdeb ac amseroldeb ein hymyriadau ar y ffin. Data ynghylch teithwyr a nwyddau ar bob llwybr i'r DU ac o'r DU, a ddarperir gan y sectorau hedfanaeth, morol a rheilffyrdd. Byddwn ni'n gwella'r data hwn ac yn uwchraddio ein systemau dadansoddi i ddiwallu galw yn y dyfodol, gan wella'r

gallu i ryngweithredu rhwng systemau a'n gallu i brosesu meintiau cynyddol o wybodaeth. Byddwn ni'n gwella sut mae ein galluoedd targedu'n gweithio gyda'r rhai hynny a adleolir gan ein partneriaid rhyngwladol blaenoriaethol. Byddwn ni'n ehangu'r defnydd o dechnolegau biometrig i gynyddu sicrwydd hunaniaeth, a thrwy brosesau dilysu cadarn, cynyddu ein gallu i nodi'r rhai hynny sy'n defnyddio dogfennau ffug neu a geir yn dwyllodrus.

Data Teithwyr Hedfanaeth

Rydym yn prosesu data teithwyr a nwyddau a ddarperir cyn iddynt gyrraedd neu adael y DU er mwyn nodi a rhyng-gipio bygythiadau posibl a diogelu unigolion sy'n agored i niwed. **Erbyn hyn, derbynir data teithwyr hedfanaeth (API)** gan gludwyr ar gyfer yr holl lwybrau hedfanaeth a drefnir i'r DU ac oddi yno, ac eithrio o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin. Mae hyn yn galluogi cynnal gwiriadau yn y Ganolfan Targedu Ffin Genedlaethol cyn teithio, er mwyn nodi unigolion a dogfennau sy'n peri pryder a lle bo angen, atal yr unigolyn rhag teithio, ac i gynlluniau wrth gefn gael eu rhoi ar waith i ddatrys y sefyllfa os ydynt yn llwyddo i fyrrddio.

Mae gwybodaeth ynghylch data Cofnodion Enwau Teithwyr (PNR) a gesglir gan gwmnïau i brosesu archebion teithio yn helpu system gorfodi'r gyfraith a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth i dargedu a nodi unigolion a allai fod yn teithio at ddibenion cysylltiedig â therfysgaeth a rhoi ymyriadau priodol ar waith. Mae prosesu gwybodaeth ynghylch llwythi nwyddau cyn iddynt gyrraedd neu adael y DU yn galluogi Heddlu'r Ffin, gan weithio gyda Phlisma Gwrthderfysgaeth, i dargedu'n effeithiol gerbydau, cynwysyddion neu barseli i'w harchwilio tra'n hwyluso symud yr holl nwyddau eraill drwy'r ffin.

Nodweddion dynol neilltuol, mesuradwy sy'n unigryw i unigolyn yw biometreg. O dan amgylchiadau a reolir ac fel rhan o wiriadau haenog, gall biometreg ddarparu dull llawer mwy dibynadwy o nodi a dilysu hunaniaeth na defnyddio data bywgraffyddol yn unig. Mae enghreifftiau o fiometreg yn cynnwys olion bysedd, cydnabod wynebau a sganio retina.

191 Mae ein gwiriadau ar y ffin yn cael eu gwneud yn ôl yr ystod ehangaf o restrau gwyllo domestig a rhyngwladol ac fe'u cedwir dan adolygiad cyson. Ond mae angen i ni amharu ar y bygythiad yn gynharach, ymhellach i fyny'r ffrwd, lle bynnag y gallwn. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan wledydd eraill y wybodaeth gywir i gymryd camau priodol trwy atal unigolion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth ar y ffin. Rydym wedi cynyddu faint o wybodaeth rydym yn ei rhannu â phartneriaid dibynadwy a chyrrff amlochrog (gan gynnwys System Wybodaeth Schengen, Europol ac Interpol) a rydym yn gweithio'n rhyngwladol i gefnogi gwledydd eraill i ddatblygu eu galluoedd diogelwch ffiniau eu hunain. Er enghraifft, y DU yw un o'r defnyddwyr a chyfranwyr uchaf i Gronfa Ddata Interpol ar gyfer Dogfennau a Ddygir ac a Gollir.

192 Mae'r DU yn rhan o'r CTA gydag Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw, sy'n adlewyrchu ein cysylltiadau hanesyddol agos. Bydd y trefniant hwn yn cael ei gynnal ar ôl i'r DU adael yr UE. Bydd y DU yn parhau i weithio'n agos gydag Iwerddon a Thiriogaethau Dibynnol y Goron i wella diogelwch ymhellach ar ffin allanol y CTA. Nid yw'r DU yn rhan o barth di-ffin Schengen ac mae'n cynnal ei wiriadau ffin ei hun, gan gadw'r hawl i wirio pawb sy'n cyrraedd, gan gynnwys dinasyddion yr UE o gyfandir Ewrop. Wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, byddwn ni'n parhau i archwilio opsiynau â phartneriaid yn yr UE er mwyn cryfhau diogelwch ffin y DU.

193 Fel y'i nodwyd yn ein Strategaeth Gwrth-lygredd a gyhoeddwyd yn ddiweddar, hyd yn oed lle mae rheolaethau'n gryf, gellir eu tanseilio'n fwriadol trwy lygredd.³⁹ Er bod defnydd o unigolion mewnol llygredig yn arbennig o gyffredin ymysg Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol, mae ymosodiadau diweddar ar awyrennau (er enghraifft, yr ymosodiad ar Daallo Airlines yn Mogadishu⁴⁰) yn dangos sut y gall grwpiau terfysgol ddefnyddio swyddogion llygredig i hwyluso ymosodiad ar hedfanaeth. Bydd asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cryfhau mesurau i ganfod a rhwystro'r rhai hynny sy'n defnyddio llygredd, cydgynllwynio a gorfodi yn ein meysydd awyr a'n porthladdoedd, gan gynnwys trwy gryfhau'r ffordd y caiff gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gweithio mewn amgylcheddau sensitif mewn meysydd awyr ei chasglu a'i rhannu.

Gorfodi'r gyfraith ar y ffin

194 Mae pob asiantaeth gorfodi'r gyfraith yn cydweithio i gyflawni amcanion diogelwch ffin y DU. Mae Atodlen 7 Deddf Terfysgaeth 2000 (Atodlen 7) yn helpu i ddiogelu'r cyhoedd trwy ganiatáu i swyddogion heddlu sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i atal a holi a, phan fydd angen, gadw a chwilio unigolion sy'n teithio trwy borthladdoedd, meysydd awyr, gorsafoedd rheilffyrdd rhyngwladol neu ardal y ffin.⁴¹ Diben y cwestiynu yw penderfynu p'un a yw'r unigolyn hwnnw'n ymddangos fel rhywun sydd wedi cymryd rhan yn y broses o gomisiynu, paratoi neu ysgogi gweithredoedd terfysgaeth. Mae'r defnydd o Atodlen 7 wedi'i seilio ar y bygythiad terfysgol presennol i'r DU a'r gudd-wybodaeth sy'n sail i'r asesiad bygythiad. Felly, rhoddir ffocws mwy ar lwybrau teithio penodol, yn unol â'r asesiad hwnnw. Mae pŵer Atodlen 7 hefyd yn ymestyn i archwilio nwyddau i benderfynu a ydynt wedi'u defnyddio wrth gomisiynu, paratoi neu ysgogi gweithredoedd terfysgaeth.⁴²

195 Byddwn ni'n sicrhau'r amgylchedd cargo ymhellach. Yn 2018, bydd Llu'r Ffiniau yn defnyddio system dargedu nwyddau newydd. Rydym hefyd yn archwilio mwy o ddefnydd o ddadansoddeg data i wella ein hymyriadau ar y ffin, a sut y gallwn ni ddefnyddio data cargo yn well i gefnogi diogelwch hedfanaeth (gweler yr adran ar y sector hedfanaeth isod).

Canfod ar y ffin

196 Rydym yn cryfhau gallu atal a chanfod Radiolegol a Niwclear (RN) y DU ar y ffin (Cyclamen). Rydym yn adnewyddu ei dechnoleg a'i fodel gweithredu, ac yn parhau i ddatblygu a defnyddio technolegau canfod arloesol eraill, gan gynnwys systemau symudol.

39 Ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/667221/6_3323_Anti-Corruption_Strategy_WEB.pdf

40 Ar 2 Chwefror 2016, digwyddodd ffrwydrad ar hediad Daallo Airlines ar ôl i'r hediad gychwyn o Mogadishu. Dychwelodd yr hediad i'r maes awyr yn ddiogel gan adrodd am un farwolaeth.

41 Mae ystadegau ar weithredu pwerau Atodlen 7 yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref bob chwarter. Mae datganiadau ystadegol llawn ar weithredu pwerau'r heddlu o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 ar gael yn www.gov.uk/government/collections/counter-terrorism-statistics

42 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2017, teithiodd dros 300 miliwn o deithwyr drwy borthladdoedd yn y DU ac archwiliwyd cyfanswm o 16,919 o bobl o dan Atodlen 7 ym Mhrydain Fawr, sef gostyngiad o 22% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn parhau'r defnydd mwy effeithiol o'r pŵer yn ystod blynyddoedd diweddar, ac mae'n adlewyrchu'r argaeledd cynyddol o ddata teithio a thechnegau targedu gwell, ynghyd â mesurau diogelu ychwanegol a gyflwynwyd yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. *Gweithredu pwerau'r heddlu o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 a deddfwriaeth ddilynol: Arestiadau, canlyniadau, a stopio a chwilio, Prydain Fawr, diweddariad chwarterol hyd at fis Mehefin 2016.* Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/operation-of-police-powers-under-the-terrorism-act-2000-quarterly-update-to-june-2017>

197 Fel rhan o'n hymdrechion i rwystro troseddwyd rhag dod ag arfau tanio anghyfreithlon i mewn i'r DU, rydym yn gwella ein gallu canfod arfau tanio ar y ffin trwy raglen dechnegol dau gam i wella'r dechnoleg ganfod bygythiad awtomatig sydd ar gael. Mae'r rhaglen hon hefyd wedi'i chynllunio i ysgogi arloesedd yn y sector preifat i brofi dulliau newydd o ganfod arfau tanio sy'n dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon.

Amcan 2: Lleihau'r risg i a gwella gwydnwch hedfanaeth byd-eang, sectorau trafndiaeth eraill a seilwaith cenedlaethol hanfodol sydd fwyaf mewn perygl i ymosodiadau terfysgaeth.

198 Mae lefel y bygythiad rydym yn ei wynebu a'n hymateb iddo yn amrywio ar draws pob un o'r sectorau hyn. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu lleihau'r potensial i derfysgaeth darfu ar yr isadeiledd a'r gwasanaethau hanfodol y mae'r DU yn dibynnu arnynt i ddiogelu'r economi ac i'r cyhoedd gynnal eu busnes yn ddiogel. Mewn partneriaeth â'r diwydiant hedfanaeth, byddwn ni'n amddiffyn awyrennau sy'n hedfan i ac o'r DU, a sicrhau gwelliant cyffredinol yn rhyngwladol wrth weithredu safonau diogelwch hedfanaeth. Bydd gennym y mesurau cywir ar waith i amddiffyn porthladdoedd morol a chodi safonau diogelwch morol rhyngwladol er mwyn amddiffyn llongau, criwiau a theithwyr Prydeinig. Byddwn ni wedi parhau i reoli'r risg i rwydweithiau trafndiaeth tir yn sgîl newidiadau yng ngraddfa a natur y bygythiad, tra'n cadw trafndiaeth yn symud. Byddwn ni wedi gwreiddio ein rheoliadau newydd ar gyfer rheilffyrdd domestig a rhyngwladol yn ymarfer y diwydiant a byddwn ni wedi defnyddio technolegau newydd i reoli risgiau ymhellach, yn ogystal â pharhau i hyrwyddo gwyliadwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd.

Y sector hedfanaeth

199 Mae'r system hedfanaeth fyd-eang yn parhau i fod yn darged totemig ar gyfer terfysgwyr, fel y gwelir â'r cynllwyn yr amharwyd arno yn Awstralia yn 2017⁴³. Bydd terfysgwyr yn parhau i geisio osgoi ein mesurau diogelwch a neilltuo adnoddau i greu methodolegau a thechnolegau newydd i'r perwyl hwnnw.

200 Ers 2015, mae'r Llywodraeth wedi dyblu ei gwariant ar wella a sicrhau diogelwch hediadau i'r DU o wledydd ledled y byd. Trwy ein Rhaglen Asesu Diogelwch Hedfanaeth Fyd-eang, dan arweiniad yr Adran Drafnidiaeth, rydym wedi gweithio'n llwyddiannus i wella safon diogelwch hedfanaeth mewn nifer o leoliadau pwysig dramor. Ond fe ddaw diogelwch yn gyntaf ac rydym yn cadw'r hawl i gymryd camau pendant, o dan amgylchiadau eithriadol, a all gynnwys stopio hediadau o leoliadau risg uchel os credwn ni fod hynny'n angenrheidiol. Ym mis Mawrth 2017, fe wnaethom ddyfarnu y byddai bygythiad uwch i hedfanaeth mewn nifer o leoliadau a chyflwynom fesurau diogelwch ychwanegol. Nid ydym yn cymryd y fath benderfyniadau'n ysgafn o ystyried y baich ar y cyhoedd sy'n teithio ac rydym yn eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd Strategaeth Hedfanaeth Genedlaethol newydd y DU, sydd i'w chyhoeddi yn 2019, yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cymryd golwg gynhwysfawr ar heriau a chyfluoedd diogelwch hedfanaeth i sicrhau ein bod yn cadw'n gyfredol â'r bygythiadau gan derfysgaeth fyd-eang, yn ogystal â'r heriau a gyflwynir gan gyflymder uchel datblygiad yn y system hedfanaeth fyd-eang.

201 Lansiodd y Swyddfa Gartref a'r Adran Drafnidiaeth y raglen Atebion Diogelwch Hedfanaeth y Dyfodol (FASS) yn 2016. Roedd hon yn ffurfio un rhan o ymrwymiad SDSR 2015 i ddyblu gwariant ar ddiogelwch hedfanaeth. Mae gan FASS gyllid o £25.5 miliwn dros bum mlynedd i sicrhau newid sylweddol mewn diogelwch hedfanaeth trwy fuddsoddi

43 Cafodd pedwar unigolyn dan amheuaeth eu harestio gan Heddlu Ffederal Awstralia ar 29 Gorffennaf 2017 yn Sydney ar amheuaeth o gynllwyn a ysbrydolwyd gan Islamiath i osod bom ar heddiad Etihad Airways yn gadael Sydney ar 15 Gorffennaf 2017. Ers hynny, mae dau wedi cael eu cyhuddo o droseddau sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

mewn gwyddoniaeth a thechnoleg arloesol a fydd yn atal arfau, ffrwydrion anghyfreithlon a bygythiadau eraill rhag cael eu cario ar awyrennau. Nod rhaglen FASS yw buddsoddi mewn technoleg cyfnod cynnar yn ogystal â chefnogi cynhyrchion newydd ar bob cam o ddatblygiad. Mae swm o oddeutu £6m eisoes wedi'i ymrwymo i brosiectau trwy amrywiaeth o gystadlaethau cyllido. Mae hyn wedi cyflymu ymchwil i dechnolegau megis algorithmau dysgu peiriant, delweddu cwantwm ac ymagweddau newydd at ganfod tarth ym maes diogelwch hedfanaeth, â'r nod o wella diogelwch, lleihau'r baich ar weithrediadau maes awyr a gwella profiad teithwyr.

202 Byddwn ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant hedfanaeth a phartneriaid rhyngwladol i ehangu ein defnydd o asesiadau risg a arweinir gan ddata i dargedu sgrinio diogelwch ychwanegol ar gyfer teithwyr a chargo sy'n dod i mewn ac yn mynd allan. Rydym hefyd wedi cymryd camau ychwanegol i wella diogelwch cargo yn yr awyr mewn ymateb i'r ymgais i ymosod ar hedfanaeth yn Awstralia yn 2017. Rydym yn archwilio'r defnydd o ymagweddau a arweinir gan ddata i dargedu craffu diogelwch ychwanegol ar rywfaint o gargo â diwydiant a phartneriaid rhyngwladol.

203 Gallai'r mesurau diogelwch cadarn a roddir ar waith gan y DU gael eu peryglu os yw darpariaeth ddiogelwch gwledydd eraill yn ddiffygiol. Os bydd pob gwlad yn cyflawni eu rhwymedigaethau rhyngwladol, bydd hedfanaeth yn darged anos ar gyfer terfysgwyr. Gan ddefnyddio ein harweinyddiaeth fyd-eang, byddwn ni'n parhau i ymgyrchu â'n partneriaid rhyngwladol i godi safonau a galluoedd byd-eang (gweler yr adran ar ymgyrchoedd byd-eang yn yr adran Dramor). Roedd y DU yn allweddol wrth sicrhau penderfyniad cyntaf Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig ar ddiogelwch hedfanaeth ym mis Medi 2016 (UNSCR 2309), a phenderfyniad dilynol (UNSCR 2396 ym mis Rhagfyr 2017) â'r nod o wrthsefyll bygythiadau terfysgol, gan gynnwys trwy ddiogelwch cryfach ar gyfer hedfanaeth ac ar y ffin. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Hedfanaeth Sifil Rhyngwladol (ICAO) i'w cynorthwyo i ddatblygu cynllun diogelwch hedfanaeth byd-eang i gyflawni'r ymrwymïadau yn y penderfyniad.

Sectorau trafnidiaeth eraill

204 Mae'r sector rheilffyrdd yn dal i fod yn darged deniadol i derfysgwyr. Yn dilyn yr ymgais yn 2015 i ymosod ar drên yn Ffrainc, cyflwynwyd amrywiaeth o fesurau i wella ymatebion i ddigwyddiadau diogelwch ar drenau, gan gynnwys gwella'r gallu i ryngweithredu rhwng yr heddlu a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gwella mynediad gwasanaethau brys i Drên Danddaearol Llundain, a datblygu ymgyrchoedd cyfathrebu cyhoeddus wedi'u targedu. Mae'r ymateb i ymosodiad ar drên wedi cael ei brofi mewn cyfres o ymarferion amlasiantaethol cenedlaethol, gan gynnwys fel rhan o'r Ymarfer RED KITE Haen Un (Cenedlaethol a Gweinidogol) yn 2016. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau Ffrainc a'r gwasanaethau brys i sicrhau bod diogelwch yn Nhwnnel y Sianel yn gadarn. Cafodd hyn ei brofi ym mis Ionawr 2018 yn ystod ymarfer diogelwch blynyddol y DU-Ffrainc.

205 Yn sgîl bygythiad sy'n newid, yn 2017 diweddarodd yr Adran Drafnidiaeth hefyd reoliadau diogelwch ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd trwm domestig a rhyngwladol. Wrth weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd, fe wnaeth yr Adran Drafnidiaeth a'r Ganolfan Amddiffyn Isadeiledd Cenedlaethol (CPNI) ddatblygu a chychwyn yr ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol "See it. Say it. Sorted." i annog gwyliadwriaeth ymhlith y cyhoedd ac adrodd am weithgareddau a/neu eitemau amheus i Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP). Mae BTP wedi ehangu ei alluoedd, gan gynnwys cynyddu nifer y swyddogion arfog sy'n patrolio gorsafoedd a threnau a chreu unedau gweithrediadau arbenigol newydd ym Manceinion a Birmingham.

206 Rydym wedi diweddarau ein cyfarwyddyd diogelwch i'r sector bysiau a choetsys, a byddwn ni hefyd yn cynnal adnewyddiad mawr o'n cyfarwyddyd diogelwch ar gyfer rheilffyrdd ysgafn, gan ddechrau yn 2018 â'r bwriad o weithredu cyfarwyddyd newydd erbyn dechrau 2020. Byddwn ni'n parhau i weithio â thimau dylunio ar draws y sector rheilffyrdd i sicrhau bod mesurau diogelwch yn cael eu cynnwys mewn seilwaith newydd. Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein hymgyrchoedd ymwybyddiaeth diogelwch, a byddwn ni'n parhau i archwilio sut y gall datblygiadau technolegol ein helpu i liniaru risgiau diogelwch, mewn meysydd megis dulliau a thechnegau sgrinio, a byddwn ni'n parhau i weithio â phartneriaid ar draws y Llywodraeth i ystyried potensial dadansoddiad ymddygiadol.

207 Hefyd, bydd y Llywodraeth yn mynd i'r afael â gwendidau yn y sector morol. Symudwyd oddeutu 95% o fasnach Prydain mewn nwyddau yn ôl pwysau ar y môr yn 2016, felly mae'n bwysig ein bod ni hefyd yn gweithio gyda phorthladdoedd sy'n ganolfannau allforio allweddol i'r DU, i ddiogelu llongau a morwyr Prydain sy'n defnyddio'r porthladdoedd hynny, ac i ddiogelu economi'r DU. Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod y sector porthladdoedd yn gweithredu mesurau wedi'u ffocysu, cymesur i atal gweithredoedd terfysgaeth ar fwrdd llongau ac mewn porthladdoedd morwrol y DU. Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn parhau â rhaglen ymchwil i dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg ac effeithiau aflonyddol er mwyn sicrhau bod y porthladdoedd yn parhau i gael y mesurau cywir ar waith i liniaru'r bygythiad gan derfysgaeth.

208 Mae'r Swyddfa Gartref a'r Adran Drafnidiaeth, gan gydweithio'n agos â phartneriaid traws-lywodraethol a gweithredol, yn cydlynu gwaith i amddiffyn yn erbyn ymosodiad terfysgol morol. Mae amrywiaeth o fesurau diogelwch yn eu lle i amddiffyn teithwyr a chargo, ac rydym yn ymarfer ein hymateb tactegol i ymosodiad terfysgol arforol yn rheolaidd. Â chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cartref gynt, fe wnaeth awdurdodau Ffrainc ddefnyddio marsialiaid arfog y môr ar nifer o fferiau traws-sianel. Mae hyn wedi digwydd ers mis Rhagfyr 2016. Bydd y rhaglen hon, yn ogystal ag ystod o fesurau diogelwch eraill, yn rhan o Gytundeb Gwrthderfysgaeth Morol y DU-Ffrainc, sy'n cael ei ddatblygu i'w gytuno yn 2018.

Seilwaith cenedlaethol hanfodol

209 Mae ein seilwaith cenedlaethol hanfodol (CNI) yn cynnwys cyfleusterau, systemau, safleoedd, eiddo, gwybodaeth, pobl, rhwydweithiau a phrosesau sydd eu hangen i gadw'r DU yn gweithredu ac yn darparu'r gwasanaethau hanfodol rydym yn dibynnu arnynt. Mae hefyd yn cynnwys seilwaith a allai gael effaith sylweddol ar ein diogelwch cenedlaethol neu ar weithrediad y wladwriaeth, os amharir arno. Rydym yn categorio CNI yn un deg tri o 'sectorau hanfodol'.⁴⁴ Mae amddiffyn ein CNI yn erbyn risgiau sylweddol, gan gynnwys terfysgaeth, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.

210 Mae gennym raglenni diogelwch a gwydnwch sefydledig ar waith i amddiffyn ein CNI. Mae adrannau arweiniol y llywodraeth yn cynhyrchu Cynlluniau Diogelwch a Gwydnwch y Sector bob blwyddyn⁴⁵ ar gyfer pob sector hanfodol. Mae'r cynlluniau'n nodi'r seilwaith allweddol yn y sectorau hynny, yn disgrifio'r risgiau mwyaf arwyddocaol, ac yn gosod trefniadau ar gyfer amddiffyn yn erbyn y risgiau hynny, ac ymateb iddynt.

44 Sectorau seilwaith cenedlaethol hanfodol y DU yw: Cemegau; Niwclear Sifil; Cyfathrebu (sy'n cynnwys Telathrebu, Rhyngrwyd, Darlledu a Phost); Amddiffyn; Gwasanaethau Brys (sy'n cynnwys yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Ambiwylans a Gwylwyr y Glannau EM); Ynni; Cyllid, Bwyd; Llywodraeth; Iechyd; Gofod; Trafnidiaeth; a Dŵr a Charthffosiaeth.

45 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/collections/sector-resilience-plans>

211 Mae CPNI yn darparu cyngor ar ddiogelwch corfforol a phersonél i sefydliadau CNI, â'r nod o leihau ein bregusrwydd i derfysgaeth a bygythiadau arwyddocaol eraill. Yn yr un modd, mae'r Ganolfan Genedlaethol Seiberddiogelwch (NCSC) yn canolbwyntio ar leihau'r risgiau diogelwch seiber i'r DU, gan weithio gyda busnesau ac unigolion i ddarparu cyngor seiberddiogelwch awdurdodol a chydlynol a rheoli digwyddiadau seiber, wedi'i ategu gan ymchwil ac arloesedd o'r radd flaenaf. Mae'r NCSC yn gweithio'n agos iawn gyda system gorfodi'r gyfraith a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth er mwyn helpu i atal, tarfu ar ac ymchwilio i seiberdroseddau a bygythiadau seibr eraill cysylltied. Ym mis Tachwedd 2016, fe wnaethom gyhoeddi Strategaeth Ddiogelwch Seiber Genedlaethol bum mlynedd, sy'n diffinio ein gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol: DU sy'n ddiogel ac yn wydn yn wyneb bygythiadau seiber, yn ffyniannus ac yn hyderus yn y byd digidol.⁴⁶

212 Gan fod ein CNI yn eiddo i'r sector preifat ac yn cael ei weithredu ganddo yn bennaf a'i fod yn gysylltiedig â rhwydweithiau rhyngwladol a chadwyni cyflenwi ehangach, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a thrwy gydweithio rhyngwladol er mwyn gwella ei ddiogelwch a gwydnwch yn barhaus.

Amcan 3: Lleihau diamddiffynedd mannau gorlawn, grwpiau penodol sy'n agored i niwed, ac unigolion proffil uchel.

Amddiffyn mannau gorlawn

213 Fel y gwnaeth ymosodiadau 2017 ddangos, mae mannau gorlawn yn dargedau deniadol i derfysgwyr. Mae cynllwynion yr amharwyd arnynt ac asesiadau cudd-wybodaeth dilynol yn awgrymu y bydd hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'r heddlu'n adolygu ein hymagwedd genedlaethol tuag at ddiogelwch amddiffynnol yn gyson yng ngoleuni newidiadau yn y bygythiad. Yn dilyn ymosodiadau yn 2017, cafodd yr ymagweddau presennol eu hadolygu a'u diwygio a gwnaed nifer o newidiadau. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu ein bod ni wedi darparu cyfarwyddyd o ansawdd uwch sy'n fwy addas i'r defnyddiwr ar fethodolegau bygythiad a'u lliniaru i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am fannau gorlawn (y sector preifat yn bennaf) a'n bod wedi ymgysylltu â mwy o awdurdodau cyfrifol i gyflawni canlyniadau diogelwch effeithiol a chysion hyd at lefel briodol a chymesur. Lle mae gwendidau'n parhau, byddwn ni wedi datblygu technolegau newydd, megis amrywiaeth o fesurau sgrinio cymesur a chost-effeithiol pan fydd llawer o ymwelwyr i helpu i amddiffyn mannau gorlawn rhag ymosodiadau â chlwyfedigion lluosog.

214 Mae Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth yr Heddlu (CTSAs) sydd wedi'u lleoli ym mhob rhanbarth heddlu yn darparu cyfarwyddyd diogelwch pwrpasol i berchnogion a gweithredwyr mannau gorlawn, ac yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o derfysgaeth i gannoedd ar filoedd o staff a rheolwyr yn flynyddol i'w helpu i ddeall y bygythiad, gwella eu hagwedd at ddiogelwch ac adrodd am weithgarwch amheus. Mae cyngor diogelwch ac ymwybyddiaeth pwrpasol ar gael ar-lein hefyd.⁴⁷ Mae gwaith pellach i wella diogelwch yn cynnwys ein partneriaeth ar y cyd â'r diwydiant trwy'r Gyd-ganolfan Diogelwch a Gwydnwch (JSARC) a hefyd ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch. Ar gyfer adeiladau newydd ac ailddatblygiadau sylweddol, mae CTSAs a CPNI yn cymryd rhan yn y cam dylunio cysyniadol fel bod mesurau diogelwch effeithiol yn cael eu hystyried mor gynnar â phosib.

46 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/national-cyber-security-strategy-2016-to-2021>

47 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/news/act-awareness-elearning>

215 Yng Ngogledd Iwerddon, Cymru, a'r Alban, darperir cyngor diogelwch amddiffynnol gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU), a swyddogion Heddlu'r Alban yn eu tro, gan ddefnyddio cyfarwyddyd Swyddfa Genedlaethol Diogelwch Gwrthderfysgaeth yr heddlu (NaCTSO).

216 Yn ddiweddar, mae terfysgwyr wedi defnyddio cerbydau, gan gynnwys HGVs a cherbydau llog i ymosod ar dorfeydd mewn nifer o leoedd gan gynnwys y DU, Ewrop, UDA, Canada ac Israel. Rhoddwyd mesurau Lliniaru Cerbydau Gelyniaethus (gan gynnwys o'r rhwystrau diogelwch amddiffynnol dros dro adleoladwy Asedau Rhwystrau Cenedlaethol sydd wedi'u hehangu) ar waith ledled y wlad i amddiffyn y cyhoedd mewn digwyddiadau mawr, mewn dinasoedd mawr, mewn nodau trafnidiaeth ac ar rai pontydd. Mae'r Adran Drafnidiaeth, yr Heddlu, CPNI a'r Swyddfa Gartref yn gwella amddiffyniad yn erbyn y bygythiad hwn ymhellach, gan gynnwys gwaith i ddatblygu mwy o rwystrau parhaol ac â socedi adleoladwy i amddiffyn yn erbyn ymosodiadau sy'n cael eu hachosi gan gerbydau, mwy o rwystrau dros dro, cost-ffeithiol ac adleoladwy ar gyfer amddiffyn digwyddiadau untro, gweithio gyda diwydiannau llogi cerbydau a chludo nwyddau ar fesurau i wella ymwybyddiaeth diogelwch gwrthderfysgaeth trwy hyfforddiant a chyfarwyddyd arfer gorau ac i ddeall lle y gellir datblygu technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg (e.e. dyfeisiau i lonyddu cerbydau) er mwyn lliniaru'r bygythiad ymhellach.

217 Bydd angen i ni wneud mwy, yn sgîl y newid yn y fethodoleg derfysgol a'r nifer fawr iawn o safleoedd lle mae pobl yn ymgynnull yn y DU. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried datblygu cyfathrebu mwy a gwell i berchnogion mannau gorlawn, gweithredwyr ac awdurdodau cyfrifol, sut y gallwn ni ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn yn well er mwyn sicrhau canlyniadau diogelwch effeithiol, ac os oes angen, mesurau deddfwriaethol posibl.

Astudiaeth achos – Partneriaeth â Pool Re

Mae gan y diwydiant yswiriant y potensial i lunio ymddygiad a gwella diogelwch, diogeledd a gwydnwch, gan gynnwys helpu i hyrwyddo ymddygiadau sy'n ystyried diogeledd mewn meysydd lle mae llai o reoleiddio. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio'n agos gyda darparwyr yswiriant i archwilio meysydd lle gallant gefnogi ein hamcanion gwrthderfysgaeth.

Mae Pool Reinsurance Company (Pool Re) yn enghraifft ardderchog o bartneriaeth gyhoeddus-breifat a sefydlwyd yn benodol i liniaru effaith ariannol ymosodiad terfysgol.

Mae Pool Re a'r heddlu wedi cydweithio i ddatblygu'r Credyd Lliniaru Colled: disgownt ar breimiymau yswiriant ar gyfer busnesau sy'n gweithredu Gweithgaredd Gwella Diogelwch Amddiffynnol achrededig y Llywodraeth. Mae hyn o fudd i fusnesau a diogelwch.

218 Gall mesurau diogelwch amddiffyn gwrthderfysgaeth "Dylunio i mewn" o ddechrau datblygiadau newydd (ac adnewyddiadau sylweddol) trwy gydol y broses ddatblygu ddarparu mesurau diogelwch cymesur ar gyfer y rhai hynny sy'n defnyddio ac yn ymweld â mannau gorlawn, heb wrthdaro gydag anghenion busnesau lleol neu ymarferoldeb y man cyhoeddus. Mae'n fwy cost-ffeithiol i "ddylunio i mewn" mesurau diogelwch amddiffynnol o ddechrau cynllun, a, thrwy ymgysylltu â'r holl randdeiliad â buddiant, gall y broses hon sicrhau bod mesurau'n cydweithio, nad ydynt yn disodli gwendidau i fannau eraill mewn adeilad newydd, ac yn cynnig parhad busnes ehangach a buddion ynghylch atal trosedd.

219 Darperir mesurau diogelwch amddiffynnol i bobl broffil uchel a all gael eu targedu gan derfysgwyr, gan ddibynnu ar asesiad o lefel y bygythiad. Byddwn ni'n parhau i sicrhau bod y mesurau hyn yn dal i fod yn effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn gymesur.

Amcan 4: Canfod ac atal mynediad a defnydd terfysgwyr o ddeunyddiau sy'n peri pryder, gwybodaeth a hysbysrwydd y gellid eu defnyddio i gynnal ymosodiadau.

220 Mae gan lawer o'r sylweddau y gellir eu defnyddio i gynnal ymosodiadau ddefnyddiau cyfreithlon eang. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu ein bod yn lleihau argaeledd y deunyddiau sy'n peri'r pryder mwyaf heb effeithio'n ddiangen ar allu pobl i fyw eu bywydau yn rhydd ac yn hyderus. Bydd hefyd yn golygu galluoedd cyflymach a doethach ar gyfer canfod trafodion amheus.

221 Mae'r Swyddfa Gartref yn defnyddio amrywiaeth o ymyriadau polisi i atal mynediad gan derfysgwyr i ddeunyddiau sy'n peri pryder. Mae'r rhain yn cynnwys deddfwriaeth i sicrhau diogelwch sylweddau wrth eu defnyddio neu eu gwerthu'n gyfreithlon; cynlluniau gwaredu cemegau; codau gwirfoddol i fusnesau sicrhau cadwyni cyflenwi; a galluoedd i ganfod trafodion amheus. Caiff penderfyniadau ar ymyriadau eu llywio gan argaeledd deunyddiau; effeithiolrwydd tebygol mesurau rheoli; yr effaith bosibl ar ryddid personol; a chanlyniadau anfwriadol posibl megis dadleoli i sylweddau neu ddulliau ymosod mwy niweidiol.

222 Byddwn ni'n parhau i weithio â diwydiant a manwerthwyr i ddileu'r bygythiad trwy ddatblygu dewisiadau eraill sy'n fwy diogel a hyfyw yn fasnachol ar gyfer cynhyrchion a ddefnyddir yn gyfreithlon sy'n cynnwys deunyddiau sy'n peri pryder, gwella prosesau i gynyddu mwy o ymwybyddiaeth a rheoli mynediad at, neu hysbysu gwerthiannau o, ddeunydd a allai gael ei ddefnyddio i gyflawni gweithredoedd terfysgaeth. Mae gan y DU gyfundrefn sy'n ei wneud yn ofynnol i aelodau'r cyhoedd sydd am gaffael, meddu neu ddefnyddio rhagflaenwyr ffrwydron neu wenwynau at ddefnydd cyfreithlon ddal trwydded.⁴⁸ Rhaid i fusnesau sy'n gwerthu neu'n cyflenwi cemegau o'r fath roi gwybod am drafodion amheus a cholledion a lladradau sylweddol i alluogi canfod ac amharu ar gynllwynion ymosodiadau terfysgol yn gynnar. Mae'r gyfundrefn reoleiddiol hon wedi arwain at erlyniadau ac wedi atal ymosodiadau sy'n defnyddio rhagsylweddion ffrwydrol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda manwerthwyr a'r system gorfodi'r gyfraith i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithredu'n effeithiol a byddwn ni'n adolygu'r sylweddau sydd angen trwydded a'r rheolaethau yn eu cylch.

223 Mae cynhyrchu a storio deunyddiau radiolegol a niwclear gan wladwriaethau yn amodol ar reolaethau rhyngwladol a chyfundrefnau diogelwch amddiffynnol llym, gan gynnwys amddiffyn a diogelu safleoedd niwclear sifil. Mae'r DU yn ceisio lleihau bygythiadau o arfau radiolegol a niwclear trwy'r Rhaglen Lleihau Bygythiad Byd-eang, rhaglen gwrth-dwf rhyngwladol a arweinir gan y DU. Mae gan y DU rôl flaenllaw yn y Fenter Fyd-eang a gyd-gadeirir gan yr Unol Daleithiau a Rwsia i Wrthsefyll Terfysgaeth Niwclear, gan ddarparu arbenigedd a chymorth er mwyn cynyddu gallu rhyngwladol i ganfod bygythiadau terfysgaeth radiolegol a niwclear ac ymateb iddynt. Mae'r DU yn darparu arbenigedd a chymorth i wladwriaethau i weithredu Penderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig 1540 (Ebrill 2004), sy'n gosod rhwymedigaethau rhwymol i gymryd camau i atal gweithredwyr nad ydynt yn rhai Gwladwriaeth rhag caffael, trosglwyddo neu ddefnyddio arfau niwclear, cemegol neu fiolegol a'u systemau cyflenwi.

48 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/supplying-explosives-precursors/supplying-explosives-precursors-and-poison>

224 Er yr asesir bod ymosodiad terfysgol gan ddefnyddio deunyddiau biolegol yn annhebygol, mae gwaith i atal ymosodiad o'r fath rhag digwydd, ac i liniaru ei effaith os yw'n digwydd, yn beth cyson. Adlewyrchir rhannau pwysig o'r gwaith hwn yn Strategaeth Diogelwch Biolegol y DU, a gyhoeddir yn 2018. Mae'r strategaeth yn cael ei chyd-noddi gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Am y tro cyntaf mae'n tynnu at ei gilydd yr holl waith sy'n digwydd ar draws y Llywodraeth i ddiogelu'r DU a'i fuddiannau rhag risgiau biolegol arwyddocaol, er enghraifft achosion sylweddol o glefyd, ni waeth os yw hyn yn digwydd yn naturiol neu o ganlyniad i ryddhau deunydd biolegol peryglus yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Mae ymdrechion y DU i fynd i'r afael â bygythiadau bwriadol dramor yn cynnwys Rhaglen Ddiogelwch Fiolegol Ryngwladol, sy'n gweithio i wella bioddiogeledd a bioddiogelwch lle mae gallu cyfyngedig neu wendid posibl.

225 Yn ogystal â chyflawni gwelliannau i'n system canfod a rhwystro radiolegol a niwclear ar y ffin (Cyclamen), byddwn ni'n buddsoddi mewn systemau canfod arloesol y gellir eu defnyddio'n hyblyg mewn amrywiaeth o amgylcheddau fel rhan o ymagwedd haenog. Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy fuddsoddi mewn systemau modern, wedi'i lywio gan yr ymchwil wyddonol a thechnolegol ddiweddaraf a chydweithio rhyngwladol.

226 Byddwn ni'n parhau i wella ein galluoedd presennol i ganfod ffrwydron, megis cŵn canfod ffrwydron a thechnolegau sgrinio, er mwyn canfod gweithgarwch terfysgol yn gynharach. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio galluoedd canfod presennol mewn amrywiaeth ehangach o leoedd ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddibenion ac archwilio opsiynau ar gyfer ychwanegu galluoedd canfod newydd i'n cadre presennol. Byddwn ni hefyd yn sicrhau mwy o sicrwydd o berfformiad canfod, trwy safoni ac achredu yn fwy.

Paratoi

227 Diben ein gwaith Paratoi yw achub bywydau, lleihau niwed a chynorthwyo adfer yn gyflym pe byddai ymosodiad terfysgol yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gennym ymateb cyflym i roi terfyn ar unrhyw ymosodiad a'n bod ni'n lleihau'r effaith ar gymunedau lleol a'r rhai yr effeithir arnynt gan yr ymosodiad. Ein nod yw darparu ymatebion effeithiol, cyflym a chydlynol ar lefelau cenedlaethol, datganoledig a lleol ledled y DU.

Amcanion paratoi

228 Amcanion Paratoi yw:

- Cyflwyno ymateb amlasiantaethol gydlynol i bob math o ymosodiad terfysgol.
- Sicrhau bod gan y DU ystod lawn o alluoedd i ymateb i fygythiadau cyfredol a rhai'r dyfodol.
- Lleihau effaith ymosodiadau terfysgol ar bobl, gwasanaethau a chymunedau.

Galluoedd ac ymrwymïadau

229 Ymagwedd y DU tuag at baratoi ar gyfer argyfyngau sifil (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) yw cynyddu a chynnal galluoedd generig cymwys i'w defnyddio, fel cyfanwaith neu gyfuniad, mewn unrhyw ddigwyddiad posibl. Ar gyfer ymosodiad terfysgol, mae gennym alluoedd cenedlaethol arbenigol ychwanegol.

230 Mae gan y gwasanaethau brys arbenigwyr hyfforddedig i ymdrin â digwyddiadau terfysgol – gan gynnwys swyddogion arfog a gefnogir gan dimau tân ac ambiwlans arbenigol. Hefyd, mae ganddynt sgiliau a chyfarpar i ymdrin ag ymosodiad sydd wedi defnyddio dyfais gemegol, biolegol, radiologol neu niwclear (CBRN). Defnyddiwyd yr arbenigwyr hyn i achub bywydau yn 2017 â swyddogion arfog yn cyrraedd y safle ac yn cymryd camau cyflym mewn digwyddiadau terfysgol o fewn ychydig funudau. Yn fwy diweddar, maent wedi defnyddio eu gwybodaeth arbenigol am gemegau i ymateb i'r digwyddiadau yng Nghaersallog. Mae gan y DU drefniadau profiedig ar gyfer cymorth milwrol i'r heddlu ac ymatebwyr brys eraill. Caiff y trefniadau hynny eu hymarfer a'u hadolygu'n aml ac maent yn rhan o ganlyniad y cynllun ffurfiol wrth gefn, Operation TEMPERER, sy'n galluogi'r heddlu i alw ar gymorth milwrol ar raddfa fawr, fel y gwnaethant ddwywaith yn 2017. Roedd hyn yn caniatáu i swyddogion arfog yr heddlu gael eu rhyddhau rhag dyletswyddau diogelu statig i gefnogi ymchwiliadau. Bu'r Uned Dioddefwyr Terfysgaeth Draws-lywodraethol (VTU) yn gweithio gyda phob ardal a effeithiwyd gan ymosodiadau terfysgol yn 2017 a chyda sefydliadau cenedlaethol i sicrhau bod dioddefwyr, tystion a theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth yn derbyn cymorth gyflym, effeithiol a chydlynol.

231 Rydym yn gweithio'n agos ac ar y cyd â Fforymau Cydnerthedd Lleol (LRF), sy'n dod â'r ystod lawn o bartneriaid lleol ynghyd i gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau lleol ac argyfyngau ar raddfa fawr. Mae LRFs yn rhan annatod o'r ymateb lleol i ymosodiad terfysgol ac adfer ar ei ôl ac rydym yn aml yn profi eu cynlluniau a'u galluoedd fel rhan o'r Rhaglen Ymarfer CT Genedlaethol. Hefyd, rydym yn gweithio â swyddfeydd y meiri yn Llundain a Manceinion: trwy Fwrdd CONTEST Llundain ac fel cyfranogwyr yn Fforwm Cydnerthedd Manceinion Fwyaf.

232 Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar ein hymateb Paratoi gan fod nifer o'r gweithgareddau cyflawni allweddol wedi cael eu datganoli (megis cydlynu'r gwasanaethau brys yn yr Alban). Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig hefyd yn gyfrifol am gefnogi'r gwasanaethau datganoledig yn eu hardaloedd sy'n ymdrin â'r materion rheoli ac adfer ynghylch canlyniadau ehangach ar ôl ymosodiad.

233 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n:

- Cynnal ein buddsoddiad yng ngalluoedd y gwasanaethau brys er mwyn darparu ymateb gydlynol ac effeithiol i ymosodiadau terfysgol.
- Sicrhau bod y DU yn gydnerth ac yn barod i ymateb mewn modd cymesur ac effeithiol i ystod eang o fygythiadau CBRNE.
- Gwreiddio Cyd-egwyddorion Rhyngweithredol y Gwasanaethau Brys ar draws y gwasanaethau brys erbyn 2020, er mwyn sicrhau y gallant weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn ymateb i ymosodiad terfysgol
- Profi ac ymarfer yn rheolaidd y galluoedd amlasiantaethol sy'n ofynnol er mwyn ymateb i, ac adfer o, ystod eang o ymosodiadau terfysgol.
- Gwella trefniadau cymorth ar gyfer dioddefwyr terfysgaeth er mwyn sicrhau ymateb cynhwysfawr a chydlynol.

Amcan 1: Cyflwyno ymateb amlasiantaethol cydlynol i bob math o ymosodiad terfysgol.

234 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n gwella ein gallu i achub bywydau a lleihau niwed, trwy: gynllunio trwyadl seiliedig ar risg a gaiff ei lywio gan asesiadau risg cenedlaethol trylwyr; gwella'r ffordd y mae ymatebwyr yn cydweithio mewn argyfwng; a nodi a chywiro bylchau yn ein galluoedd ymateb.

235 Mae'r Asesiad Risg Cenedlaethol (NRA) yn darparu asesiad cynhwysfawr, bob dwy flynedd o'r risgiau mwyaf arwyddocaol a gyflwynir gan argyfyngau sifil i dir mawr y DU yn ystod y pum mlynedd nesaf.⁴⁹ Mae'n llywio cynllunio wrth gefn, blaenoriaethu a datblygu gallu ar lefel genedlaethol a lleol. Fe wnaeth yr NRA diweddaraf wella'n sylweddol faint ac eglurder y wybodaeth sydd ar gael i gynllunwyr ac ymatebwyr lleol ynghylch ymosodiadau terfysgol posibl, gan helpu i wneud y DU yn fwy saff a mwy diogel. Mae'r Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol perthnasol (NSRA) yn asesu risgiau i'r DU a'n buddiannau tramor. Fe'i defnyddir i lywio penderfyniadau strategol ynglŷn â'n blaenoriaethau amddiffyn, cydnerthedd, tramor a diogelwch. Fe wnaeth NSRA 2015 nodi terfysgaeth fel risg haen un.

236 Mae'r Rhaglen Galluoedd Cydnerthedd yn sicrhau bod y galluoedd generig allweddol sydd eu hangen i ymateb i ac adfer o argyfyngau o bob math, gan gynnwys ymosodiadau terfysgol, yn eu lle. Mae hyn yn cynnwys y gallu i wasanaethau brys ryngweithredu, y gallu i ymdrin ag anafusion lluosog, ac adferiad cyflym o wasanaethau allweddol megis pŵer a thrafnidiaeth. Er mwyn lliniaru effaith ymosodiadau terfysgol yn fwy effeithiol, mae'r rhaglen yn darparu gwell dealltwriaeth o alluoedd cenedlaethol a sut maent yn rhyngweithio, gan gyfrannu at safonau gwell ar gyfer y gymuned ymateb. Byddant yn galluogi ymateb mwy effeithiol ac amserol, ac adferiad.

49 Asesiad cyfrinachol yw'r NRA, ond mae gwybodaeth lefel uchel ar y risgiau a nodwyd ar gael i'r cyhoedd drwy'r Gofrestr Risg Cenedlaethol. <https://www.gov.uk/government/publications/national-risk-register-of-civil-emergencies-2017-edition>

Amcan 2: Sicrhau bod gan y DU ystod lawn o alluoedd i ymateb i fygythiadau cyfredol a rhai'r dyfodol.

237 Dros y tair blynedd nesaf byddwn ni'n mesur llwyddiant trwy'r modd rydym yn rhagweld ac yn cynyddu'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu'r bygythiad, gan sicrhau bod gan y gwasanaethau brys ac ymatebwyr eraill yr hyn sydd arnynt ei angen i ddarparu ymateb effeithiol.

Cyd-egwyddorion Rhyngweithredol y Gwasanaeth Brys

238 Sefydlwyd Cyd-egwyddorion Rhyngweithredol y Gwasanaethau Brys yn 2012 mer mwyn sicrhau y gall y gwasanaethau brys weithio gyda'i gilydd yn effeithiol mewn ymateb i ddigwyddiad mawr. JESIP yw'r gyd-raglen hyfforddi fwyaf a gwblhawyd erioed gan y gwasanaethau brys, ac hyfforddwyd dros 12,000 o bersonél heddlu, tân ac ambiwlans gan y rhaglen gychwynnol. Ers hynny, mae nifer o becynnau hyfforddi amlasiantaethol eraill wedi'u cyflwyno ac mae partneriaid cydnerthedd lleol yn mabwysiadu egwyddorion JESIP yn fwyfwy hefyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr ymateb i ddigwyddiadau mawr yn wirioneddol amlasiantaethol ar draws y gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol.

239 Egwyddor arweiniol JESIP yw gwelliant parhaus. Defnyddiwyd ymarferion chwarae byw i brofi a gwreiddio athrawiaeth ar y cyd, a chyflwynwyd system ddysgu genedlaethol newydd i wella'r ffordd mae gwasanaethau brys yn nodi ac yn defnyddio yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau ac ymarferion. Er bod yr ymateb amlasiantaethol i'r ymosodiadau yn Llundain a Manceinion yn 2017 wedi dangos bod JESIP wedi dod yn elfen hanfodol o'r ymateb gan wasanaethau brys i ddigwyddiad mawr, byddwn ni'n gwneud gwaith pellach i fireinio a gwella sut y caiff ei gymhwyso. Disgwylwn i JESIP gael ei wreiddio'n llawn ar draws y gwasanaethau brys erbyn 2020, gan gynnwys mabwysiadu JESIP i bob athrawiaeth a hyfforddiant a chynlluniau ymarfer lleol a phroses leol ffurfiol ar gyfer nodi a rhannu gwersi amlasiantaethol ar lefel genedlaethol.

Ymateb i ymosodiad ag arfau tanio ar raddfa fawr

240 Rydym wedi datblygu gallu cryf a arweinir gan yr heddlu i ymateb i ymosodiadau ar raddfa fawr ledled y DU. O dan y trefniadau hyn, bydd swyddogion arfog yr heddlu yn dod ag ymosodiad i ben, â chymorth timau tân ac ambiwlans arbenigol wedi'u hyfforddi i reoli anafusion mewn amgylcheddau risg uwch. Os gofynnir amdano, gall y Lluoedd Arfog adleoli galluoedd milwrol arbenigol i gynorthwyo. Mae'r gallu i ryngweithredu rhwng asedau milwrol arbenigol a thimau arfau tanio'r heddlu wedi ei ddatblygu'n dda, wedi'i brofi'n rheolaidd mewn hyfforddiant ac ymarferion ac wedi bod yn llwyddiannus ac yn effeithiol wrth ymateb i ddigwyddiadau yn 2017.

241 Yn dilyn yr ymosodiadau ym Mharis yn 2015, darparwyd £144m ychwanegol i ariannu 1,000 o swyddogion heddlu arfog ychwanegol yng Nghymru a Lloegr. Fe wnaeth rhai heddluoedd hefyd godi eu gallu arfog y tu allan i'r rhaglen hon, gan gynnwys Heddlu'r Alban. Mae'r buddsoddiad hwn eisoes wedi cynyddu nifer Cerbydau Ymateb Arfog yr Heddlu (ARV) a Swyddogion Arfau Tanio Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSFO) sydd ar gael i ymateb i ddigwyddiadau mawr iawn. Ymatebodd y swyddogion hyn i'r holl ymosodiadau yn 2017 a fe wnaethant roi terfyn ar yr ymosodiad ar Bont Llundain yn gyflym. Mae cam cyntaf y codiad wedi'i gwblhau, gyda 41 ARVs ychwanegol a thua 650 o swyddogion arfog bellach ar gael. Disgwylir i'r cam nesaf – sef cynnydd mewn CTSFOs – gael ei gwblhau tua diwedd 2018.

Ymateb i, ac adfer o, ymosodiad cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear (CBRN)

242 Mae'r Asesiad Risg Cenedlaethol yn nodi ymosodiadau terfysgol sy'n cynnwys CBRN fel un o risgiau effaith uchaf y DU. Mae'r risgiau hyn yn galw am gynllunio ychwanegol wrth gefn a galluoedd arbenigol.

243 Byddai digwyddiad CBRN mawr yn cynnwys amrywiaeth eang o asedau'r llywodraeth a phartneriaid lleol. Mae'r Fframwaith Ymateb Weithredol CBRN(e)⁵⁰ yn cynnwys y cyfeiriad strategol ar gyfer ymateb CBRN gynhwysfawr. Mae'n cael ei lywio gan ddatblygiadau mewn tystiolaeth wyddonol a thechnegol, wedi'u hategu gan egwyddorion rhyngweithredol JESIP, ac mae'n darparu ymateb hyblyg, effeithiol a chymesur.

244 Mae'r Fframwaith Ymateb Gweithredol wedi cael ei weithredu ers 2014. Byddwn ni'n ei ddiweddarau yn 2018 i gynnwys gwelliannau yn y gallu a ddarparwyd eisoes a datblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol. Mae gwyddoniaeth a thechnoleg a chydweithio rhyngwladol yn llywio gofynion y Fframwaith. Rydym yn profi ac yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r Rhaglen Ymarfer Gwrthderfysgaeth Genedlaethol a rhaglenni sicrwydd y gwasanaethau brys.

245 Mae ein hymateb yn cynnwys pedair elfen graidd. Yn gyntaf, mae'r Ymateb Gweithredol Cychwynnol (IOR) yn cynnwys ymatebwyr cyntaf o'r gwasanaethau brys a fydd yn darparu gweithgareddau achub bywyd yn ddiogel. Mae mwy na 150,000 o ymatebwyr cyntaf o'r 190,000 yn y DU wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau IOR ers 2016. Byddwn ni'n gweithio i sicrhau bod yr IOR yn dod yn rhan o raglenni datblygiad proffesiynol parhaus y gwasanaethau brys. Ym munudau cyntaf holl-bwysig ymosodiad, mae'n hanfodol bod cynifer o bobl â phosibl yn gwybod sut i gynorthwyo'r rhai hynny sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan ymosodiadau yn ddiogel er mwyn lleihau anafiadau neu farwolaethau posibl. Yr ail elfen yw mwy na 7,000 o arbenigwyr CBRN o fewn y gwasanaethau brys, wedi'u hyfforddi a'u cyfarparu i ddarparu gweithgareddau achub bywyd hanfodol gan gynnwys dadheintio a darparu sylw meddygol brys ar y safle, yn ogystal â chefnogi'r ymchwiliad troseddol o fewn amgylchedd halogedig. Byddwn ni'n sicrhau bod y niferoedd hyn yn cael eu cynnal, eu hyfforddi a'u cyfarparu i'r safonau uchaf.

246 Cefnogir yr ymateb cychwynnol ac arbenigol gan y drydedd elfen o gefnogaeth wyddonol a thechnegol gydlynol gan bedair asiantaeth lywodraethol: y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn (Dstl) ar gyfer digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol neu ffrwydrol; y Sefydliad Arfau Atomig (AWE) ar gyfer digwyddiadau niwclear; Y Swyddfa Dywydd ar gyfer sut y bydd yr hinsawdd yn effeithio ar y digwyddiad; ac, lechyd Cyhoeddus Lloegr (PHE) ar gyfer materion iechyd mwy cyffredinol. Mae cyngor gwyddonol yn sylfaenol i gynnal diogelwch ymatebwyr, dewis gweithdrefnau dadheintio, penderfynu ar driniaeth feddygol a llywio adferiad. Byddai diffyg cyngor amserol yn cael effaith ddifrifol ar ein gallu i wneud penderfyniadau. Byddwn ni'n gwella mecanweithiau presennol ymhellach trwy brofion mwy rheolaidd a'u hymarfer â'r gwasanaethau brys er mwyn eu sicrhau.

247 Y bedwaredd elfen yw'r cam adennill a gydlynir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr, ac a gefnogir gan y Gweinyddiaethau Datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru i ddychwelyd safle digwyddiad i'w ddefnyddio'n gyflym ac yn effeithlon. Byddai Gwasanaeth Dadheintio'r Llywodraeth yn gweithio gyda phartneriaid cydnerthedd lleol yn y gwaith adfer hwn i nodi a chontractio darparwyr y sector preifat a fydd yn cyflwyno'r gweithgareddau adfer. Byddwn ni'n parhau i ymarfer y gallu hwn â'r cyrff perthnasol.

50 Mae'r (e) yn dynodi ffrwydron fel modd dosbarthu'r halogydd yn hytrach nag fel arf ynddo'i hun.

248 Y risgiau effaith uchaf yn yr NRA yw ymosodiad terfysgol sy'n defnyddio cyfryngau biolegol neu ddyfais niwclear. Mae'r risgiau hyn yn galw am gynllunio wrth gefn a galluoedd sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai hynny sydd eu hangen ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o argyfwng. Mae'r tebygolrwydd y bydd terfysgwyr yn cael gafael ar gyfryngau biolegol effaith mäs effeithiol neu ddyfais niwclear weithredol yn dal i fod yn isel, ond byddai effaith ymosodiad effeithiol mor uchel ein bod yn credu bod rhaid paratoi'n drylwyr ar eu cyfer. Byddwn ni'n parhau i gryfhau galluoedd penodol sy'n ein galluogi i liniaru'r effeithiau hyn gan ganolbwyntio ar y mesurau hynny a fyddai'n debygol o gael yr effaith fwyaf. Mae'r rhain yn cynnwys canfod mewnforyon anghyfreithlon o ddeunyddiau radiolegol a niwclear (RN) yn gynnar gan Cyclamen a defnyddio galluoedd canfod a chwilio RN symudol arloesol ar y ffin ac yn fewndirol. Lle bynnag y bo modd, datblygir y galluoedd hyn i'w defnyddio y tu hwnt i RN, fel y gellir eu defnyddio ar gyfer mathau eraill o argyfyngau.

Cymorth milwrol

249 Mae gweithdrefnau sefydledig ar gyfer darparu cymorth milwrol i'r heddlu ac ymatebwyr brys eraill. Mae hyn yn cynnwys galluoedd penodol megis gwaredu bomiau. Cedwir y trefniadau hyn dan adolygiad. Mae Operation TEMPERER yn galluogi adleoli hyd at 10,000 o bersonél milwrol o fewn 12 i 96 awr, i gefnogi'r heddlu yn y DU, ac i gynorthwyo'r awdurdodau sifil. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i fod yn raddadwy er mwyn bodloni gofynion yr heddlu yn seiliedig ar y bygythiad terfysgol ar unrhyw adeg benodol. Mae elfennau cymorth wedi cael eu defnyddio dwywaith yn dilyn ymosodiadau Manceinion a Parsons Green 2017. Byddwn ni'n parhau i ymarfer y gallu hwn yn rheolaidd.

250 Mae'r Lluoedd Arfog a sefydliadau gwyddoniaeth y llywodraeth yn cynnal galluoedd arbenigol ac arbenigedd i gefnogi'r gwasanaethau brys lle bo angen os bydd digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol, niwclear neu ffrwydrol (CBRNE). Gellir defnyddio'r galluoedd hyn ledled y DU ac maent yn gallu lleoli, nodi, gwneud yn ddiogel, a gwaredu CBRN neu ddyfeisiau ffrwydrol.

Rhaglen Ymarfer Gwrthderfysgaeth Genedlaethol

251 Mae'r Rhaglen Ymarfer Gwrthderfysgaeth Genedlaethol yn profi a yw adrannau'r llywodraeth, y gwasanaethau brys, asiantaethau milwrol ac asiantaethau cyhoeddus eraill wedi paratoi'n ddigonol i ymateb i ymosodiadau terfysgol yn y wlad hon a thramor. Rydym yn cyflwyno rhaglen o ymarferion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol bob blwyddyn.

252 Wrth ddewis pa ymarferion i'w cynnal, rydym yn tynnu o'r Asesiad Risg Cenedlaethol, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd o ymosodiadau blaenorol (yn y DU a thramor) a risgiau neu wendidau sy'n dod i'r amlwg. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o fathau o ymarfer gan ganolbwyntio nid yn unig ar yr ymateb uniongyrchol i ymosodiad, ond yn fwyfwy ar yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau brys, y GIG, ac awdurdodau lleol yn y dyddiau, wythnosau a misoedd dilynol. Darperir ymarferion ar bob lefel: o arbenigol i'r lefel leol, ond hefyd maent yn cynnwys o leiaf un ymarfer chwarae byw cenedlaethol bob blwyddyn ac yn ystod hyn mae Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau llywodraethol ar y lefel uchaf, ynghyd â gweithredu pwyllgor ymateb argyfwng y Llywodraeth, COBR. Ym mis Hydref 2017, fe wnaeth yr ymarfer genedlaethol BORDER REIVER profi ein hymateb i ymosodiad terfysgol trawsffiniol ledled yr Alban a Gogledd Lloegr.

253 Byddwn ni'n datblygu'r rhaglen ymarfer i wella ymhellach ein hymateb cenedlaethol i ymosodiadau terfysgol, ac adfer ohonynt. Bydd hyn yn cynnwys mwy o ffocws ar nodi risgiau a gwendidau sy'n dod i'r amlwg a phrofi'r ymateb amlasiantaethol iddynt, er mwyn sicrhau bod gan y DU y gallu, y capasiti a'r athrawiaeth i ymateb yn effeithiol i bob math o ymosodiad.

Byddwn ni hefyd yn cynyddu ein hymarfer o strwythurau rheoli canlyniadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau brys, y GIG ac awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd ar ôl ymosodiad, ar lefel genedlaethol a lleol.

Amcan 3: Lleihau effaith ymosodiadau terfysgol ar bobl, gwasanaethau a chymunedau.

254 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n mesur llwyddiant yn ôl pa mor gyflym ac effeithiol y gall unigolion, cymunedau a busnesau adfer, gyda'r cymorth sydd arnynt ei angen, ar ôl ymosodiadau terfysgol.

Cynorthwyo'r rhai hynny mae terfysgaeth yn effeithio arnynt

255 Mae helpu dinasyddion Prydeinig y mae terfysgaeth wedi effeithio arnynt yn y wlad hon a thramor yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Fe wnaethom sefydlu'r Uned Dioddefwyr Terfysgaeth traws-lywodraethol (VTU) ym mis Mawrth 2017 i gyflymu a lledaenu cymorth i ddioddefwyr, tystion a theuluoedd sydd mewn profedigaeth. Trwy'r uned hon, mae asiantaethau'r llywodraeth a phartneriaid yn cydweithio i sicrhau bod dinasyddion Prydeinig y mae ymosodiadau terfysgol yn effeithio arnynt yn derbyn y cymorth sydd arnynt ei angen.⁵¹

256 Ar ôl pob un o ymosodiadau terfysgol 2017, bu'r VTU yn gweithio'n uniongyrchol gydag ardaloedd awdurdodau lleol, yr heddlu, sefydliadau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod pawb yr effeithiwyd arnynt gan yr ymosodiadau yn cael cymorth effeithiol, cynhwysfawr a chydlynol. Roedd hyn yn cynnwys: rhannu ymagweddau arfer gorau a gofyn i wledydd eraill am eu cyngor ynghylch digwyddiadau tebyg; sefydlu tudalennau gwe cynhwysfawr sy'n cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth; sicrhau nad oedd taliadau o gronfeydd elusennol yn effeithio ar daliadau budd-daliadau na chymorth y Dreth Gyngor; gweithio gyda sefydliadau allweddol o'r trydydd sector i ddarparu gwasanaeth ar y cyd i'r rhai hynny yr effeithir arnynt; a hwyluso arferion effeithiol ar gyfer rhannu data. Roedd pob ymosodiad yn effeithio ar ddioddefwyr a'u cymunedau mewn gwahanol ffyrdd, ac rydym wedi gweithio i nodi a datrys bylchau yn y pecyn cymorth cyffredinol yn gyflym bob tro.

257 Mae'r VTU wedi parhau i yrru a chyflwyno gwelliannau systemig ar draws y llywodraeth a gwasanaethau cymorth ar gyfer dioddefwyr yr ymosodiadau terfysgol hyn, ac unrhyw rai yn y dyfodol. Mae meysydd lle mae angen i ni wella, gan ddysgu o 2017. Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid cymdeithas sifil i gytuno ar fframwaith ar gyfer sut maent yn gweithio gyda'i gilydd ar ôl ymosodiad terfysgol, er mwyn sicrhau bod cymorth i ddioddefwyr yn cael ei gydlyn. Byddwn ni'n sicrhau bod data'n cael ei rannu'n fwy effeithiol rhwng ymatebwyr cyntaf, y GIG ac awdurdodau lleol ar ôl ymosodiad (yn ogystal â busnesau a'r sector gwirfoddol os oes angen). Byddwn ni'n helpu awdurdodau lleol i gynyddu eu cynllunio a'u parodrwydd am ymosodiad terfysgol, er mwyn sicrhau bod y rhai hynny yr effeithir arnynt yn derbyn y cymorth sydd arnynt ei angen cyn gynted ag y bo modd.

Ymgysylltu â'r cyhoedd a diwydiant ar wrthsefyll terfysgaeth

258 Mae'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn chwarae rhan hollbwysig wrth amharu ar weithgareddau terfysgol, trwy fod yn wylidwrs ac adrodd am ymddygiad amheus ac eitemau heb eu goruchwyllo wrth yr awdurdodau. Dylai'r cyhoedd fod yn effro, ond heb ddychryn.

51 Mae'r wefan Uned Dioddefwyr Terfysgaeth yn darparu gwybodaeth am amrywiaeth o gymorth sydd ar gael, gan gynnwys llinellau cymorth, cymorth ieuchyd meddwl y GIG, cymorth i blant, rhieni neu athrawon, iawndal a chronfeydd elusennol: <https://victimsofterrorism.campaign.gov.uk>

259 Mae ymgyrch yr heddlu "Run, Hide, Tell" yn rhoi cyngor ymarferol i'r cyhoedd ar yr hyn i'w wneud pe byddai ymosodiad terfysgol yn digwydd.⁵² Mae meysydd penodol yr ymgyrch wedi targedu gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys pobl ifanc a phobl o'r DU sy'n mynd ar eu gwyliau dramor. Ers iddo gael ei lansio'n gyhoeddus ym mis Rhagfyr 2015, mae'r ymgyrch wedi cyrraedd o leiaf 25 miliwn o bobl, ac mae'r ymchwil ddiweddaraf yn dangos bod 26% o'r cyhoedd yn dangos ymwybyddiaeth ddigymell o'r cyngor "Run, Hide, Tell", gan awgrymu lefelau uchel o ymwybyddiaeth o'r hyn i'w wneud os oes ymosodiad. Yn ystod ymosodiad, bydd yr awdurdodau yn darparu cymaint o wybodaeth a chynghor â phosib. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried datblygu cyfathrebu mwy a gwell i berchnogion mannau gorlawn, gweithredwyr ac awdurdodau cyfrifol, sut y gallwn ni ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn yn well er mwyn sicrhau canlyniadau diogelwch effeithiol, yn benodol galluoedd hunangymorth cyflym i achub bywydau i ategu'r gwasanaethau brys.

260 Mae cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer y sector preifat ar gael ar-lein, gan gynnwys sut i ymdrin â bygythiadau bom.⁵³ Mae'n hollbwysig ei fod yn parhau i ddatblygu a phrofi cynlluniau wrth gefn, cynlluniau parhad busnes a chynlluniau cyfathrebu i sicrhau eu bod yn gallu ymateb i unrhyw ddigwyddiad mawr a allai effeithio ar eu busnes, eu staff neu eu cwsmeriaid. Dylai'r cynlluniau hyn ystyried sut y gall staff diogelwch preifat arwain y cyhoedd i ddiogelwch yn ystod ymosodiad. Mae'n werthfawr iawn i fusnesau lleol gydlyn eu cynlluniau mewn cymdogaeth, a hefyd creu cysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus lleol i ddeall eu blaenoriaethau a'u gweithdrefnau gweithredol, a'r ffordd orau o ryngweithio â hwy.

52 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/stay-safe-film>

53 Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/publications/bomb-threats-guidance>

Tramor

261 Nid yw terfysgwyr yn cydnabod unrhyw ffiniau. Maent yn hyrwyddo a chynllunio ymosodiadau y tu hwnt i ffiniau gwledydd maent wedi'u lleoli ynddynt, gan gael eu galluogi'n fwyfwy gan rwyddineb symud a chyfathrebu. Mae'r hyn a wnânt dramor yn amlygu yn y DU. Mae ein hymagwedd dramor at wrthsefyll terfysgaeth yn fyd-eang ond wedi'i hintegreiddio'n gyfan gwbl â'n hymagwedd ddomestig. Mae'n golygu gweithio gydag amrywiaeth gynyddol eang o bartneriaid, yn arbennig wrth i Daesh wasgaru o dan bwysau milwrol o'i gadarnleoedd yn Syria ac Irac.

262 **Eindiben** dramor yw lleihau'r risg yn ôl i'r DU, ac i fuddiannau Prydain dramor, tra'n sicrhau ein bod yn gweithio gyda phartneriaid mewn modd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol.

263 Dros y tair blynedd nesaf, rydym yn bwriadu blaenoriaethu ein hymdrechion mewn meysydd sydd â'r risg uchaf i bobl a buddiannau Prydain, tra'n cynnal ein gallu i gyrraedd a tharfu ar y rhai hynny a hoffai niweidio'r DU a'n buddiannau yn uniongyrchol. O ystyried natur gynyddol wasgaredig y bygythiad, byddwn ni'n canolbwyntio ar gynyddu galluogrwydd wedi'u dargedu'n dda i helpu partneriaid i fynd i'r afael â bygythiadau a rennir ac i gynyddu eu cydnerthedd. Byddwn ni'n sicrhau bod dinasyddion y DU yn ymwybodol o risgiau dramor ac yn gwybod sut i ymateb os ydynt yn profi digwyddiad. Byddwn ni'n ymateb yn gyflym i gynorthwyo dioddefwyr y DU. Rydym hefyd wedi rhoi pwyslais arbennig ar godi safonau diogelwch hedfanaeth fyd-eang a mynd i'r afael â defnydd terfysgol o'r rhyngwrld gan fod y risgiau byd-eang hyn yn effeithio ar ein diogelwch yn feunyddiol ac yn uniongyrchol. O ystyried y cynnydd parhaus mewn eithafiaeth dreisgar yn fyd-eang, byddwn ni'n buddsoddi yn ein gallu i ragweld y tonnau nesaf o fygythiad terfysgol, i'n galluogi i addasu ein hymagwedd mewn pryd i'w ddiwallu.

Blaenoriaethau tramor

264 Ein blaenoriaethau **tramor** yw:

- Taflu goleuni ac amharu ar ymosodiadau arfaethedig wedi'u cyfeirio at y DU a'n pobl neu ein buddiannau dramor.
- Lleihau gallu terfysgol.
- Gwanhau yr hyn sy'n ysgogi terfysgaeth.
- Amddiffyn yn erbyn effaith ymosodiadau a'i lliniaru.

Galluoedd ac ymrwymïadau

265 Yn dilyn SDSR 2015, rydym wedi cynyddu ein cyrhaeddiad byd-eang trwy fuddsoddi yng ngalluoedd ein heddlu gwrthderfysgaeth, yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth, a'n Lluedd Arbennig. Dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant, rydym yn buddsoddi £1.4 biliwn ychwanegol yn yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth a £2 biliwn yn Lluedd Arbennig y DU. Mae ein rhwydwaith diplomyddol byd-eang yn gweithio gydag amrywiaeth eang o wledydd i ymdrin â bygythiadau a rennir, gan gynnwys trwy gytundebau'r Cenhedloedd Unedig ar wrthsefyll terfysgaeth sy'n darparu mandad byd-eang clir ar gyfer gweithredu. Ers 2015, mae Rhwydwaith Gwrthsefyll Terfysgaeth ac Eithafiaeth a arweinir gan yr FCO wedi'i ehangu, gan ddyblu i ryw 200 nifer y swyddogion sy'n gweithio gyda gwledydd blaenoriaethol yn Ewrop, y Dwyrain Canol, Affrica ac Asia. Yn ogystal, mae Plismona Gwrthderfysgaeth bellach yn gweithredu mewn dros 90 o wledydd.

266 Mae'r Lluoedd Arfog wedi chwarae rhan flaenllaw yn y Gynghrair Fyd-eang yn erbyn Daesh sydd wedi erydu ei ddiriogaeth, ei fynediad at adnoddau ac wedi cyfyngu ar ei allu i drefnu a chyfarwyddo ymosodiadau allanol o Syria ac Irac. Trwy weithgarwch amddiffyn tramor, maent hefyd yn gwella ein dealltwriaeth a'n dylanwad, ac yn cynyddu gallu gwrthderfysgaeth milwrol i fynd i'r afael â heriau allweddol.

267 Bydd Cronfa y Rhaglen Gwrthderfysgaeth, sy'n cefnogi cynyddu gallu mewn gwledydd lle mae'r risg i'r DU a'i fuddiannau tramor yn uchel, yn cynyddu i £31.5m yn 2019/20. Y meysydd allweddol ar gyfer buddsoddi yw ymchwiliadau ac erlyniadau gwrthderfysgaeth, diogelwch amddiffynnol o amgylch safleoedd allweddol, ac ymateb cyflym ac effeithiol i ddigwyddiad terfysgol. Rydym wedi mwya na dyblu ein gwariant ar ddiogelwch hedfanaeth ledled y byd, gyda mwya o arbenigwyr Prydeinig yn gallu gweithredu dramor, gan weithio ochr yn ochr â chenhedloedd lletyol yn y lleoliadau mwyaaf diamddiffyn.

268 Mae busnesau Prydain yn masnachu'n fyd-eang. Ochr yn ochr â'n dyletswydd i amddiffyn dinasyddion Prydeinig yw penderfyniad cryf i amddiffyn busnesau'r DU a'u hasedau. Mae ein buddsoddiad yn yr heddlu ac asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth wedi ein galluogi i weithio ochr yn ochr â gwledydd lletyol i gyflwyno CONTEST dramor. Byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn y rhwydweithiau hyn.

269 Bellach, rydym yn cyfuno arbenigedd o bob rhan o'r llywodraeth yn y Cyd-Uned Gwrthderfysgaeth Rhyngwladol (JICTU), uned y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a lansiwyd ym mis Ebrill 2016, sy'n darparu cyfeiriad strategol i'n gwaith dramor.

270 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n:

- Ehangu ein gallu i amlygu bygythiadau, grwpiau a methodolegau, a thargedu ein hymateb lle mae bygythiad uniongyrchol i'r DU a'i fuddiannau.
- Arwain ar ymdrechion rhyngwladol i leihau risgiau byd-eang trwy gyfres o ymgyrchoedd dan arweiniad Gweinidogion ar feysydd yn cynnwys diogelwch hedfanaeth ac atal defnydd terfysgol o'r rhyngwyd.
- Creu cadre hyblyg newydd o arbenigwyr y Deyrnas Unedig y gellir ei ddefnyddio pryd a lle bo'u hangen i ddarparu arbenigedd cyflym ychwanegol dramor.
- Gwrthsefyll naratifau gwrthderfysgaeth trwy gryfhau ymhellach ein gwaith cyfathrebu strategol ein hunain a gwaith partneriaid allweddol.
- Creu partneriaeth ddofn a chydweithredol ar wrthderfysgaeth â'n partneriaid Ewropeaidd i hyrwyddo diogelwch yn y DU a ledled Ewrop wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd.
- Parhau i wella systemau Llywodraeth y DU ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau terfysgol dramor.
- Cynyddu ein gallu i gyflenwi diraddio dechrau-i-ddiwedd o grwpiau a rhwydweithiau terfysgol dramor.

Ymgyrchoedd byd-eang

271 Mae meysydd sy'n achosi pryder penodol lle mae'r ateb yn unedig ac mae angen gweithredu ar raddfa fawr ar draws y gymuned ryngwladol i godi safonau diogelu. Rydym mewn sefyllfa dda i yrru gwaith o'r fath oherwydd ein rhwydwaith eang o bartneriaethau a chynghreiriau'n fyd-eang – â gwladwriaethau unigol ac yn amlochrog – yn ogystal â'n harbenigedd cydnabyddedig. Byddwn ni'n cynnal ymgyrchoedd dan arweiniad Gweinidogion, ar ddiogelwch hedfanaeth ac atal defnydd terfysgol o'r rhyngwyd i ddechrau.

Diogelwch hedfanaeth

272 Mae'r DU yn parhau i fod ar flaen y gad wrth arwain ymdrechion yn rhyngwladol i godi safonau hedfanaeth fyd-eang. Ym mis Medi 2016, roedd y DU yn allweddol wrth sicrhau Penderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig 2309 i yrru safon fyd-eang gyffredin ar gyfer diogelwch hedfanaeth. Mae hwn yn gam calonogol ymlaen, ond rydym yn cydnabod bod y ffaith bod y bygythiad byd-eang yn arallgyfeirio'n barhaus yn ei wneud yn ofynnol i ni ddefnyddio ein sefyllfa o arweinyddiaeth i gynyddu momentwm pellach.

273 Rydym eisoes wedi gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Hedfanaeth Sifil Rhyngwladol (ICAO) i'w gynorthwyo i ddatblygu cynllun gweithredu byd-eang i wella cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau diogelwch hedfanaeth rhyngwladol. Rydym wedi lloio partneriaid rhyngwladol yn galed i roi eu cefnogaeth i'r cynllun hwn.

274 Bellach, rydym yn gweithio i adeiladu ar y llwyddiant cynnar hwn. Dros y tair blynedd nesaf, byddwn ni'n datblygu ymgyrch fyd-eang a arweinir ar y cyd gan yr Ysgrifennyddion Cartref, Tramor a Thrafnidiaeth. Byddwn ni'n gweithio gydag ICAO, diwydiant a phartneriaid dwyochrog i gyflwyno newid cynaliadwy tymor hir a gwelliannau tymor byr mwy uniongyrchol mewn diogelwch hedfanaeth. Mae rhagor o fanylion ar ymagwedd y DU at ddiogelwch hedfanaeth i'w gweld yn yr adran Amddiffyn.

Atal defnydd terfysgwyr o'r rhyngwrld

275 Mae gwaith yr Uned Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfathrebu (RICU) a leolir yn y Swyddfa Gartref, a'r Clymblaid Byd-eang Yn erbyn Cell Gyfathrebu Daesh, a leolir yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, wedi gosod y DU ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn propaganda terfysgol, gan gynnwys deunydd terfysgol ar-lein yn benodol. Gan weithio gyda phartneriaid rhyngwladol, rydym yn parhau i wthio'r diwydiant i gymryd ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at gynnwys terfysgol ar eu platfformau.

276 Ers hynny, rydym wedi defnyddio llwyfannau byd-eang i ddal diwydiant i gyfrif ar gyflwyno ein huchelgeisiau. Yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi 2017, cynhaliodd y Prif Weinidog ddigwyddiad, ynghyd ag Arlywydd Macron o Ffrainc, Prif Weinidog Gentiloni o'r Eidal a chynrychiolwyr y Fforwm Rhyngwrld Byd-eang i Gwrthderfysgaeth (GIFCT)⁵⁴, lle'r oedd hi'n galw ar ddiwydiant i fynd ymhellach ac yn gyflymach wrth awtomeiddio canfod a thynnu cynnwys terfysgol ar-lein. Yn y digwyddiad hwnnw, fe wnaeth diwydiant ymrwymo i ystod o fesurau i fynd i'r afael â defnydd terfysgol o lwyfannau agored. Trafododd cyfarfod dilynol Gweinidogion Mewnol y G7 â diwydiant y manylion o'r hyn y byddai'r GIFCT yn ceisio ei gyflawni, gan gyflwyno disgwyliadau ar y cyd y G7.

277 Rydym wedi adeiladu ar lwyddiant UNGA gydag ymgyrch fyd-eang, dan arweiniad yr hen Ysgrifennydd Cartref, i annog Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu i fuddsoddi mewn technolegau i nodi a thynnu cynnwys yn awtomatig. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n amlochrog ac yn ddwyochrog gyda phartneriaid rhyngwladol, er enghraifft yr Unol Daleithiau. Ym mis Chwefror 2018, ymwelodd yr Ysgrifennydd Cartref gynt ag Arfordir Gorllewinol yr Unol Daleithiau gydag Ysgrifennydd Nlandsen o Homeland Security i gynnal cyfarfodydd ag uwch gynrychiolwyr o Facebook, Microsoft, Twitter a Google a thrafod y cynnydd a wneir gan y GIFCT, a'r camau maent yn eu cymryd i ddiogelu eu platfformau a'u defnyddwyr rhag terfysgwyr.

54 Roedd y DU, drwy'r Ysgrifennydd Cartref, yn allweddol wrth sefydlu'r GIFCT. Gweler y blwch ar atal defnydd terfysgol o'r rhyngwrld yn yr adran Atal.

278 Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio fforymau dwyochrog ac amlochrog i gynyddu cefnogaeth a chynnal momentwm rhwng cenhedloedd o'r un meddwl, gan ganolbwyntio ar adeiladu consensws byd-eang i wthio diwydiant i wneud mwy. Byddwn ni'n parhau i gynyddu cymorth byd-eang ehangach y tu ôl i'r gwaith gyda GIFCT trwy Five Eyes (y DU, yr Unol Daleithiau, Awstralia, Canada a Seland Newydd), cyfarfodydd Gweinidogol, Fforwm Rhynggrwyd yr UE a Chynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Byddwn hefyd yn cytuno ar fwy o gydweithrediad â phartneriaid o'r Gymanwlad o'r un meddwl er mwyn cytuno ar normau rhyngwladol ac isafswm safonau ar atal defnydd terfysgol o'r rhynggrwyd.

279 Blaenoriaeth 1: Taflu goleuni ac amharu ar ymosodiadau arfaethedig Mae cyfran fawr o gynllwyniau terfysgol sydd wedi targedu'r DU yn ystod blynyddoedd diweddar wedi cael cyswllt rhyngwladol neu wedi dechrau dramor. Mae angen dilyn ymchwiliadau gwrthderfysgaeth lle bynnag maent yn arwain. Mae amharu ar ac erlyn terfysgwyr yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithredu rhyngwladol effeithiol sydd wedi'i ategu gan reolaeth y gyfraith a hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth â'n chynghreiriaid a chyfnewid arferion gorau ymchwiliol i wrthsefyll y bygythiad. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu amharu'n effeithiol ar gynlluniau ymosod yn erbyn y DU a buddiannau'r DU – gan weithio mewn cydweithrediad agos â chynghreiriaid rhyngwladol.

280 Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein cyrhaeddiad byd-eang a'n mewnwleddiad trwy weithio o fewn y berthynas Five Eyes â'r UDA, Awstralia, Canada a Seland Newydd, lle mae ein gallu i ddatblygu a defnyddio galluoedd a rennir a rhannu baich yn ehangu ac yn graddio ein gallu i weithredu ar y cyd. Rydym hefyd wedi adeiladu perthynas gryfach o ran diogelwch a chudd-wybodaeth â chynghreiriaid Ewropeaidd i ymateb i'r bygythiad cynyddol a rennir rydym wedi'i wynebu. Mae'r gweithgarwch hwn, ar gyflymder a graddfa gydweithredu ddigryffelyb, yn amharu ar gynllunio ymosodiadau o fewn Ewrop a'r DU. Byddwn ni'n parhau i ehangu a chryfhau'r cydweithio hwn wrth i ni negodi ymadawiad y DU o'r UE ac wedi hynny.

281 Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid tramor i ddatblygu systemau cyfiawnder troseddol er mwyn i ni allu ymdrin yn well â therfysgaeth yn effeithiol ac yn unol â safonau hawliau dynol. Fel y'i nodwyd gan yr Ysgrifennydd Tramor William Hague ar y pryd yn 2013, mae'r Partneriaethau Cyfiawnder a Hawliau Dynol wedi cefnogi datblygu cyfiawnder troseddol sy'n cydymffurfio â hawliau dynol mewn gwledydd sy'n hanfodol i'n hymdrechion gwrthderfysgaeth, gan alluogi erlyniadau terfysgol mwy effeithiol ac, yn y broses, yn hwyluso datblygu perthnasoedd gweithredol rhwng y DU a gwledydd lletyol.

282 Mae'r Cyfarwyddyd Cyfunol, a gyhoeddwyd gyntaf gan y llywodraeth ym mis Gorffennaf 2010, yn nodi sut y dylai ein gwasanaethau cudd-wybodaeth ymdrin â chyfweld â charcharorion a ddelir gan wledydd eraill dramor a throsglwyddo a derbyn cudd-wybodaeth sy'n ymwneud â charcharorion. Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio annibynnol yn goruchwyllo ac yn adolygu sut y'i gweithredir ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol.⁵⁵ Mae'r Llywodraeth yn sefyll yn gadarn yn erbyn artaith a thriniaeth neu gosb creulon, annynol a diraddiol. Nid ydym yn eu cymeradwyo, nac yn gofyn i eraill eu gwneud ar ein rhan.

283 Rydym yn glir, lle rydym yn nodi bygythiad uniongyrchol i'r DU, a allai gynnwys bygythiad terfysgol, y byddwn ni'n cymryd camau cyfreithiol i fynd i'r afael ag ef. Dim ond fel dewis olaf y byddai grym marwol yn cael ei ddefnyddio pan fydd yr holl opsiynau eraill wedi'u hysbyddu, a byddem bob amser yn gwneud hynny yn unol â chyfraith rhyngwladol ac yn adrodd amdano wrth y Senedd ar ôl i ni wneud hynny.

Blaenoriaeth 2: Lleihau bwriad a gallu terfysgol

284 Defnyddiodd Daesh ei reolaeth ar diriogaeth yn Syria ac Irac i hyfforddi gweithredwyr, cynllunio a chynnal ymosodiadau, atafaelu adnoddau, lansio ymgyrchoedd propaganda a manteisio ar boblogaethau lleol a'u cam-drin. Rhan allweddol o'n hymagwedd gyffredinol yw diraddio a gwanhau'n rhagweithiol strwythurau a galluogwyr terfysgol allweddol o'r fath sy'n helpu i yrru'r bygythiad uniongyrchol i ni. Er mwyn amddiffyn dinasyddion y DU gartref a thramor, rydym yn parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn Cynghrair Byd-eang o 75 o aelodau i drechu Daesh yn Syria ac Irac.

285 Rydym yn gwrthsefyll ei naratif ideolegol, gan amharu ar ei ffynonellau o refeniw, a defnyddio ein galluoedd milwrol i fynd i'r afael â'r bygythiad gan Daesh, gan weithio i gefnogi Llywodraeth Irac a lluoedd partner yn Syria. Mae Cell Gyfathrebiadau'r Glymblaid Byd-eang i Wrthsefyll Daesh yn fenter a arweinir gan y DU sy'n darparu effeithiau cyfathrebu strategol yn erbyn Daesh, ac yn datblygu gallu partneriaid yn y maes hwn. Mae cymorth i bartneriaethau allanol wedi ehangu cyrhaeddiad ac effaith ymdrechion y gymuned ryngwladol i wrthsefyll propaganda Daesh. Mae ein hymdrechion ar y cyd yn dangos bod Daesh wedi methu â sefydlu gwladwriaeth, trechu ar faes y gad neu gynrychioli Moslimiaid Swnniaidd.

286 Mae'r DU wedi adleoli tua 1,400 o bersonél milwrol i'r rhanbarth i gefnogi gweithrediadau gwrth-Daesh. Mae bron i 600 o'r rhain yn cael eu hadleoli i Irac, lle maent wedi hyfforddi mwy na 72,000 o aelodau o Lluoedd Diogelwch Irac. Rydym wedi lansio dros 1,680 o streiciau awyr, yn ail yn unig i'r Unol Daleithiau, ac rydym yn darparu cudd-wybodaeth, gwyliadwriaeth a chymorth rhagchwilio i'n partneriaid yn y Glymblaid. Mae gweithredu milwrol y glymblaid wedi tanseilio cyllid Daesh. Mae streiciau awyr y glymblaid wedi dinistrio mwy na 3,500 o dargedau'r gelyn a mwy na 25 o safleoedd storio arian.

287 Mae gweithrediadau'r glymblaid i gefnogi lluoedd lleol ar lawr gwlad wedi cyfrannu at ryddhau mwy na 98% o'r diriogaeth yr oedd Daesh wedi ei meddiannu unwaith ledled Irac a Syria. Felly, rydym yn gweithio i sicrhau bod Daesh yn cael ei drechu'n barhaol trwy weithio gydag awdurdodau lleol cyfreithlon i sicrhau dyfodol sefydlog, ffyniannus ac unedig ar gyfer cymunedau yr effeithir arnynt yn Syria ac Irac.

Brwydro yn erbyn Daesh ar-lein

Mae Daesh wedi defnyddio cyfathrebu strategol, cyfryngau cymdeithasol ac apiau negeseua yn fwy effeithiol nag unrhyw grŵp terfysgol blaenorol er mwyn lledaenu eu naratifau terfysgol a radicaleiddio. Er mwyn ymladd yn erbyn hyn, mae GCHQ wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gynnal ymgyrch seiber fawr yn erbyn Daesh. Mae'r gweithrediadau hyn wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i ymdrechion clymblaid i atal propaganda Daesh, gan atal ei allu i gydlynu ymosodiadau ac amddiffyn lluoedd y Glymblaid ar faes y gad.

288 Yn unol â'r rheidrwydd dyngarol, rydym wedi ymrwymo £2.46 biliwn ers dechrau'r gwrthdaro yn Syria, ein hymateb mwyaf erioed i argyfwng dyngarol unigol. Rydym yn flaenllaw yn yr ymateb dyngarol rhyngwladol ac yn parhau i fynnu ar fynediad dyngarol llawn a pharhaus er mwyn darparu'r cymorth mawr ei angen i'r rhai hynny sydd mewn angen. Hyd yn hyn, mae'r DU wedi ymrwymo £ 237.5 miliwn mewn cymorth dyngarol i Irac. Rydym wedi helpu i ddarparu bwyd i chwarter miliwn o bobl, lloches i 325,000 o bobl, ac rydym wedi dod â chyfleusterau dŵr a hylendid hanfodol i bron i filiwn o bobl.

289 Nid yw ymdrechion i fynd i'r afael â grwpiau eraill ar raddfa mor fawr â'r ymgyrch yn erbyn Daesh yn Syria ac Irac, ond maent yn bwysig i gyfyngu ar ddylanwad a galluoedd Daesh, Al Qa'ida a'u cysylltwyr. Er enghraifft, mae al-Shabaab, sy'n gysylltwr Al Qa'ida, yn cyflwyno'r bygythiad terfysgol mwyaf i Somalia a rhanbarth Corn Affrica. Rydym yn cefnogi ac yn datblygu galluoedd lluoedd diogelwch Somaliaidd yn uniongyrchol a thrwy'r Genhadaeth Undeb Affricanaidd i Somalia (AMISOM). Mae'r DU hefyd yn gweithio'n agos gyda Somalia mewn amrywiaeth o brosiectau gwrthderfysgaeth a rhai sy'n gysylltiedig â gwrthderfysgaeth.

290 Mae gallu cynyddol partneriaid yn lleihau gallu'r terfysgwyr i weithredu neu i gael effaith. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu capasiti a gallu gwrthderfysgaeth mewn gwledydd allweddol lle mae'r risg i bobl a buddiannau Prydain yn uchaf – yn arbennig ar draws y Dwyrain Canol, Asia ac Affrica. Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio Cronfa y Rhaglen Gwrthderfysgaeth, a fydd yn cynyddu i £31.5m yn 2019/20, i ddylunio a gweithredu rhaglenni â gwledydd partner i fynd i'r afael â'u hanghenion a lleihau risgiau a rennir, boed hynny trwy gryfhau diogelwch o amgylch hedfanaeth neu gyrchfannau gwyliau, gwella eu hymateb i ymosodiadau terfysgol, gwrthsefyll radicaleiddio neu datblygu eu gallu i ganfod, amharu ar ac erlyn terfysgwyr mewn modd proffesiynol sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Rydym yn gweithio ar draws y gymuned ryngwladol i gydlyn cefnogaeth ac atal dyblygu, gan gynnwys â sefydliadau amlochrog allweddol megis y Cenhedloedd Unedig, yr UE, G7, Y Fforwm Gwrthderfysgaeth Fyd-eang a'r Gynghrair i Wrthsefyll Daesh. Enghraifft dda o'r fath gydlynad fu'r gwaith yn Nhiwnisia ers ymosodiadau Sousse 2015 (gweler y blwch Astudiaeth Achos).

Astudiaeth Achos: Tiwnisia

Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol yn Bardo a Sousse yn 2015, roedd y DU yn allweddol wrth sefydlu'r "broes G7+" i sicrhau cydlynad rhwng rhoddwyr gwrthderfysgaeth a helpu Tunisia i symleiddio cynigion cymorth rhyngwladol. Trwy'r broes G7+ , mae'r DU wedi cadeirio'r gweithgor i gefnogi'r Tiwnisiaid i gynyddu diogelwch ac amddiffyn ardaloedd twristaidd ac wedi cyd-gadeirio'r gweithgor ar wella diogelwch hedfanaeth. Mae cymorth y DU wedi bod yn eang, gan gynnwys: gweithio gyda llywodraeth Tiwnisia wrth ddatblygu eu hymagwedd tuag at wrthsefyll recriwtio a radicaleiddio terfysgol; gwella diogelwch amddiffynnol safleoedd twristaidd; cynyddu gallu Tiwnisiaid i atal ac ymateb i ddigwyddiadau terfysgol; gwella diogelwch ym meysydd awyr a phorthladdoedd rhyngwladol Tiwnisia; cynyddu diogelwch ffin Tunisia â Libia a chynyddu gallu Tiwnisia i gasglu tystiolaeth ac erlyn y rhai hynny yr amheuir eu bod yn derfysgwyr. Mae gwelliannau yng ngalluoedd gwrthderfysgaeth Tiwnisia wedi lleihau'r risgiau i wladolion Prydeinig o derfysgaeth gan ganiatáu i'r cyngor teithio FCO ar gyfer Tunisia, a ddiwygiwyd ym mis Gorffennaf 2017, beidio â chynghori yn erbyn teithio i'r rhan fwyaf o'r wlad mwyach.

Blaenoriaeth 3: Gwanhau gyrrwyr terfysgaeth

291 Byddwn ni'n gweithio gyda llywodraethau, y gymdeithas sifil a'r gymuned ryngwladol i wanhau gyrrwyr gwleidyddol, sectoraidd, ideolegol ac economaidd terfysgaeth, gan helpu i leihau'r amgylcheddau caniatol mae rhwydweithiau terfysgol yn eu camddefnyddio. Gwaith hirdymor yw hwn i ddarparu atebion cynaliadwy hirdymor i leihau lefelau terfysgaeth.

292 Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn defnyddio ei chyrhaeddiad byd-eang i feithrin cynghreiriau, cryfhau'r drefn sy'n seiliedig ar reolau, a hyrwyddo ein gwerthoedd a'n buddiannau, gan gynnwys trwy waith helaeth ar hawliau dynol a llywodraethu da. Mae ein gwaith ynghylch atal gwrthdaro, sefydlogrwydd, a datblygu rhyngwladol yn ategu ein

strategaeth gwrthderfysgaeth. Trwy'r Gronfa Gwrthdaro, Sefydlogrwydd a Diogelwch, mae'r DU yn gwario mwy na £1 biliwn y flwyddyn i hyrwyddo heddwch a sefydlogrwydd. Mae'r Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID) wedi ymrwymo i wario o leiaf 50% o'i chyllideb mewn gwladwriaethau a rhanbarthau bregus i helpu i fynd i'r afael â ffactorau sylfaenol sy'n gyrru ansefydlogrwydd. Yn 2016-17, gwariodd DFID bron i £1.6bn ar raglenni cymorth dwyochrog mewn gwledydd o flaenoriaeth gan gynnwys Affganistan, Irac, Cenia, Nigeria, Pacistan, Somalia, Syria a Yemen. Yn ogystal, mae wedi gwneud ymrwymiad hirdymor i adeiladu partneriaethau datblygu dyfnach a mwy parhaol â gwledydd eraill yn y Dwyrain Canol, gan gynnwys Iorddonen a Libanus.

293 Mae'r DU yn cefnogi Cynllun Gweithredu'r Cenhedloedd Unedig i Atal Eithafiaeth Dreisgar (PVE), sy'n fframwaith cynhwysfawr i sefydlu ymagwedd 'llywodraeth gyfan' 'gymdeithas gyfan'.⁵⁶ Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys llywodraethau, Rhaglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig, y Gymanwlad, y Fforwm Gwrthderfysgaeth Bydeang a Chanolfan Hedayah sydd, trwy gymorth UK-UAE, wedi lansio Tasglu i gefnogi datblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol i atal a gwrthsefyll eithafiaeth dreisgar.

294 O fewn y fframwaith hwn, rydym wedi gwneud ymyriadau wedi'u targedu mewn cydlyniad â llywodraethau lletyol ledled y Dwyrain Canol, Gogledd Affrica ac Affrica Is-Sahara, De Asia ac Ewrop. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio'r carchardai i leihau'r risg o radicaleiddio mewn poblogaethau carcharorion; rhaglenni plismona cymunedol mewn cymunedau risg uchel a rhaglenni addysgol i gynyddu gwydnwch mewn poblogaethau ifanc sy'n hyglwyf, sefydliadau, cymdeithas sifil a'r cyfryngau i gyflawni canlyniadau ataliol hirdymor.

Blaenoriaeth 4: Amddiffyn yn erbyn effaith ymosodiadau a'i lliniaru.

295 Er gwaethaf ein hymdrechion gorau o ran gwanhau gyrwyr terfysgaeth, lleihau gallu terfysgwyr ac amharu ar ymosodiadau cynlluniedig, bydd ymosodiadau terfysgol yn parhau dramor y bydd gwladolion Prydeinig yn gysylltiedig â hwy. O gofio hyn, mae angen i ni weithio gyda phartneriaid tramor i'w cefnogi wrth gryfhau diogelwch amddiffynnol o amgylch gwladolion y DU a gwella ymateb i ymosodiad yn ystod digwyddiad. Bydd llwyddiant dros y tair blynedd nesaf yn golygu, mewn lleoliadau allweddol lluosog dramor, y bydd diogelwch cryfach o gwmpas gwladolion Prydeinig ac ymateb gwell i ymosodiad gan yr awdurdodau lleol a fydd yn achub bywydau. Ar yr un pryd, byddwn ni'n parhau i ddefnyddio ein cyngor teithio o'r radd flaenaf a'n hymateb i argyfwng yn y DU i hysbysu gwladolion Prydeinig a'u cefnogi yn ystod digwyddiadau terfysgol.

296 Yn dilyn yr ymosodiad yn 2015 yn Sousse, ehangwyd ein gwaith dramor yn sylweddol gennym er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o alluoedd amddiffynnol gwledydd blaenoriaeth a gweithio gyda hwy i helpu i'w gwella lle bo angen. Mae'r rhain yn rhaglenni hirdymor ond rydym eisoes yn gweld effaith gadarnhaol, megis yn Nhiwnisia. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yn Ewrop, yr Unol Daleithiau ac yn rhanbarthol i rannu'r baich ac ehangu ein cyrhaeddiad. Byddwn ni'n ehangu lled a dyfnder y gwaith hwn ac yn datblygu perthnasoedd agosach â phartneriaid, gan gynnwys diwydiant, i helpu i gyflawni gwelliannau diogelwch. Sefydlwyd tîm arbenigol – y Cyd-uned Amddiffyn a Pharatoi Tramor – yn 2015 i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ei hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrthderfysgaeth eisoes wedi cyrraedd 23,000 o staff cwmni teithio y DU ledled y byd, ac mae ei ffilm 'Run, Hide, Tell' Rhyngwladol wedi derbyn dros 400,000 o ymweliadau ar-lein.

56 Ar-lein yn: https://www.un.org/counterterrorism/ctitf/sites/www.un.org.counterterrorism.ctitf/files/plan_action.pdf

297 Rydym hefyd yn cynyddu ein gwaith gwrthderfysgaeth dramor yn y sector morol, gan gynnwys gwaith i godi safonau diogelwch morol mewn porthladdoedd mewn gwledydd blaenoriaeth.

Ffig 2.7: Y ffilm Run, Hide, Tell, sydd wedi derbyn dros 400,000 o ymweliadau ar-lein



Ffynhonnell: Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad

Cyngor Teithio

298 Cyfrifoldeb llywodraethau'r gwledydd maent ynddynt yw diogelwch a diogeledd gwladolion Prydeinig dramor. Fodd bynnag, gall eu gallu a'u capasiti i wneud hynny amrywio'n sylweddol, ac mewn llawer o achosion, mae wedi'u profi'n ddifrifol gan raddfa a natur y bygythiad terfysgol lleol.

299 Mae helpu pobl i ddeall y risgiau mewn gwledydd maent yn teithio iddynt yn rhan allweddol o'n gwaith: fe gafodd Cyngor Teithio'r Swyddfa Tramor a Chymanwlad ar-lein bron i 47 miliwn o ymweliadau yn 2017. Mae'r cyngor hwn yn amlygu bygythiadau terfysgol i wladolion Prydeinig dramor fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu teithio. Lle bo'r peryglon yn ddigon difrifol, byddwn ni'n parhau i gynghori yn erbyn teithio.

300 Mae gan y DU system sy'n enwog dros y byd ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau terfysgol dramor lle mae gwladolion Prydeinig yn rhan ohonynt. Mae hyn yn cynnwys cynllunio rheoli argyfwng manwl; y defnydd o adnoddau arbenigol, megis Tîmau Adeoli Cyflym; defnyddio'r heddlu i gefnogi ymchwilladau yn dilyn ymosodiad; ac arbenigwyr negodi ym maes gwystlon ac argyfwng. Byddwn ni'n parhau i brofi a gwella ein systemau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau dramor, gan gynnwys trwy ymarfer yn rheolaidd – roedd 350 o gyfranogwyr yn yr ymarfer argyfwng Ymosodiad Terfysgol Ysbeiliol ag Arfau Tân yn Nigeria yn ddiweddar – a chynnal ein galluoedd arbenigol ym meysydd negodi ar gyfer herwgipio ac achub gwystlon.

301 Nid yw Llywodraeth y DU yn talu pridwerthoedd nac yn gwneud consesiynau sylweddol i derfysgwyr sy'n cymryd gwystlon. Mae talu pridwerthoedd i derfysgwyr yn anghyfreithlon o dan gyfraith y DU a mae'n drosedd cyllid terfysgol. Rydym wedi annog partneriaid rhyngwladol i ddilyn ein harweiniad, gan gynnwys trwy fabwysiadu Penderfyniad Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig (UNSCR) 2368 o 20 Gorffennaf 2017, Cyd-gommunique Gweinidogion Tramor y G7 o Ebrill 2017 a Datganiad Arweinwyr y G7 o Fai 2016.

Ymatebion trawsbynciol

302 Mae'r meysydd gwaith Atal, Ymlid, Amddiffyn a Pharatoi, a'n rhaglenni o fewn y meysydd gwaith hyn a gyfarwyddir dramor, yn drawsbynciol yn eu hymagweddu. Mae'r adran hon yn esbonio ymatebion ehangach y Llywodraeth i eithafiaeth, integreiddio a throseddau, sy'n berthnasol i'n strategaeth CONTEST, yn ogystal â gwaith penodol ar ddata a gwyddoniaeth, technoleg, dadansoddi ac ymchwil sy'n sail i'n gwaith gwrthderfysgaeth.

Gwrthsefyll eithafiaeth

303 Ochr yn ochr â strategaeth gwrthderfysgaeth gynhwysfawr, mae gennym Strategaeth Gwrth-eithafiaeth effeithiol i fynd i'r afael â hybu casineb, erydu hawliau menywod, lledaenu anoddefgarwch, ac ynysu cymunedau. Rydym yn credu ei fod yn hanfodol amddiffyn gwerthoedd ein cymdeithas – rheol y gyfraith, rhyddid unigol, democratiaeth, cyd-barch, goddefgarwch a dealltwriaeth o wahanol gredau a chredoau – trwy fynd i'r afael ag eithafiaeth ar ei holl ffurfiau, gan gynnwys eithafiaeth yr asgell dde, sy'n achosi niwed cymdeithasol sylweddol yn ein cymunedau.⁵⁷

304 Yn 2015, fe wnaethom gyhoeddi'r Strategaeth Gwrth-eithafiaeth. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar bedwar piler:

- i. Mynd i'r afael ag ideoleg eithafol trwy wneud yn siŵr bod pob rhan o'r Llywodraeth yn gweithredu i fynd i'r afael â naratifau eithafol sy'n mynd yn groes i'n gwerthoedd a rennir.
- ii. Cefnogi lleisiau prif ffrwd yn weithredol yn arbennig yn ein cymunedau ffydd a'n cymdeithas sifil.
- iii. Amharu ar yr eithafwyr mwyaf niweidiol gan ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael i ni ac erlyn y rhai hynny sy'n torri'r gyfraith.
- iv. Adeiladu cymunedau mwy cydlynol trwy fynd i'r afael â gwahaniaethu a theimladau o ddieithrio, a all ddarparu tir ffrwythlon ar gyfer negeseuon eithafol.

305 Mae'r Llywodraeth, partneriaid statudol a chymunedau lleol i gyd yn chwarae rhan bwysig wrth herio eithafiaeth ac adeiladu cymunedau cryfach sy'n wydn yn wyneb radicaleiddio terfysgol ac eithafol. Ers i'r strategaeth gael ei chyhoeddi, rydym wedi tyfu rhwydwaith o dros 160 o grwpiau cymdeithas sifil trwy ein rhaglen Adeiladu Prydain Gryfach Gyda'n Gilydd. Rydym hefyd wedi cymryd camau i amddiffyn ein sefydliadau cyhoeddus rhag y bygythiad mae eithafiaeth yn ei gyflwyno ac wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb, ochr yn ochr â £3.4 miliwn o gyllid ar gyfer mesurau diogelwch amddiffynnol i sefydliadau ffydd.

306 Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei bod wedi penodi Sara Khan fel y prif Gomisiynydd newydd ar gyfer Gwrthsefyll Eithafiaeth.⁵⁸ Mae gan y Comisiwn gylch gwaith clir i gefnogi'r Llywodraeth, y sector cyhoeddus, y gymdeithas sifil a'r gymdeithas ehangach i nodi a herio pob math o eithafiaeth. Bydd yn rhoi cyngor diduedd, allanol i'r Llywodraeth ar yr offer, polisïau ac ymagweddu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag

⁵⁷ Cyhoeddwyd ein Strategaeth Gwrth-eithafiaeth yn 2015 ac mae'n ymrwymo'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r holl niwed ehangach y gall eithafiaeth ei achosi, nid dim ond lle gallai arwain at derfysgaeth. I raddau amrywiol, mae cyfrifoldeb dros wrth-eithafiaeth wedi'i ddatganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae gan bob Gweinyddiaeth Ddatganoledig ei hymagwedd ei hun yn y meysydd a ddatganolwyd iddynt. Ar-lein yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470088/51859_Cm9148_Accessible.pdf.

⁵⁸ Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/news/sara-khan-to-lead-commission-for-counterterrorism>

eithafiaeth. Bydd hefyd yn cefnogi'r sector cyhoeddus, cymunedau a chymdeithas sifil i wynebu eithafiaeth lle bynnag mae'n bodoli, a hyrwyddo gwerthoedd Prydeinig sylfaenol, lluoseddol.

307 I ddechrau, bydd y Comisiwn yn cychwyn trafodaeth eang ac agored ynghylch eithafiaeth a gwerthoedd Prydain ag unigolion o bob rhan o gymdeithas, gan ddewis yn annibynnol pwy fydd yn ymgysylltu â nhw. Bydd hefyd yn cynhyrchu asesiad strategol o'r bygythiad mae eithafiaeth yn ei gyflwyno yn ogystal â'r ymateb presennol ac, yn y cyfnod cychwynnol hwn, bydd hefyd yn cynghori ar strwythurau a rhaglenni gwaith y Comisiwn yn y dyfodol.

Integreiddio

308 Ym mis Ionawr 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Cymunedau Integredig newydd er mwyn ymgynghori arni.⁵⁹ Nod y strategaeth yw adeiladu cymunedau integredig cryf lle mae pobl – beth bynnag y bo'u cefndir – yn byw, gweithio, dysgu a chymdeithasu gyda'i gilydd, yn seiliedig ar hawliau, cyfrifoldebau a chyfleoedd a rennir.

309 Mae strategaeth integreiddio lwyddiannus yn bwysig ynddo'i hun. Mae hefyd yn bwysig i wrthderfysgaeth, ac i Atal yn arbennig, oherwydd mae cysylltiad rhwng cefnogi trais terfysgol a gwrthod cymdeithas gref ac integredig. Rydym yn credu bod cymunedau sydd heb, neu na allant, gymryd rhan mewn cymdeithas ddinesig yn fwy tebygol o fod yn agored i radcaleiddio.

Data

310 Un o'r canfyddiadau mwyaf pellgyrhaeddol o adolygiadau i ymosodiadau terfysgol 2017 yn y DU, gan gynnwys yr Adolygiad Gwella Gweithredol a oruchwyllir gan David Anderson CF, yw pwysigrwydd hanfodol rheoli, rhannu a dadansoddi swm mawr a chynyddol o ddata yn effeithiol. Wrth i nifer y bobl sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn y DU gynyddu, bydd manteisio ar ddata'n effeithiol ac mewn ffordd gymesur yn dod yn bwysicach fyth wrth wneud penderfyniadau a phryd a sut rydym yn gweithredu.

311 Fel rhan o CONTEST, byddwn ni'n cyflwyno newid sylweddol yn y modd rydym yn rhannu, dadansoddi a defnyddio data ar draws y gymuned gwrthderfysgaeth. Bydd ymagwedd strategol newydd tuag at gaffael, rhannu a dadansoddi data, yn ogystal â mwy o gydweithrediad â'r sector preifat, yn arbennig lle mae cwmnïau'n dal data a allai amlygu risgiau sy'n datblygu, megis caffael rhagsylweddion cemegol neu ffrwydrol neu gynnwys terfysgol ar-lein. Bydd canllawiau mwy cadarn a thryloyw yn cwmpasu diogelwch, cymesuredd a chyfreithlondeb, a byddwn ni'n defnyddio ac yn amddiffyn y data sydd gennym fel y bo'n briodol.

312 Er mwyn cadw'n gyfredol â'r cynnydd yn argaeledd data a datblygiadau mewn dadansoddeg data, byddwn ni'n symud tuag at fodel newydd o fuddsoddiad a rennir mewn arloesedd ar draws partneriaid CONTEST. Bydd hyn yn cynnwys gweithio ag academia a diwydiant, ac â chynghreiriaid rhyngwladol, er mwyn bod ar flaen y gad o ran arbrofi a threialu datblygiadau newydd mewn dadansoddeg data y gellir eu huwchraddio wedyn i'r gymuned diogelwch cenedlaethol ehangach. Bydd hefyd yn cynnwys gwarchod y DU trwy ragweld a mynd i'r afael â defnydd o dechnolegau data gan ein gwrthwynebwyr.

⁵⁹ Ar-lein yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/integrated-communities-strategy-green-paper>. Mae integreiddio wedi'i ddatganoli felly bydd y strategaeth newydd yn cwmpasu Lloegr yn unig. Mae gan yr Alban strategaeth integreiddio ffoaduriaid New Scots – a gyhoeddwyd gyntaf yn 2014 ac a adnewyddwyd mewn cydweithrediad â phartneriaid ym mis Ionawr 2018.

313 Er mwyn sicrhau bod gennym fynediad i'r arbenigedd cywir mewn gwyddor data a dadansoddeg, byddwn ni'n buddsoddi mewn sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys: datblygu partneriaethau â sefydliadau academiaidd blaenllaw, cwmnïau technoleg a phartneriaid eraill, i hyfforddi a chadw piblinell y dyfodol ar gyfer gwyddonwyr data arbenigol, penseiri systemau a dadansoddwyr data; yn ogystal â datblygu sylfaen sgiliau gwneuthurwyr polisi a phartneriaid gweithredol i sicrhau eu bod yn data-lythrennog ac yn gallu gwneud defnydd deallus o fewnwelediad dadansoddol.

314 Fel y cyfeiriwyd ato gan y Prif Weinidog yn ei haraith i Fforwm Economaidd y Byd ym mis Ionawr 2018, rydym dim ond wedi dechrau gweld yr hyn y gall cudd-wybodaeth artiffisial ei gyflawni. Rhaid cadarnhau'r potensial hwn trwy sefydlu'r rheolau a'r safonau a all wneud y gorau o Gudd-wybodaeth Artiffisial (AI) mewn modd cyfrifol. Rydym wedi lansio'r Ganolfan ar gyfer Moeseg ac Arloesi Data, a noddir gan DCMS, i weithio gyda phartneriaid rhyngwladol i lunio fframwaith cyffredin ar gyfer defnyddio AI yn ddiogel ac yn arloesol.

Gwyddoniaeth, technoleg, dadansoddiad ac ymchwil

315 Mae gwyddoniaeth, technoleg, dadansoddiad ac ymchwil (STAR) yn sail i waith gwrthderfysgaeth. Fe wnaeth SDSR 2015 gydnabod pwysigrwydd sefyllfa'r DU fel arweinydd byd-eang mewn sawl maes gwyddoniaeth ar gyfer ein diogelwch. Ymrwymodd SDSR y Weinyddiaeth Amddiffyn i fuddsoddi o leiaf 1.2% o'r gyllideb amddiffyn ar wyddoniaeth a thechnoleg. Bydd integreiddio Canolfan Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gymhwysol y Swyddfa Gartref yn Labordai Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn (Dstl) yn cryfhau'r galluedd hanfodol hyn sydd wrth wraidd amddiffyn a diogelwch y DU.

316 Ein nod yw parhau i gyrchu'r STAR mae arnom eu hangen er mwyn nodi a lleihau bygythiadau, bod yn sail i benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a manteisio ar gyfleoedd i leihau'r risg o derfysgaeth. Er enghraifft, rydym yn defnyddio arbenigedd o'r radd flaenaf i: nodi deunydd terfysgol yn awtomatig ar-lein a chyhoeddi hysbysiad i'w dynnu i lawr; ac i ddeall y bygythiadau CBRN diweddaraf, gan gymhwyso'r wybodaeth hon i wella ein hamddiffyniad ar y ffin, er mwyn helpu ein hymatebwyr cyntaf i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol ac atal mynediad i ddeunyddiau CBRN i terfysgwyr.

317 Byddwn ni'n parhau i sicrhau buddsoddiad yn STAR gwrthderfysgaeth ac yn adrodd wrth yr NSC bob blwyddyn am gyflawniadau'r gymuned STAR CONTEST. Bydd y Swyddfa Gartref yn arwain datblygu a chydlyn strategaeth STAR traws-lywodraetholol ar gyfer gwrthderfysgaeth, a pharhau i weithio â phrosesau STAR ehangach y llywodraeth i rannu gwybodaeth ac arfer gorau. Bydd y strategaeth yn ceisio canolbwyntio adnoddau o gwmpas gofynion a rennir, er enghraifft, Rhaglen Atebion Diogelwch Hedfanaeth y Dyfodol (FASS) a ffocws ar ddiogelu mannau gorlawn. Trwy'r strwythurau traws-lywodraetholol hyn, byddwn ni'n canolbwyntio ar arloesi a sgiliau gwyddor data, deall a rhagweld arloesi terfysgol (e.e. trwy wyddor ymddygiadol), a chanfod agnostig i ddatblygu ac addasu systemau sy'n gallu canfod bygythiadau lluosog.

318 Byddwn ni'n cryfhau cyfranogiad mewn rhaglenni ymchwil cydweithredol rhyngwladol, lle gallwn ni rannu costau a hybu datblygiad o STAR er budd y ddwy ochr. Wrth wneud hynny, byddwn ni'n archwilio cydweithrediad pellach ag Awstralia, Canada a Seland Newydd, yn ogystal â'n partneriaethau cryf iawn â'r Unol Daleithiau a Ffrainc. Byddwn ni hefyd yn gwella cydweithrediad â'r byd academiaidd a'r sector preifat i sicrhau y gallwn ni gyrchu ac elwa o'r dechnoleg fwyaf datblygedig, cyngor ac atebion ar gyfer gwrthderfysgaeth. Mae'r Uned Mewnwelediad Arloesi ac Ymchwil (IRIS) – uned ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn

a'r Swyddfa Gartref – yn un enghraifft o sut rydym eisoes yn gweithio gydag academia a diwydiant i sicrhau bod bygythiadau a chyfleoedd yn cael eu cyfathrebu i wneuthurwyr polisi amddiffyn a diogelwch.

319 Er mwyn annog sylfaen wyddoniaeth ffyniannus ac arloesol, â phiblinell o sgiliau amrywiol, byddwn ni'n hyrwyddo rôl STAR yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â therfysgaeth trwy weithio gyda chyrff proffesiynol a diwydiannol, yn ogystal â Phrif Gynghorwyr Gwyddonol a Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth. Byddwn ni hefyd yn defnyddio digwyddiad gwybodaeth STAR Diogelwch LIEM blynyddol a digwyddiadau thematig, yn ogystal â'r Digwyddiad Diogelwch a Phlisma a drefnir gan y Gyd-ganolfan Diogelwch a Chydnerthedd (JSaRC), i ymgysylltu'n uniongyrchol ag academyddion a'r sector preifat i'w hannog i helpu i fynd i'r afael â'r heriau diogelwch sy'n wynebu'r DU.

320 Lle bynnag y bo modd, byddwn ni'n cyd-ddylunio ein hymagwedd ar faterion trawsbynciol â'r sector preifat, gan gynnwys datblygu llwyfannau ar y cyd ar gyfer symud y gwaith ymlaen. Mae JSaRC yn gydweithrediad rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant diogelwch, sy'n cael ei staffio gan y ddau ac sy'n ysgogi arloesedd. JSaRC yw cangen weithredol y Bartneriaeth Diogelwch a Chydnerthedd ac fe'i cefnogir gan RISC (cynghrair gynhwysol o sefydliadau diogelwch a chydnerthedd y DU). Mae hefyd yn cyflwyno manteision masnachol i'n partneriaid trwy annog cyfleoedd twf yn y sector diogelwch; gan lunio marchnad lle mae cwmnïau bach, canolig a mawr yn gallu deall blaenoriaethau uniongyrchol a thymor hir.

Terfysgaeth a phlisma ehangach

321 Tanlinellodd yr ymateb i ymosodiadau terfysgol 2017 bwysigrwydd cydweithio rhwng holl asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau diogelwch, gan gynnwys rhannu pobl, cudd-wybodaeth, galluoedd a chyfleusterau arbenigol. Yn dilyn yr ymosodiadau, darparodd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) gallu ychwanegol i Blisma Gwrthderfysgaeth. Mae plisma lleol yn gyswilt allweddol rhwng Plisma Gwrthderfysgaeth a chymunedau lleol, sy'n rheoli llawer o'r partneriaethau amlasiantaethol, sydd wrth wraidd ein ymagwedd at reoli risg, ac sy'n darparu gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer gweithrediadau gwrthderfysgaeth, megis arfau tanio a chefnogaeth awyr. Mae plisma lleol yn allweddol wrth ganfod a rhwystro bygythiadau sy'n datblygu a lliniaru unrhyw ymosodiadau.

322 Mae Plisma Gwrthderfysgaeth, NCA a Chyngor Penaethiaid Cenedlaethol yr Heddlu (NPCC) yn gweithredu strategaeth gydweithredu gwrthderfysgaeth a throseddau difrifol a threfnedig. Rydym wedi nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer cydweithio mewn meysydd pwysig megis carchardai, cudd-wybodaeth, arfau tanio a ffiniau, a byddwn ni hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer mentrau newydd mewn meysydd megis digidol, seiber, cudd-wybodaeth a gwyliadwriaeth. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu uned benodedig i sicrhau bod gennym y galluoedd cudd-wybodaeth, canfod a gorfodi cywir a lleihau'r gallu i derfysgwyr a throseddwr yr gyrchu arfau tanio.

323 Gwelsom hefyd, yng Ngampws Troseddau'r Alban a mannau eraill, y gall cydleoli asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â therfysgaeth a throseddau difrifol a threfnedig arwain at gydweithrediad agosach, a sicrhau gwerth gwell am arian. Mae'r Swyddfa Gartref wedi buddsoddi mewn prosiectau gan gynnwys cyfleuster pwrpasol yn Ne Cymru. Byddwn ni'n parhau i nodi a chefnogi cyfleoedd pellach i gynyddu cydleoli ledled y wlad.

Rhan 3: Gweithredu

324 Mae'r adran hon yn disgrifio sut y byddwn ni'n sicrhau bod CONTEST yn cael ei weithredu'n effeithiol, gan gynnwys llywodraethu a goruchwyllo, cyllid a pherfformiad.

Llywodraethu a goruchwyllo

Cyfrifoldebau gweinidogol

325 Bydd y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol (NSC), dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog, yn parhau i oruchwyllo CONTEST, gan gymryd adroddiadau rheolaidd ar ei gynnydd, ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg, adolygu effaith gasgliadol ein gwaith gwrthderfysgaeth, a chytuno ar ein hymateb a'n hadnoddau yn unol â hynny.

326 Yr Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol am gydlyn ymateb gwrthderfysgaeth y Llywodraeth yn gyffredinol ac mae'n goruchwyllo MI5 a'r Asiantaeth Troseddu Genedlaethol ac mae'n atebol am weithgareddau'r gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Plismona Gwrthderfysgaeth. Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn atebol i'r Senedd, sy'n craffu ar waith y Llywodraeth.

327 Yr Ysgrifennydd Tramor sy'n gyfrifol am bolisi tramor y DU a gweithgarwch y Llywodraeth dramor, gan gynnwys elfennau rhyngwladol CONTEST. Mae'r Ysgrifennydd Tramor yn goruchwyllo'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol (SIS) a Phencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ) ac mae'n atebol i'r Senedd am eu gweithgareddau.

328 Y Canghellor sy'n gyfrifol am y broses o rewi asedau terfysgwyr, yn y wlad hon ac yn rhyngwladol.

329 Yr Ysgrifennydd Amddiffyn sy'n gyfrifol am y Lluoedd Arfog a chyfraniad Amddiffyn i wrthderfysgaeth.

330 Yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth sy'n gyfrifol am bolisi diogelwch trafndiaeth, gan arwain ar drefniadau diogelwch ar gyfer trafndiaeth tir, morol a hedfanaeth ym Mhrydain Fawr i liniaru'r risg o derfysgaeth i'r system drafndiaeth a'r cyhoedd sy'n teithio. Yr Ysgrifennydd Digidol sy'n arwain cysylltiadau'r Llywodraeth â'r diwydiant technoleg, gan gynnwys Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu, tra hefyd yn goruchwyllo datblygiad y Siarter Ddigidol fel rhan o ymdrechion i sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein.

Goruchwyliaeth

331 Yn gyffredinol, mae gan Bwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch y Senedd oruchwyliaeth ar weithgareddau diogelwch a chudd-wybodaeth y DU. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Materion Cartref, y Pwyllgor Materion Tramor a'r Pwyllgor Trysorlys yn darparu goruchwyliaeth Seneddol ychwanegol ar wariant, gweinyddiaeth a pholisi'r Swyddfa Gartref, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a Thrysorlys EM yn y drefn honno.

332 Mae'r Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth yn darparu her gadarn i'r Llywodraeth a'r heddlu, a goruchwyliaeth annibynnol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn deg ac yn effeithiol. Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn darparu goruchwyliaeth annibynnol ar waith ymchwilio'r asiantaethau cudd-wybodaeth gyfrinachol.

333 Mae goruchwyliaeth, craffu a thryloywder ein gwaith gwrthderfysgaeth yn arwain y byd, ac mae'n cynnwys yr adroddiadau a gyhoeddwn, cynnwys barnwyr annibynnol sy'n adolygu defnydd asiantaethau'r llywodraeth o bwerau ymwithiol a cheisiadau gan y llywodraeth am TEOs a TPIMs, adolygwr annibynnol o ddeddfwriaeth derfysgaeth, ac atebolrwydd i'r Senedd. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu'n helaeth â'r cyhoedd, y gymdeithas sifil, academia a'r Senedd, a thrwy waith allgymorth yn y gymuned. Ein nod yw gwrando ac ymateb er mwyn gwella ein hymagwedd at gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Gweinyddiaethau Datganoledig

334 Mae gwrthderfysgaeth – fel pob mater o ddiogelwch cenedlaethol – yn fater a gedwir yn ôl, sy'n golygu bod Senedd y DU yn cadw pwerau sy'n ymwneud â gwrthderfysgaeth. Fodd bynnag, mae llawer o'r mecanweithiau cyflwyno lleol wedi'u datganoli yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

335 Ers 2011, mae Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi cydweithio gyda chydabyddiaeth gyffredin o'r bygythiad a gyflwynir ledled y DU gan derfysgaeth ac ymateb strategol a rennir. Mae'r cydweithio agos hwn yn sicrhau ein bod ar y cyd yn gallu cyflawni amcanion CONTEST ledled y DU.

336 Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am yr ymateb strategol i derfysgaeth sy'n gysylltiedig â Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon. Mae Swyddfa Gogledd Iwerddon yn cydlynu'r ymateb hwn trwy weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI), MI5, yr Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, yn ogystal ag adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn Iwerddon.

Cydlynu adrannol

337 Ar lefel swyddogol, goruchwylir gwrthderfysgaeth gan Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO): Cyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth yn y Swyddfa Gartref. Mae'r Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth yn arwain ar gefnogi'r Ysgrifennydd Cartref a'r SRO wrth ddatblygu, cydlynu a gweithredu CONTEST. Mae hefyd yn galluogi goruchwyllo MI5 a Phlisma Gwrthderfysgaeth; ac yn cydlynu'r ymateb i argyfyngau sy'n gysylltiedig â gwrthderfysgaeth.

338 Mae ein hymagwedd at frwydro yn erbyn terfysgaeth yn cael ei rheoli a'i monitro'n gyson. Mae'r SRO yn cadeirio Grŵp Gweithredu Strategol Diogelwch Cenedlaethol ar gyfer gwrthderfysgaeth, sy'n dwyn ynghyd uwch arweinwyr gweithredol a pholisi o bob rhan o'r Llywodraeth, y Gweinyddiaethau Datganoledig, yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-

wybodaeth. Yn ogystal, mae gan bob un o'r pedwar maes gwaith 'P' o fewn CONTEST lywodraethu sy'n cydlynu gweithgarwch ac yn olrhain amcanion perthnasol, ac mae'r Grŵp CONTEST Rhyngwladol yn cydlynu ein hymagwedd at wrthderfysgaeth dramor.

Tiriogaethau tramor

339 Fel yr amlinellwyd ym Mhapur Gwyn 2012 *Y Tiriogaethau Tramor: Diogelwch, Llwyddiant a Chynaliadwyedd*, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r Tiriogaethau Tramor i fynd i'r afael â bygythiadau sy'n deillio o derfysgaeth ryngwladol. Er mai Llywodraethwyr y Tiriogaethau Tramor sy'n gyfrifol am eu hymatebion gwrthderfysgaeth, bydd Llywodraeth y DU yn cefnogi ac yn cydweithio â hwy lle bo angen er mwyn datblygu strategaethau gwrthderfysgaeth, a gwaith datblygu a chynllunio galluoedd dilynol, trwy Adrannau perthnasol y Llywodraeth.

Pobl a diwylliant

340 Mae ein pobl a'n diwylliant yn rhan annatod o lwyddiant y strategaeth, y polisi gweithrediadau gwrthderfysgaeth. Mae gwrthderfysgaeth effeithiol yn galw am recriwtio, hyfforddi a chadw pobl o safon uchel ym mhob maes a sicrhau eu bod yn cydweithio'n dda. Mae hefyd yn amodol ar ddeall, gwranddo ar, a gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, grwpiau a chymunedau ag amrywiaeth o gefndiroedd a nodweddion, gan gynnwys rhywedd, ethnigrwydd, crefydd a chefnidir cymdeithasol. Sefydlodd SDSR 2015 rhwydwaith amrywiaeth diogelwch ac amddiffyn. Mae ei waith wedi ategu ymdrechion adrannol a gwasanaeth sifil eraill i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar ddiogelwch cenedlaethol, gan gynnwys gwrthderfysgaeth, yn ymwybodol bod amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol i'n gwaith. Byddwn ni'n gwella ymgysylltu allanol a chynrychiolaeth fewnol ymhlith y rhai hynny sy'n gweithio ar wrthderfysgaeth. Byddwn ni'n rhagweithiol wrth wreiddio ymagweddau mwy cynhwysol trwy ein holl waith, gan gynnwys annog herio adeiladol a gwahanol ffyrdd o feddwl, a gwella ein cydnerthedd, i'n helpu ni i ymateb yn well i'r bygythiadau cymhleth rydym yn eu hwynebu.

Cyllid

341 Yng Nghyllideb 2015, ymrwymodd y llywodraeth i ddiogelu gwariant gwrthderfysgaeth draws-lywodraethol o fwy na £2 biliwn y flwyddyn. Fe gafodd y gwariant hwn ei adolygu a'i brofi o fewn SDSR 2015 i nodi arbedion effeithlonrwydd ar gyfer ailfuddsoddi ac i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein blaenoriaethau gwrthderfysgaeth uchaf. Ar ben hynny, bydd y Llywodraeth yn gwario 30% ychwanegol yn gyffredinol mewn termau real ar alluoedd gwrthderfysgaeth allweddol dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant. At ei gilydd, bydd hyn yn golygu:

- Buddsoddi mewn galluoedd gwrthderfysgaeth newydd ar gyfer yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth sy'n werth £1.4 biliwn i'w galluogi i ymchwilio, dadansoddi a helpu i amharu ar gynllwynion terfysgol.
- Buddsoddiad newydd o £2 biliwn yng ngallu Lluoedd Arbennig y DU, sy'n ein galluogi i daro terfysgwyr lle bynnag y maent yn y byd.
- Buddsoddiad ychwanegol o £500 miliwn yn y Swyddfa Gartref i ddiogelu dinasyddion y DU rhag bygythiadau terfysgol, gan gynnwys: cynnydd mewn termau go iawn i'r Grant Plismona Gwrthderfysgaeth; Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Ecsbloetio Digidol newydd i ddadansoddi'r nifer gynyddol o gyfryngau a atafaelir ar gyfer tystiolaeth a chudd-wybodaeth; nifer gynyddol o swyddogion arfau tanio arbenigol; cudd-wybodaeth a chanfod bygythiadau gwell ar y ffin; a mwy o ymdrechion i wrthsefyll yr ideolegau gwenwynig sy'n bwydo terfysgaeth ac eithafiaeth.

342 Yn sgîl y darlun bygythiol newidiol, a'r pum ymosodiad yn Llundain a Manceinion, mae'r Llywodraeth wedi dyrannu cyllid ychwanegol i Blismona Gwrthderfysgaeth. Yn 2017-18, y cyllid ar gyfer Plismona Gwrthderfysgaeth oedd £707m, a oedd yn cynnwys £32m i gynorthwyo codiad ym maes plismona arfog. Darparwyd swm ychwanegol hyd at £28m yn ystod y flwyddyn i ddiwallu costau uniongyrchol ymateb i'r ymosodiadau terfysgol. Yn 2018-19, bydd cyllid ar gyfer Plismona Gwrthderfysgaeth yn cynyddu, o £50m, i £757m.

343 Hefyd, darparodd y Llywodraeth gyllid i gefnogi dioddefwyr ymosodiad terfysgol Manceinion ac i dalu costau a achoswyd i wasanaethau brys Manceinion, Cyngor y Ddinas a darparwyr iechedd a gofal cymdeithasol. Roedd y cyllid newydd a gyhoeddwyd yn 2018⁶⁰ yn cynnwys:

- Dros £9 miliwn ar gyfer plismona, yn ychwanegol at y cymorth a ddarperir trwy gyllid ar gyfer Plismona Gwrthderfysgaeth.
- Dros £1 miliwn i gefnogi gwaith pwysig Cronfa Brys We Love Manchester, mewn partneriaeth â Chroes Goch Prydain.
- £451,000 ar gyfer costau gofal cymdeithasol.
- £2.6 filiwn ar gyfer canolfan iechedd meddwl – yn ogystal â £53,800 ar gyfer cymorth seicolegol.
- Cronfa galedi gwerth £80,000 ar gyfer busnesau bach yr effeithiwyd arnynt gan yr ymosodiad.
- Costau crwner a chwest llawn.

60 Datganiad i'r wasg ar gael ar-lein: <https://www.gov.uk/government/news/government-sets-out-24-million-for-greater-manchester-following-2017-terror-attack>

344 Er mwyn bodloni her darlun bygythiad sy'n gynyddol gymhleth a newidiol, rydym wedi sefydlu Cronfa Sbarduno Gwrthderfysgaeth i ymateb i fygythiadau a risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gyflymach ac i gyflwyno ymagweddau arloesol a thrawsnewidiol at wrthsefyll y bygythiad terfysgol. Cynhyrchwyd y gronfa, sy'n werth £25m y flwyddyn, drwy ail-flaenoriaethu gwariant gwrthderfysgaeth presennol ac mae'n ariannu prosiectau arloesol yn 2018/19.

Perfformiad

345 Mae CONTEST yn cael ei fonitro yn ôl set o ddangosyddion perfformiad allweddol, ynghyd â gwerthusiad manwl o raglenni penodol. Rydym wedi datblygu fframwaith perfformiad sy'n tynnu ynghyd, yr amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddir ar draws y llywodraeth i fonitro cyflwyno, a gwerthuso llwyddiant, ymateb gwrthderfysgaeth dramor a domestig y DU.

346 Defnyddir y data a gesglir yn y fframwaith i fonitro cynnydd tuag at amcanion strategol CONTEST a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o wario adnoddau'r Llywodraeth ar wrthderfysgaeth a sicrhau gwerth am arian. Rydym yn bwriadu gwella data perfformiad a rheoli ar draws y system er mwyn gwella ein penderfyniadau a'n hystwythder. Rydym yn ymroddedig i gyhoeddi data lle mae gofynion diogelwch yn ei ganiatáu. Byddwn ni'n parhau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein gwaith gwrthderfysgaeth.

Atodiad: Rolau a chyfrifoldebau

Swyddfa'r Cabinet. Mae Swyddfa'r Cabinet yn cefnogi gwaith y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol trwy'r Ysgrifenyddiaeth Diogelwch Cenedlaethol, sydd hefyd yn goruchwyllo'r Cyfrif Cudd-wybodaeth Sengl. Ystafell Briffio Swyddfa'r Cabinet (COBR) yw mecanwaith ymateb i argyfwng y Llywodraeth ar gyfer ymosodiadau terfysgol. Mae Cyd-bwyllgor Cudd-wybodaeth Swyddfa'r Cabinet yn gosod blaenoriaethau ar gyfer casglu gwybodaeth strategol ac yn cyflwyno asesiadau cudd-wybodaeth strategol.

Mae'r Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil (CCS) yn rhan o Ysgrifenyddiaeth Diogelwch Cenedlaethol Swyddfa'r Cabinet ac yn arwain gwaith traws-lywodraethol ar rannau o'r portffolio Paratoi. Mae CCS yn cynhyrchu'r Asesiad Risg Cenedlaethol a chynhyrchion risg traws-lywodraethol eraill, sy'n ymgorffori gwybodaeth ynghylch bygythiad gan yr asiantaethau cudd-wybodaeth ac yn llywio cynllunio a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau. Mae hefyd yn arwain y Rhaglen Galluoedd Cydnerthedd, fenter traws-Whitehall sy'n goruchwyllo datblygiad strategol a chynnal a chadw'r galluoedd safonol sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw ymateb i argyfwng. Yn ogystal â chynllunio ehangach, mae CCS yn gweithio ag OSCT ar raglenni penodol sy'n paratoi ar gyfer bygythiadau terfysgaeth effaith uchaf y DU, sydd yn galw am gynllunio a galluoedd wrth gefn pwrpasol. Mae CCS yn arwain ar adfer o ymosodiad terfysgol.

Y Ganolfan er Amddiffyn Seilwaith Cenedlaethol (CPNI). CPNI yw'r awdurdod technegol cenedlaethol ar gyfer mesurau diogelwch amddiffynnol corfforol a phersonél; mae'n gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Cenedlaethol, sy'n arwain ar gyngor diogelwch seiber. Mae CPNI yn datblygu ac yn darparu cyngor a chyfarwyddyd wedi'i anelu at leihau diamddiffynedd yn wyneb terfysgaeth a bygythiadau eraill, wedi'i ategu gan raglen helaeth o ymchwil, datblygu, profi a gwerthuso. Mae CPNI yn ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau a sefydliadau ar draws y seilwaith cenedlaethol, tra hefyd yn gweithio gyda'r Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol (NaCTSO) a'r rhwydwaith Cynghorwr Diogelwch Gwrthderfysgaeth (CTSA) i gefnogi gweithredwyr mannau gorlawn.

Plismona Gwrthderfysgaeth. Plismona Gwrthderfysgaeth yw'r prif ddull o amharu ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn y DU, sy'n cyfrannu'n sylweddol at amharu ar lefel ryngwladol, ac yn gyfrwng craidd ar gyfer darparu gweithgarwch ataliol ac amddiffynnol. Mae'n cynnwys rhwydwaith o unedau gweithredol wedi'u lleoli'n rhanbarthol ledled y DU â phencadlys sy'n darparu galluoedd cenedlaethol a rhyngwladol arbenigol. Mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn arwain cyfraniad yr heddlu i CONTEST ar draws y pedwar maes gwaith. Yn cynnwys oddeutu 7,000 o swyddogion a staff yr heddlu ledled y DU, a phresenoldeb sylweddol dramor.

Yn ychwanegol at waith gweithredol rhagweithiol sylweddol, gellir defnyddio Plismona Gwrthderfysgaeth mewn ymateb i ddigwyddiadau terfysgol unigol neu luosog gan ymchwyllo ac ystywto adnoddau ledled y DU yn unol â lle mae'r bygythiad mwyaf. Mae lluoedd yn cydweithio trwy'r model gweithredu hwn ac mae Prif Swyddogion yn rhoi awdurdod i'r Arweinydd Cenedlaethol ar gyfer Gwrthderfysgaeth (fel arfer y Comisiynydd Cynorthwyol yn yr Heddlu Metropolitaidd ar gyfer Gweithrediadau Arbenigol) a'r Uwch Gydlynnydd Cenedlaethol, sydd â goruchwyliaeth strategol a gweithredol ar Blismona Gwrthderfysgaeth.

Cynhelir y system hon o dan gytundeb cydweithredol sy'n rhwymo'n gyfreithiol a lofnodwyd gan y naw Prif Gwnstabl Llu Arweiniol a'u Comisiynwyr Heddlu a Throseddau priodol. Mae hyn yn sicrhau y gall Plismona Gwrthderfysgaeth weithredu fel un endid tra'n cael ei angori a'i gysylltu â'r cymunedau lleol mae'n eu gwasanaethu. Fel gweddill y byd plismona, fe'i goruchwylir gan Gyngor Cenedlaethol Penaeithiad yr Heddlu (NPCC) o dan ei Bwyllgor Cydlynu Gwrthderfysgaeth.

Mae'r heddlu'n cyfrannu at bob un o bedwar maes gwaith CONTEST.

Ymlid: Mae Plismona Gwrthderfysgaeth, gan weithio ar y cyd ag MI5, yn casglu ac yn datblygu cudd-wybodaeth, yn cynnal ymchwiliadau gwrthderfysgaeth ac yn amharu ar weithgarwch terfysgol trwy arestiadau a, thrwy'r CPS, erlyniadau.

Atal: Ymysg gweithgareddau eraill, mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn gweithio gyda lluoedd lleol i ddiogelu unigolion a chymunedau sy'n agored i radicaleiddio. Mae'n cefnogi Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill wrth gyflawni eu dyletswydd statudol o dan PREVENT. Ynghyd â lluoedd lleol, mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn amharu ar y rhai hynny sy'n ceisio radicaleiddio.

Amddiffyn: Mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn darparu diogelwch amddiffynnol i'r cyhoedd, lleoedd, y Teulu Brenhinol a Phobl Bwysig Iawn. Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gwrthderfysgaeth (NACTSO) yn gyfrifol am ddatblygu cyfarwyddyd penodol a mae'n cefnogi rhwydwaith o oddeutu 190 o gynghorwyr diogelwch gwrthderfysgaeth (CTSAs) yn genedlaethol, sy'n darparu cyngor a chyfarwyddyd diogelwch amddiffynnol ar gyfer lleoliadau proffil uchel yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Paratoi: Mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn darparu galluoedd ymateb arbenigol, megis arfau tanio, i amddiffyn y cyhoedd os bydd ymosodiad terfysgol yn digwydd ac yn sicrhau'r rhain trwy brofi ac ymarfer.

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae'r CPS yn gyfrifol am erlyn achosion troseddol, gan gynnwys achosion sy'n ymwneud â therfysgaeth, a ymchwylir gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r CPS yn darparu cyngor ymchwiliol cynnar i'r heddlu ac yn gwneud y penderfyniadau ynghylch cyhuddo ac yn erlyn unigolion a gyhuddir. Yn yr Alban, mae Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal (COPFS) yn gyfrifol am ymchwilio ac erlyn troseddau.

Y Labordy Gwyddoniaeth a Thechnoleg Amddiffyn (Dstl). Dstl yw prif asiantaeth y DU ym maes cymhwyso Gwyddoniaeth a Thechnoleg (S&T) i amddiffyn a diogelu'r DU. Mae Dstl yn dwyn ynghyd y gymuned S&T amddiffyn a diogelu gan gynnwys diwydiant, academia, y Llywodraeth ehangach a phartneriaid rhyngwladol, i ddarparu gwasanaethau S&T sensitif ac arbenigol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Llywodraeth ehangach.

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Mae BEIS yn cyfrannu at Amddiffyn a Pharatoi fel adran arweiniol y llywodraeth ar gyfer y sectorau ynni, cemegau a niwclear sifil. Mae'n gyfrifol am osod cyfeiriad polisi i sicrhau amddiffyn cyflenwadau a safleoedd ynni (trydan, nwy, olew) a safleoedd cemegol a safleoedd a deunyddiau niwclear sifil, rhag pob risg, gan gynnwys ymosodiad terfysgol. Mae BEIS hefyd yn cyflenwi'r Rhaglen Lleihau Bygythiad Byd-eang, i sicrhau deunydd radiolegol a niwclear yn rhyngwladol.

Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae DCMS yn arwain ar draws y llywodraeth i sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein. Mae hyn yn cynnwys arwain ar ran LIEM wrth fynd i'r afael â gweithgarwch niweidiol ar-lein. Mae'r adran hefyd yn gyfrifol am berthynas gyffredinol HMG â'r diwydiant technoleg, gan gynnwys Darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu. Mae DCMS hefyd yn arwain ar y Siarter Ddigidol.

Yr Adran Addysg (DfE). Mae DfE yn gyfrifol am waith i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu rhag y risg o radicaleiddio mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Mae gan yr adran rôl bwysig wrth gefnogi sefydliadau i weithredu Atal ac agweddau ar Amddiffyn a Pharatoi trwy helpu i sicrhau bod yr ystâd addysgol yn ddiogel a bod trefniadau effeithiol ar gyfer ymateb i argyfwng yn eu lle.

Yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DExEU). Mae DExEU yn arwain ar drafodaethau i ddatblygu partneriaeth ddofn ac arbennig sy'n cynnwys cydweithredu economaidd a diogelwch i ymladd troseddu a therfysgaeth a chynnal cyfiawnder ledled Ewrop.

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC). Mae DHSC yn gyfrifol am gyfraniad y sector iechyd i CONTEST. Mae hyn yn cynnwys cynnal a datblygu ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau â cholledigion lluosog, gan gynnwys digwyddiadau Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear; a gweithredu'r ddyletswydd Atal yn y sector iechyd.

Yr Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID). Mae gan y DU rôl flaenllaw wrth hyrwyddo ymdrechion datblygu byd-eang trwy gefnogi'r Nodau Byd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae ein cymorth yn canolbwyntio ar wella heddwch, diogelwch a llywodraethu; cyfle cyfartal i ferched a menywod; mynediad i wasanaethau sylfaenol ar gyfer y tlota; a datblygu cydnerthedd yn wyneb argyfyngau ac ymateb i drychinebau pan fyddant yn digwydd. Wrth wneud hynny, mae cymorth datblygu'r DU yn cyfrannu'n sylweddol at ein diogelwch cenedlaethol hirdymor. Mae mynd i'r afael â bregusrwydd a chynyddu sefydlogrwydd dramor yn golygu mynd i'r afael ag achosion craidd nifer o'r heriau rydym yn eu hwynebu, gan gynnwys terfysgaeth. Mae DFID yn gwario o leiaf 50% o'i chyllideb ar wladwriaethau a rhanbarthau bregus, gan gynnwys y rhai hynny sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'n diogelwch cenedlaethol, yn Ne Asia, y Dwyrain Canol ac Affrica.

Yr Adran Drafnidiaeth (DfT). Mae DfT yn arwain ar bolisi diogelwch tir, hedfanaeth a thrafnidiaeth forol y DU yn y DU ac mewn perthynas ag endidau trafnidiaeth y DU sy'n gweithredu dramor. Mae hyn yn cynnwys gosod a gorfodi'r safonau amddiffynnol mae'n ofynnol i weithredwyr rheilffyrdd a threnau, meysydd awyr ac awyrennau a phorthladdoedd a llongau yn y DU a thramor gydymffurfio â hwy (o ran cydymffurfio â safonau yn y sector hedfanaeth yn y DU, mae'r broses hon yn cael ei sicrhau a'i gorfodi gan yr Awdurdod Hedfan Sifil). Mae DfT yn gweithio gyda'r diwydiant trafnidiaeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r asiantaethau diogelwch, i sicrhau bod risgiau'n cael eu deall a bod mesurau lliniaru'n cael eu targedu, yn gymesur ac yn ymarferol.

Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru am y swyddogaethau sydd wedi'u datganoli iddynt yn ôl eu setliadau datganoli gwahanol. Mae gwrthderfysgaeth yn fater a gedwir yn ôl, ond mae llawer o'r mecanweithiau cyflwyno lleol, megis plismona a chyfiawnder yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac iechyd, addysg a llywodraeth leol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon wedi'u datganoli. Dylid nodi hefyd bod yr Alban a Gogledd Iwerddon yn awdurdodaethau cyfreithiol ar wahân i Gymru a Lloegr, ac mae'r Alban yn gweithredu system gyfreithiol wahanol. Yn yr Alban, mae gan yr Arglwydd Adfocad flaenoriaeth i ymchwilio i ac erlyn pob trosedd a marwolaeth sy'n digwydd yn yr Alban, gan gynnwys gweithredoedd terfysgaeth ac mae'r heddlu'n cael ei gyfarwyddo gan yr erllynydd perthnasol ac, yng nghyd-destun digwyddiad mawr, byddai hyn yn cynnwys cael ei gyfarwyddo gan yr Arglwydd Adfocad yn bersonol. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gyfrifol am agweddau ar Atal, agweddau ar ddiogelu mannau gorlawn ac ar gyfer rheoli canlyniadau ehangach yn dilyn ymosodiad.

Y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO). Mae'r FCO a'i Rhwydwaith Gwrthderfysgaeth ac Eithafiaeth dramor yn arwain ar gyflwyno strategaethau gwrthderfysgaeth a gwrtheithafiaeth y Llywodraeth ar lefel ryngwladol, ac ar ymateb i fygythiad ac argyfwng dramor, gan gynnwys Cyngor Teithio i ddinasyddion y DU. Mae hefyd yn cynnal y Tasglu Gwrth-Daesh draws-lywodraethol sy'n sicrhau cydlyniant gweithgarwch ar draws y Llywodraeth i wrthsefyll Daesh yn Syria ac Irac. Mae'r Ysgrifennydd Tramor yn gyfrifol am bolisi tramor y DU a gweithgarwch y Llywodraeth dramor, gan gynnwys elfennau rhyngwladol CONTEST. Mae'r Ysgrifennydd Tramor yn goruchwyllo'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Cyfrinachol (SIS) a Phencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ) ac mae'n atebol i'r Senedd am eu gweithgareddau trwy'r Pwyllgor Cudd-wybodaeth a Diogelwch.

Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ). Mae gan GCHQ ddwy genhadaeth – Cudd-wybodaeth Signalau (a elwir yn SIGINT) a Sicrwydd Gwybodaeth (IA). Mae gwaith SIGINT yn darparu gwybodaeth hanfodol i gefnogi gwneud polisiâu'r Llywodraeth a gweithrediadau ym meysydd diogelwch cenedlaethol, gweithrediadau milwrol, gorfodi'r gyfraith a lles economaidd.

Swyddfa'r Llywodraeth dros Wyddoniaeth (GO-Science). Mae GO-Science yn sicrhau bod polisiâu a phenderfyniadau'r Llywodraeth yn cael eu llywio gan y dystiolaeth wyddonol a'r meddwl hirdymor strategol gorau. Fe'i harweinir gan Brif Gynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth a'i rôl yw cynghori'r Prif Weinidog a'r Cabinet. Mae GO-Science yn gweithio gyda CONTEST i sicrhau ei fod wedi'i ategu gan wyddoniaeth gadarn.

Y Swyddfa Gartref. Yr Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol am CONTEST. Mae'r Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth (OSCT) yn y Swyddfa Gartref yn arwain ar gefnogi'r Ysgrifennydd Cartref wrth ddatblygu, cydlynu a gweithredu CONTEST. Mae hefyd yn galluogi goruchwyllo MI5 a Phlismona Gwrthderfysgaeth; ac yn cydlynu'r ymateb i argyfyngau cysylltiedig â CT.

Mae OSCT yn arwain ar reoli a chyflwyno'r rhaglen Atal, mewn partneriaeth â'r Heddlu Gwrthderfysgaeth, a phartneriaid cyflwyno lleol, cenedlaethol a chymdeithas sifil. Trwy'r Uned Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfathrebu, mae'n cefnogi grwpiau cymdeithas sifil i gyflwyno cyfathrebu gwrth-naratif strategol.

O ran Ymlid, mae OSCT yn berchen ar y polisi ac yn goruchwyllo ymarfer cyfres o bwerau gwrthderfysgaeth aflonyddgar, gan gynnwys gwahardd a Mesurau Atal ac Ymchwilio Terfysgaeth (TPIM), a phwerau mewnfudo ar gyfer effaith gwrthderfysgaeth,

megis cau allan ac amddifadu. Mae'n berchen ar y polisi cyffredinol ar gyfer gwrthsefyll cyllid terfysgol ac yn rheoli'r drefn wahardd ar gyfer y DU. Mae OSCT hefyd yn datblygu, yn gweithredu (fel y bo'n briodol) ac yn adolygu deddfwriaeth CT.

OSCT sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith traws-lywodraethol ar Amddiffyn. Mae'n rheoli'r polisi ar gyfer amddiffyn pobl a lleoedd, gan gynnwys amddiffyn y Teulu Brenhinol a Phobl Bwysig lawn, safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol allweddol, diogelwch mewn mannau gorlawn a mynediad i sylweddau peryglus. Yn ogystal, mae'n cydlynu diogelwch y ffin a hedfanaeth gyda'r heddlu, Llu'r Ffiniau, yr Adran Drafnidiaeth a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

O ran Paratoi, mae OSCT yn rheoli cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer ymateb i ddigwyddiad terfysgol, gan gynnwys trwy gynnal y Rhaglen Ymarferion CT Cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am sicrhau parodrwydd y Llywodraeth ar gyfer y risgiau effaith uchaf sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol, gan gynnwys ymosodiadau arfau tanio terfysgol (MTFA) ac amrywiaeth o senarios cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear. Mae OSCT hefyd yn berchen ar y rhaglen CT Gwyddoniaeth a Thechnoleg, sy'n ceisio nodi atebion gwyddonol a thechnolegol arloesol i gefnogi CONTEST.

Trwy Lu'r Ffiniau, Visas a Mewnfudo'r DU, Gorfodaeth Mewnfudo a Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi, mae'r Swyddfa Gartref yn gyfrifol am ddiogelwch ar y ffiniau, gyda chymorth gan yr heddlu.

Trysorlys EM (HMT). Mae HMT yn cytuno ar gyllid gwrthderfysgaeth a mesurau amddiffyn cyllidebol ag Adrannau yn ystod adolygiadau o wariant, gan gymeradwyo addasiadau yn ystod y flwyddyn i wariant CT a'r trefniadau dylunio a chyllido terfynol ar gyfer y Gronfa Sbarduno Gwrthderfysgaeth newydd. Yn ogystal, mae'n gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Gartref ar yr ymarfer fapio gwrthderfysgaeth blyneddol a pherfformiad gwrthderfysgaeth. Mae'r Trysorlys yn berchen ar berthynas y Llywodraeth â Pool Re – y corff ailyswrio sy'n yswirio yn erbyn gweithredoedd Terfysgaeth pan y'i dynodir gan y Llywodraeth.

Mae'r Trysorlys yn arwain dirprwyaeth y DU i'r Tasglu Gweithredu Ariannol a mae'n POC y DU ar gyfer y Rhaglen Orlhain Cyllid Terfysgaeth. Mae HMT yn berchen ar weithredu cosbau ariannol a rhewi asedau terfysgol, yn berchen ar y ddeddfwriaeth a'r broses weithredu ar gyfer rhewi asedau terfysgol domestig, a mae'n cyd-berchen ar Strategaeth Cyllid Gwrthderfysgaeth y DU. Mae FCO yn arwain ar gyflwyno cynigion dynodi ar gyfer rhestriadau Daesh ac ISIL yn y Cenhedloedd Unedig.

Mae'r Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol (OFSI) yn helpu i sicrhau bod sancsiynau ariannol yn cael eu deall, eu gweithredu a'u gorfodi'n gywir yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys holl gosbau CU, UE, a CT y DU). OFSI sy'n berchen ar y broses weithredu ac adolygu ar gyfer ystyried dynodiadau newydd ar gyfer cyfundrefn sancsiynau gwrthderfysgaeth ddomestig y DU (y Ddeddf Rhewi Asedau Terfysgaeth).

Cyd-uned Gwrthderfysgaeth Ryngwladol (JICTU). Sefydlwyd JICTU ym mis Ebrill 2016, yn unol ag ymrwymiad a wnaed yn NSS/SDSR 2015. Yr uned yw'r ganolfan strategol ar gyfer gwaith gwrthderfysgaeth y DU dramor, gan ddod ag arbenigedd Swyddfa'r Dramor a'r Gymanwlad, y Swyddfa Gartref ac Adrannau eraill ynghyd. Mae'n datblygu strategaethau traws-lywodraethol ar gyfer gwaith gwrthderfysgaeth dramor; yn goruchwylio cyllid wedi'i ehangu ar gyfer gwaith cynyddu cymorth a gallu dramor; ac yn arwain ein hagenda wrthderfysgaeth yn rhyngwladol. Mae'r uned yn adrodd wrth yr Ysgrifenyddion Cartref a Thramor.

Tîm Amddiffyn a Pharatoi Tramor ar y Cyd (JOPP). Mae JOPP yn uned ar y cyd â'r Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad sy'n meithrin perthnasoedd â Llywodraethau eraill, gan eu helpu i gryfhau diogelwch amddiffynnol mewn lleoliadau tramor allweddol, cynyddu dealltwriaeth y Llywodraeth o allu lleol i amddiffyn twristiaid Prydeinig, ac ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ymosodiadau terfysgol ac yna'n gweithio i leihau'r risg trwy gydweithio â gwladwriaethauau lletyol i wella eu galluedd.

Cyd-ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth (JTAC). JTAC yw canolfan y DU ar gyfer dadansoddi ac asesu terfysgaeth ryngwladol o bob ffynhonnell. Mae JTAC yn gosod lefelau bygythiad ac yn cyhoeddi adroddiadau dadansoddol i adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth.

Awdurdodau Lleol. Gyda'u cyfrifoldebau eang ac atebolrwydd democrataidd, mae awdurdodau lleol yn hanfodol i waith CONTEST. Dylai awdurdodau lleol ymgysylltu â gwaith amlasiantaethol i gytuno ar risg a chydlynu gweithgarwch CONTEST. Dylent hefyd ddefnyddio'r proffiliau gwrthderfysgaeth lleol (CTLPS) ym mhob rhanbarth i asesu unigolion sydd mewn perygl o gael eu denu at derfysgaeth.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD). Mae'r MOD yn cyfrannu at CONTEST gan ddefnyddio ei gallu milwrol. Mae'n cefnogi Ymlid trwy ei gallu i amharu ar grwpiau terfysgol dramor, megis Daesh yn Syria ac Irac, yn ogystal â thrwy ddatblygu gallu gwrthderfysgaeth ar gyfer cenedloedd partner, a chefnogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith a diogelwch dramor. Mae ei chymorth ar gyfer gwaith atal gwrthdaro hefyd yn cyfrannu at amcanion CONTEST. Os bydd ymosodiad terfysgol yn digwydd sy'n fwy na gallu neu gapasiti uniongyrchol ymateb sifilaidd y DU, gallai'r MOD ddarparu cymorth i Baratoi trwy Gymorth Milwrol i'r Awdurdodau Sifil (MACA).

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Y MHCLG sy'n gosod y fframwaith trosfwaol ar gyfer llywodraeth leol. Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig wrth weithredu Atal, mewn partneriaeth ag asiantaethau a grwpiau cymdeithas sifil eraill ac agweddau ar Amddiffyn a Pharatoi, gan gynnwys diogelwch amddiffynnol seilwaith a mannau gorlawn a chydnerthedd lleol. Mae'r Weinyddiaeth yn helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer, ymateb i, ac adfer wedi argyfyngau, ac mae'n darparu swyddogion cyswllt y Llywodraeth fel y cyswllt rhwng ymatebwyr lleol a COBR.

MI5. Cenhadaeth MI5 yw cadw'r wlad yn ddiogel. Ar hyn o bryd, defnyddir oddeutu 80% o adnoddau MI5 i gefnogi gwaith gwrthderfysgaeth. Mae MI5 yn ymchwilio i fygythiadau i ddiogelwch cenedlaethol trwy gasglu cudd-wybodaeth gyfrinachol, a thrwy gydweithio'n agos â phartneriaid eraill yn y DU a thramor. Mae MI5 yn gwneud hyn o fewn fframwaith llym o ddeddfwriaeth a goruchwyliaeth i sicrhau y defnyddir ei bwerau ymchwilio dim ond lle bo hynny'n angenrheidiol a lle bo'n gymesur i wneud hynny. Mae MI5 wedi gwella'n fawr ei allu i weithio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol trwy sefydlu rhwydwaith o orsafoedd ledled y wlad. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU, gan gynnwys yr holl heddluoedd rhanbarthol, yn cynnal perthynas waith agos ag MI5 ar faterion gwrthderfysgaeth.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yn rheoli'r risgiau a gyflwynir gan dramgwyddwyr terfysgol ac eithafol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, yr heddlu a'r asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth.

Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA). Mae NCA yn Arwain brwydr gorfodi'r gyfraith y DU i gwtogi ar droseddau difrifol a threfnedig. Mae'r NCA yn arwain ar fygythiad ar gyfer nifer o ffactorau galluogi sy'n arwain at risg gynyddol o derfysgaeth, gan gynnwys arfau tanio anghyfreithlon, smyglo pobl a nwyddau, gweithgarwch anghyfreithlon mewn carchardai,

seiberdroseddu a throseddu ariannol, ac mae'n cydweithio'n agos â Phlisma Gwrthderfysgaeth. Mae gan yr NCA hefyd rwydwaith o swyddogion cyswllt rhyngwladol ac mae'n fan cyswllt cenedlaethol ar gyfer Europol ac Interpol.

Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC). Mae NCSC yn rhan o GCHQ a daeth yn weithredol ym mis Hydref 2016. Yr NCSC yw awdurdod technegol y DU ar seiberddiogelwch ac mae'n darparu corff unigol, canolog ar gyfer seiberddiogelwch ar lefel genedlaethol. Mae'n rheoli digwyddiadau seiberddiogelwch cenedlaethol, yn cynnal dadansoddiad o fygythiadau amser real ac yn darparu cyngor sectoraidd wedi'i deilwra.

Cyngor Diogelwch Cenedlaethol (NSC). NSC yw'r prif fforwm ar gyfer cyd-drafod amcanion y Llywodraeth ar gyfer diogelwch cenedlaethol a'r ffordd orau i'w cyflawni yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Diben allweddol y Cyngor yw sicrhau bod gweinidogion yn ystyried diogelwch cenedlaethol yn drwyadl a mewn ffordd strategol. Mae'r Cyngor yn cyfarfod bob wythnos ac yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog.

Swyddfa Gogledd Iwerddon (NIO). Mae'r NIO yn cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon ac mae'n gyfrifol am gydlynw'r ymagwedd strategol at fynd i'r afael â'r bygythiad o derfysgaeth sy'n gysylltiedig â Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon.

Y Gwasanaeth Cudd-wybodaeth Gyfrinachol (SIS). Mae SIS yn defnyddio ein rhwydwaith cyfrinachol o asiantau a phartneriaid dramor i dreiddio grwpiau terfysgol, canfod bygythiadau i'r DU a'n buddiannau, ac amharu ar y rhai hynny mewn ffordd gyfreithlon. Rydym yn gweithio'n gudd i ddiraddio sefydliadau terfysgol ac yn gwadu mannau gweithredu diogel dramor iddynt.

